Partneriaeth Cydwasanaethau
GIG Cymru

# Cynllun Tymor Canolig Integredig

## 2024-2027










GIG CYMRU NHS WALES
Partneriaeth Cydwasanaethau
Shared Services Partnership

# Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
# Cynllun Tymor Canolig Integredig 2024-27

## *Sicrhau Gwerth, Arloesedd a Rhagoriaeth drwy Bartneriaeth*




Os hoffech ragor o gopïau o'r ddogfen hon, gellir lawrlwytho fersiynau Saesneg a Chymraeg o'n gwefan.

Fel arall, os oes angen y ddogfen arnoch mewn fformat arall, gallwn roi crynodeb o'r ddogfen hon mewn ieithoedd gwahanol, mewn print mwy neu Braille.

**Ffôn:** 02921 500500 – Charnwood Court HQ

**Gwe:** nwssp.nhs.wales

**Twitter:** @nwssp

**E-bost:** Shared.Services@wales.nhs.uk

GIG CYMRU NHS WALES | Partneriaeth Cydwasanaethau Shared Services Partnership

# Cynnwys


Neges gan y Cadeirydd a'r Rheolwr Gyfarwyddwr.......................... 4 - 5

Crynodeb Gweithredol ........................................................... 6 - 13

Dull ein Cynllun Tymor Canolig Integredig.................................. 14 - 17

Ein Nodau Strategol.................................................................. 18 - 50

Blaenoriaethau Gweinidogol..................................................... 52 - 57

Swyddogaethau Cefnogi Craidd................................................ 58 - 64

Atodiad A – Ein Cynllun Digidol.......................................... 66 - 74

Atodiad B – Ein Cynllun Ariannol........................................ 75 - 87

Atodiad C – Ein Cynllun Pobl............................................. 88 - 102

Atodiad D – Mesurau Perfformiad Allweddol......................... 103 - 111

Atodiad E – Mesurau Canlyniadau...................................... 112 - 114

Atodiad F – Dyletswydd Ansawdd....................................... 115 - 122

Atodiad G – Cynlluniau Blwyddyn 2 a Blwyddyn 3.................. 123 - 125


## Allwedd y Ddyletswydd Ansawdd

Rydym wedi dangos ein hymrwymiad i'r Ddyletswydd Ansawdd drwy gydol ein Cynllun Tymor Canolig Integredig gan ddefnyddio logos y Safon Iechyd a Gofal perthnasol i nodi ffrydiau gwaith cysylltiedig.

Arweinyddiaeth Leadership | Gweithlu Workforce | Diwylliant Culture | Gwybodaeth Information | Gwella, dysgu ac ymchwil Learning, improvement and research | Ymagwedd systemau cyfan Whole systems approach

Diogel Safe | Amserol Timely | Effeithiol Effective | Effeithlon Efficient | Teg Equitable | Person ganolog Person centred

# Neges gan y Cadeirydd a'r Rheolwr Gyfarwyddwr

Croeso i'n Cynllun Tymor Canolig Integredig 2024-25 ar gyfer Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Mae'r cynllun hwn yn nodi ein blaenoriaethau gweithredol allweddol ar gyfer y flwyddyn i ddod, sef 2024-25, ac yn darparu map ffordd dangosol o'r gwaith a gynllunnir ar gyfer y dyfodol dros y tair blynedd nesaf.

Mae'r cynllun hwn yn disgrifio pwy ydym ni, beth rydym yn ei wneud a sut byddwn yn cefnogi'r GIG yng Nghymru drwy ***Sicrhau Gwerth, Arloesedd a Rhagoriaeth drwy Bartneriaeth.***

Wrth edrych yn ôl ar 2023-24, mae PCGC wedi cadw at y targed o ran y rhan fwyaf o'r amcanion y cytunwyd arnynt yn ein Cynllun Tymor Canolig Integredig. Ac wrth ymateb i alwad Llywodraeth Cymru i weithredu, rydym wedi gor-gyflawni cyfanswm o £3m o arbedion ar gyfer 2023-24.

Byddwn yn parhau i chwarae rhan allweddol yn y trefniadau Gwerth a Chynaliadwyedd sydd eisoes ar waith gan Lywodraeth Cymru, gan arwain ar sawl menter:

- Gwariant caffael a gwariant nad yw'n ymwneud â chyflogau ar draws GIG Cymru; edrych ar leihau amrywiadau direswm, yn ogystal â thargedu cyfleoedd am arbedion ochr yn ochr â chefnogi twf yn yr economi sylfaenol.
- Rheoli meddyginiaethau a phrynu cyffuriau'n fwy effeithiol i'w defnyddio wrth drin cleifion yng Nghymru.
- Trefniadau effeithiol gweithlu'r GIG drwy ein gwasanaethau cyflogres a recriwtio, ac arwain ar weithgarwch recriwtio rhyngwladol.

Rydym hefyd wedi gweithredu'r Ddyletswydd Ansawdd a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2023. Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar ddatblygu ein trefniadau adrodd Ar waith bob amser. Rydym wedi nodi sawl maes arfer da, a byddwn yn rhoi sicrwydd i'n partneriaid ynghylch sut yr ydym yn bodloni gofynion y ddeddfwriaeth newydd hon sy'n cynnwys gwasanaethau anghlinigol.



Rydym wedi parhau i dyfu ein hamrediad o wasanaethau, gan gynnwys Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a gwaith paratoi ar gyfer y newidiadau i'r Gwasanaeth Offthalmig Cyffredinol a chyflwyno'r gwasanaeth e-ragnodi yng Nghymru. Byddwn yn barod ar gyfer lansiad statudol y Gwasanaeth Archwilio Meddygol, y disgwylir iddo ddechrau yng ngwanwyn 2024.

Ein cwsmeriaid craidd yw Llywodraeth Cymru a sefydliadau partner y GIG yng Nghymru. Ac rydym yn cydnabod bod holl staff y GIG, ein cyflenwyr, contractwyr annibynnol, cleifion a chenedlaethau'r dyfodol sy'n byw yng Nghymru yn teimlo effaith ehangach pa mor dda rydym yn darparu ein gwasanaethau. Mae ansawdd ein gwasanaethau yn rhan hanfodol o fesur ein perfformiad fel sefydliad. Roeddem yn falch iawn felly mai ni oedd sefydliad cyntaf y GIG yng Nghymru i ennill yr achrediad Rhagoriaeth mewn Gwasanaeth Cwsmeriaid yn 2023-24 ar lefel gorfforaethol, ar draws ein holl feysydd gwasanaeth ac Is-adrannau. Roedd hwn yn ddilysiad annibynnol o gyflawniad ar draws amrywiaeth o gymwyseddau gwasanaeth cwsmeriaid craidd. Byddwn yn parhau i ddefnyddio hyn fel sbardun gwelliant parhaus ac fel offeryn datblygu sgiliau ar gyfer ein staff i ddatblygu ffocws cwsmeriaid ac ymgysylltu â chwsmeriaid ymhellach.

Ac edrych ymlaen at 2024-25, ni ellir anwybyddu'r heriau ariannol sy'n wynebu'r GIG yng Nghymru. Er ein bod yn gweithio i sicrhau cyllideb gytbwys unwaith eto, bydd hynny'n galw am graffu ar ein cynlluniau gwella a rheoli risgiau a nodwyd yn ofalus. Mae gennym hanes profedig o drosi heriau yn gyfleoedd, i roi newid ar waith, i wneud pethau'n wahanol, i adeiladu cadernid a gwella ansawdd gwasanaethau a, lle bo modd, lleihau gwastraff a lleihau costau. Rydym am barhau i wneud y mwyaf o gyfleoedd i fabwysiadu arfer da, yn gyson ar draws GIG Cymru, safoni a lleihau amrywiadau direswm yn ein gwasanaethau ein hunain.

Rhaid inni fod yn rhagweithiol wrth ddangos tystiolaeth o werth y gwaith a wnawn i GIG Cymru. Rhaid inni sicrhau'r adenillion mwyaf posibl o fuddsoddiadau a wneir mewn systemau digidol newydd, gan fod y buddsoddiad cyfalaf ychwanegol a fydd ar gael yn debygol o fod yn gyfyngedig iawn. Bydd angen i ni hefyd fesur ac adrodd ar fanteision gwireddu'r newidiadau rydym wedi'u gwneud i fodelau gwasanaeth a phrosesau sylfaenol i wella ansawdd a mynd i'r afael â gweithgarwch neu gymhlethdod cynyddol.

Mae angen i ni gynnal y momentwm o ran gweithredu'r Ddyletswydd Ansawdd a blaenoriaethu llesiant ein staff sy'n parhau i fynd yr ail filltir i ni. Mae angen inni hefyd fynd i'r afael â'n gofynion ein hunain o ran gweithlu, gan gynnwys y meysydd hynny lle'r ydym yn gallu cael trafferth recriwtio a chadw pobl. Ac rydym am ehangu amrywiaeth ein gweithlu, fel ei fod yn cynrychioli'n cymunedau ledled Cymru yn well.

Crëwyd PCGC yn 2011 i ddarparu ystod o wasanaethau proffesiynol, technegol a gweinyddol i'n partneriaid ar draws y GIG yng Nghymru. Ers hynny, rydym wedi tyfu o ran cwmpas a hyder, gan sicrhau enw da am gyflawni ar amser, o fewn y gyllideb ac i safon uchel. Mae gennym ymagwedd gadarnhaol, 'gallu gwneud', at fynd i'r afael â'r heriau y mae ein partneriaid yn y GIG yn eu hwynebu a'r blaenoriaethau ehangach y mae Gweinidogion Cymru yn eu hwynebu. Bydd angen i'n tîm arwain a'n staff fanteisio ar y cryfderau craidd hyn wrth inni symud ymlaen i 2024-25, ac mae'r cynllun hwn yn nodi ein meysydd ffocws allweddol.



**Neil Frow,**

*Rheolwr Gyfarwyddwr*



**Tracy Myhill,**

*Cadeirydd*

# Crynodeb Gweithredol



GIG CYMRU NHS WALES | Partneriaeth Cydwasanaethau Shared Services Partnership

## Crynodeb Gweithredol

### Sicrhau Gwerth, Arloesedd a Rhagoriaeth drwy Bartneriaeth

Mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC) yn darparu ystod eang o wasanaethau proffesiynol, technegol a gweinyddol o ansawdd uchel i GIG Cymru, gan weithio gyda gwasanaethau cyhoeddus ehangach, gan gynnwys Llywodraeth Cymru.

Mae PCGC yn rhan annatod o deulu GIG Cymru, yn cefnogi darparu gwasanaethau i staff a chleifion Byrddau Iechyd, Ymddiriedolaethau ac Awdurdodau Iechyd Arbennig yng Nghymru. Rydym hefyd yn darparu ystod o wasanaethau i ofal sylfaenol: Meddygfeydd, deintyddion, optegwyr a fferyllfeydd cymunedol ac, o 1 Ebrill 2023, fe ddechreuon ni ddarparu gwasanaethau i Gorff Llais y Dinesydd, Llais, trwy gytundeb lefel gwasanaeth.

### Ein Gwasanaethau

- Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd
- Gwasanaethau'r Golchdy
- Gwasanaethau Cyllid a Chorfforaethol
- Cyfrifon Taladwy
- Cyflogwr Arweiniol ar gyfer hyfforddeion meddygol, deintyddol a fferylliaeth
- Cynllunio, Perfformiad a Gwybodeg
- Gwasanaethau Atal Twyll yng Nghymru
- Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg
- Pobl a Datblygu Sefydliadol
- Tîm Canolog e-Fusnes
- Archwilio Meddygol
- Y Labordy Profi Dyfeisiau Llawfeddygol
- Datrysiadau Gweithlu Digidol
- Gwasanaethau Gofal Sylfaenol
- Aberthu Cyflog
- Gwasanaethau Cyflogaeth
- Gwasanaethau Caffael a Chadwyni Cyflenwi
- Gwasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr
- e-alluogi
- Gwasanaethau Fferylliaeth
- Cronfa Risg Cymru
- Yr Academi Gyllid (wedi'i lletya)
- Gwasanaethau Ystadau Arbenigol
- Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru
- Gwasanaeth Negesydd Iechyd

Fel sefydliad a gynhelir, rydym yn gweithredu o dan fframwaith cyfreithiol Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre. Mae ein Rheolwr Gyfarwyddwr, Neil Frow, yn atebol i sefydliadau eraill y GIG drwy Bwyllgor Partneriaeth y Cydwasanaethau (y pwyllgor partneriaeth) sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Sefydliadau'r GIG sy'n defnyddio ein gwasanaethau a Llywodraeth Cymru. Mae'r Pwyllgor Partneriaeth yn cael ei gadeirio gan Tracy Myhill ac mae'n cyfarfod bob deufis. Mae gennym nifer o is-bwyllgorau a grwpiau ymgynghorol hefyd.

Yn sail i'r Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) tair blynedd hwn mae cynlluniau cyflawni manylach ar gyfer pob isadran a maes gwasanaeth. Adroddir ar gynnydd yn erbyn ein cynllun bob chwarter i'r pwyllgor partneriaeth a rhennir copi o'r adroddiad hwn gyda Llywodraeth Cymru hefyd. Cynhelir adolygiadau perfformiad chwarterol gyda phob maes gwasanaeth yn ystod y flwyddyn. Mae'r cyfarfodydd adolygu hyn yn gyfle i liniaru risg i gyflawni, cymeradwyo newidiadau i'r cynlluniau is-adrannol ac addasu'r cynlluniau i ofynion newidiol a blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg.

Yn ystod y flwyddyn, rydym hefyd yn cael o leiaf ddau gyfarfod craffu gyda Judith Paget, Prif Weithredwr GIG Cymru, ac aelodau o'r uwch dîm yn Llywodraeth Cymru. Pwrpas y cyfarfodydd hyn yw trafod perfformiad yn erbyn ein cynllun ac ystyried risgiau a chyfleoedd rydym wedi'u nodi.



Mae ein CTCI yn amlinellu Sicrhau Gwerth, Arloesedd a Rhagoriaeth drwy Bartneriaeth ar draws ein holl wasanaethau, gan ymgorffori gofynion polisi allweddol ar gyfer GIG Cymru. Mae hyn yn cynnwys ymgorffori egwyddorion o **Gymru Iachach a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**, ac rydym hefyd yn cymryd rôl flaenllaw wrth ychwanegu dylanwad proffesiynol at fynd i'r afael â datgarboneiddio a'r newid yn yr hinsawdd yn y GIG yng Nghymru.

Fel sefydliad sy'n gweithio ar lefel genedlaethol a lleol ledled Cymru, rydym yn ymgysylltu'n rheolaidd ag Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC) gyda'r nod o gysoni ein priod gynlluniau a nodi cyfleoedd am ymdrechion cydweithredol tuag at ein nodau cyffredin.

Rydym yn deall bod y ffocws uniongyrchol ar sefyllfa ariannol gyffredinol GIG Cymru ac, felly, mae ein cynlluniau wedi'u datblygu i sicrhau ein bod yn canolbwyntio'n fanwl ar gynaliadwyedd ariannol. Ochr yn ochr â hyn, rydym yn parhau i gryfhau ein rhaglenni gwaith Cymru Gyfan i leihau gwastraff, lleihau amrywiadau a chynyddu effeithlonrwydd. Yn ogystal, rydym yn cydnabod y rhan hollbwysig yr ydym yn ei chwarae o fewn y rhaglen Gwerth a Chynaliadwyedd ar lefel genedlaethol.

Ar lefel leol, mae hyn hefyd yn golygu canolbwyntio ar ein rhagdybiaethau cynllunio gweithlu ein hunain a'n gorbenion, gan gynnwys gofynion llety, canlyniadau a chipio effaith ein gwaith. Mae hyn yn helpu i flaenoriaethu adnoddau, gwneud penderfyniadau gwybodus a gwneud y mwyaf o gyfleoedd i fabwysiadu arfer da. At hynny, mae ein hymrwymiad yn ymestyn i safoni a lleihau amrywiadau ar draws GIG Cymru yn y gwasanaethau a ddarparwn.





Mae troi heriau yn gyfleoedd yn cyd-fynd â chryfderau PCGC wrth gefnogi GIG Cymru. Mae gennym nifer o gyfleoedd allweddol sy'n cynnwys:

- Cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar swyddogaethau hunanwasanaeth, gyda chymorth gan ein defnyddwyr arbenigol.
- Lleihau amrywiadau diangen a symud tuag at fodelau gweithredu cyffredin a safoni.
- Rhoi nifer o fentrau polisi allweddol ar waith, gan gynnwys Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, Cynllun Gweithredu Amrywiaeth a Chynhwysiant a threfniadau Codi Llais heb Ofn, ochr yn ochr â'r Ddyletswydd Ansawdd.
- Mabwysiadu egwyddorion gweithio ystwyth i gyflogi pobl o bob rhan o Gymru yn eu cymuned.
- Sicrhau'r adenillion mwyaf posibl o fuddsoddiad mewn systemau a chymwysiadau digidol newydd.

Felly, rydym wedi cytuno â'n Pwyllgor partneriaeth ar yr egwyddorion cyffredinol canlynol ar gyfer y 12 mis nesaf, sy'n sail i Flwyddyn 1 y CTCI tair blynedd.

## Egwyddorion Cyffredinol ar gyfer 2024-25



### Gwneud y pethau sylfaenol yn dda

Mae PCGC wedi ymrwymo i ddarparu sylfaen gadarn ar gyfer GIG Cymru, drwy ddarparu gwasanaethau dibynadwy i'n partneriaid. Mae ffocws ar ragoriaeth yn hanfodol i lwyddiant cyffredinol ein CTCI ac rydym yn deall yr effaith y mae hyn yn ei chael ar ddarparu gofal iechyd ledled Cymru. Yn 2023, enillodd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru achrediad corfforaethol ar gyfer Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cwsmeriaid, gan amlygu ein hymroddiad i sicrhau bod rhagoriaeth wrth wraidd ein gwasanaethau.




### Cynaliadwyedd Ariannol

Rydym wedi ymrwymo o hyd i gyllideb gytbwys, i gydymffurfio â'n dyletswydd i adennill costau a chynllun ailfuddsoddi wedi'i dargedu ar gyfer y gwasanaethau hynny gan PCGC sy'n cefnogi ein Blaenoriaethau Gweinidogol yn uniongyrchol. O fewn ffrydiau gwaith Gwerth a Chynaliadwyedd, rydym yn arwain mewn tri maes: y gweithlu, meddyginiaethau a rhagnodi, a gwariant caffael a gwariant nad yw'n ymwneud â chyflogau. Yn ogystal, rydym yn asesu effaith amrywiadau direswm ar ein gwasanaethau ein hunain.




### Dyletswydd Ansawdd

Mae hon yn flaenoriaeth allweddol i Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru gan ei bod yn cyd-fynd â'n nod cyffredinol, sef **Sicrhau Gwerth, Arloesedd a Rhagoriaeth drwy Bartneriaeth.** Rydym yn deall y rôl hanfodol rydym yn ei chwarae wrth gefnogi agweddau amrywiol ar gyflenwi gofal iechyd, gan gynnwys caffael, fferylliaeth a gwasanaethau gweithlu. Mae ein haliniad â'r Ddyletswydd Ansawdd yn atgyfnerthu ein hymroddiad i wella ansawdd ac effeithiolrwydd cyffredinol ein gwasanaethau ledled Cymru.



### Llesiant Staff

Byddwn yn parhau i ddarparu cefnogaeth i'n holl staff i hyrwyddo llesiant corfforol, meddyliol ac ariannol. Byddwn yn cynnal y dull partneriaeth cryf yr ydym wedi bod yn ei adeiladu gyda'n hundebau llafur wrth inni lywio newid parhaus, gan sicrhau bod lleisiau ein staff nid yn unig yn cael eu clywed, ond eu bod yn cael sylw hefyd.

Rydym wedi ymrwymo i wneud y mwyaf o gyfleoedd i ymestyn a gwella ymhellach ein safonau ansawdd, lleihau gwastraff, a lleihau amrywiadau i sicrhau cysondeb ar draws ein holl wasanaethau. Mae cyflawni'r cynllun yn peri heriau o ystyried yr ansicrwydd parhaus yn y dirwedd economaidd ehangach a'r risgiau cysylltiedig i'n rhagdybiaethau ariannol, fodd bynnag, credwn yng nghryfder cynhenid y cynllun i yrru arloesedd a rhagoriaeth yn y gwasanaethau a ddarparwn.

# Map Strategaeth PCGC

## Sicrhau Gwerth, Arloesedd a Rhagoriaeth drwy Bartneriaeth

## Ein Gwerthoedd

***Gwrando a Dysgu***
Ystyried yn barhaus a gwella ansawdd ac effeithiolrwydd popeth a wnawn.


***Cymryd Cyfrifoldeb***
am benderfyniadau dewr a thosturiol a gwneud i'r pethau iawn ddigwydd.

***Gweithio gyda'n gilydd***
Gyda chydweithwyr, cwsmeriaid a chyflenwyr.

***Arloesi***
Bod yn ddewr a chreadigol trwy welliant parhaus.

## Ein Nodau Strategol

### *Ein Pobl*
Cydweithio i fod y gorau y gallwn fod



#### *Canlyniadau*

Byddwn yn creu cyfleoedd i'n staff presennol a'n staff yn y dyfodol wneud y gorau o'u potensial a meithrin ein cyflenwad o dalent.

Byddwn yn cynyddu amrywiaeth ein gweithlu ac yn hybu'r defnydd o'r Gymraeg ym mhopeth a wnawn.

Byddwn yn hyrwyddo lles corfforol ledled y sefydliad i gefnogi ein staff.

Byddwn yn gwrando ar ein staff ac yn dysgu oddi wrthynt i gyd-gynhyrchu atebion arloesol gyda'n partneriaid.

### *Ein Gwasanaethau*
Ysgogi arloesedd a darparu gwasanaethau o ansawdd uchel yn gyson



#### *Canlyniadau*

Byddwn yn galluogi ein timau sy'n delio â chwsmeriaid i gau mwyafrif yr ymholiadau ar y cyswllt cyntaf, trwy wella cyflymder y gwasanaeth, ansawdd a phrofiad.

Byddwn yn ysgogi arloesedd, gan osod y safon ar gyfer arfer da, a gwella ein prosesau drwy awtomeiddio.

Byddwn yn meithrin partneriaethau ag arweinwyr diwydiant a sefydliadau academaidd ac yn ceisio statws Prifysgol.

Byddwn yn cael ein llywio gan ddata, gan rannu gwybodaeth â'n partneriaid i ddylanwadu ar y gwaith o wneud penderfyniadau ar draws GIG Cymru.

### *Ein Gwerth*
Gwneud y mwyaf o fudd, effeithlonrwydd ac effaith gymdeithasol yr hyn a wnawn i'n partneriaid



#### *Canlyniadau*

Byddwn yn gwneud penderfyniadau buddsoddi beiddgar sy'n ysgogi trawsnewid ac yn ychwanegu gwerth.

Byddwn yn arwain y ffordd ac yn mynnu'r newidiadau sydd eu hangen gan eraill i ymdrin â'r argyfwng newid hinsawdd a chyflawni targedau datgarboneiddio.

Byddwn yn defnyddio ein hadnoddau'n effeithlon ac yn cael effaith gadarnhaol ar sail gymdeithasol a chynaliadwy.

Byddwn yn arwain cyfleoedd i gynyddu buddsoddiad yn yr economi sylfaenol ledled Cymru fel cyfran gynyddol o'n cadwyn gyflenwi.



## Llwyddiannau, Arloesedd ac Astudiaethau Achos


- Gwobr Esblygu – Sganio er Diogelwch / Endosgopi
- Adolygiad Tystiolaeth o Wyntyllau a Gwyntyllau Twymo mewn Lleoliadau Gofal Iechyd
- Cyflenwi'r Gwasanaeth Presgripsiynau Electronig yng Nghymru
- Achrediad Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cwsmeriaid
- Moderneiddio'r Gyflogres
- Rhaglen Rhwydwaith 75 Gwasanaethau Ystadau Arbenigol
- E-ddysgu Ymwybyddiaeth o Dwyll GIG Cymru
- ISO2000-1 Rheoli Gwasanaethau
- Recriwtio Rhyngwladol
- Rhannu Gwybodaeth Archwilio Mewnol
- System Dalu Meddygon Teulu – Gweithio gyda Gogledd Iwerddon
- Rhannu Data mewn Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg

# Ffigurau Allweddol

Gyda chyllideb o dros **£677.425m** a **5,777** o bobl yn 2023*, roeddem yn gallu:




Cyflawni **£166m** o arbedion dylanwad proffesiynol



Anfon **18,000** o gynigion recriwtio amodol




Delio â dros **15m** o eitemau i'w golchi




Arbed tua **810,000g/kmg** o $CO^2$ drwy gynyddu ein cerbydau fflyd trydan




Prosesu mwy na **43m** o bresgripsiynau





Paratoi **6182** o feddyginiaethau i'w chwistrellu, parod i'w defnyddio, ar gyfer gwasanaethau gofal critigol a chanser




Prosesu mwy nag **1.5m** o anfonebau




Arbed **£140k** mil wrth brynu a dosbarthu meddyginiaethau Cymru gyfan (Apixaban)



Sganio **62,592,436** o ffurflenni presgripsiwn



Cofrestru **470** o nyrsys cofrestredig rhyngwladol



Prosesu dros **1.2m** o slipiau cyflog

**Ers mis Mawrth 2020 fe wnaethom lwyddo i:**



Wedi danfon mwy na **2.03b** o eitemau o gyfarpar diogelu personol



Wedi danfon **6.9m** o ddosau brechlyn i dros **110** o leoliadau

***ar 30 Tachwedd 2023***

# Dull ein Cynllun Tymor Canolig Integredig


GIG CYMRU NHS WALES | Partneriaeth Cydwasanaethau Shared Services Partnership

# Dull ein Cynllun Tymor Canolig Integredig

Buom yn gweithio gyda'n partneriaid i ddatblygu cynlluniau CTCI blaengar ar gyfer 2024-27 i ymateb i'r amgylchedd sy'n newid yn gyflym, gan gynnwys cydweithio ag AaGIC ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru a thrwy ein Pwyllgor Partneriaeth.




Mae ein holl isadrannau wedi datblygu cynllun tair blynedd ar gyfer eu meysydd gwasanaeth priodol, gan ei gysoni â'r map ffordd isod. Bydd cynlluniau adrannol blwyddyn un manwl yn ffurfio adran dau ein CTCI cyhoeddedig, gan ddangos eu bod yn cyd-fynd â'n hamcanion strategol cyffredinol.



Mae ein cynllun blwyddyn un ar gyfer 2024-25 wedi'i grynhoi'n Gynllun ar Dudalen, ar **dudalen 17** y ddogfen hon, gan bwysleisio elfennau hanfodol sy'n cyd-fynd ag amcanion strategol a Blaenoriaethau Gweinidogol. Bydd y cynllun hwn yn llywio cyflymder y newid ac yn gosod y capasiti ar gyfer cynlluniau blwyddyn dau a thri dilynol, a grynhoir yn Atodiad G.

Mae manylion atodol sy'n ategu cynnwys ein cynlluniau i'w gweld yn yr atodiadau:

- Atodiad A Ein Cynllun Digidol – Digidol fel galluogwr
- Atodiad B Ein Cynllun Ariannol
- Atodiad C Ein Cynllun Pobl – Dyma ein PCGC ni
- Atodiad D Mesurau Perfformiad Allweddol
- Atodiad E Mesurau Canlyniadau
- Atodiad F Dyletswydd Ansawdd
- Atodiad G Cynlluniau Blwyddyn 2 a Blwyddyn 3

## Monitro cynnydd yn erbyn ein cynllun

Mae gan PCGC broses Adolygu Perfformiad Chwarterol ar waith, sef y prif fecanwaith a ddefnyddiwn i fonitro perfformiad ein sefydliad, yn unol â'n Fframwaith Rheoli Perfformiad. Rydym yn darparu adroddiadau cynnydd ar ein CTCI i'r Pwyllgor Partneriaeth ac i Lywodraeth Cymru.

Defnyddir cyfarfodydd Adolygu Chwarterol gydag isadrannau i asesu ein cynnydd yn erbyn amcanion is-adrannol y CTCI, mesurau perfformiad, cofrestrau risg a pherfformiad y gweithlu a pherfformiad ariannol. Maent hefyd yn gyfle i adolygu gwaith rhagweithiol yn ymwneud â chefnogi a datblygu ein pobl yn ôl isadran.

Mae PCGC wedi ailddechrau cyfarfodydd perfformiad sefydliadol un i un yn rheolaidd. Pwrpas y cyfarfodydd hyn yw trafod perfformiad presennol y gwasanaethau a ddarparwn a, hefyd, ymchwilio i fentrau cenedlaethol tra'n deall heriau lleol lle y gall PCGC gynnig cymorth.

Mae ein cynlluniau CTCI is-adrannol yn parhau i gael eu monitro gan ddefnyddio offeryn olrhain byw, Microsoft Lists. Mae hyn yn darparu cysondeb yn ein dull o fonitro yn ogystal â gwireddu'r elw ar fuddsoddiad yn Microsoft Office 365. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei bwydo i mewn i'n proses Adolygu Perfformiad Chwarterol sy'n cefnogi ein gallu i adrodd, addasu i ofynion newidiol a chymhwyso hyblygrwydd ar draws yr holl is-adrannau.

Wrth ddatblygu ein cynlluniau ar gyfer 2024-27, rydym wedi bod yn sefydlu mesurau perfformiad sy'n cefnogi'r canlyniadau yn ein Map Strategaeth. Mae'r mesurau hyn wedi'u gosod o amgylch tair thema allweddol, sef arbedion, ansawdd a phrofiadau defnyddwyr terfynol.  Mae'r mesurau canlyniadau wedi'u datblygu drwy'r Grŵp Perfformiad a Chanlyniadau (POG) a sesiynau gydag Uwch Grŵp Arwain Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. O fis Ebrill 2024 ymlaen, adroddir ar fesurau Canlyniadau a mesurau perfformiad presennol fel rhan o strwythur adrodd PCGC.

Mae ein mesurau perfformiad yn cael eu hadolygu fel rhan o broses yr Adolygiad Chwarterol i sicrhau eu bod yn berthnasol, yn uchelgeisiol ond yn gyraeddadwy ac yn fesuradwy ar gyfer unrhyw amcanion newydd a nodir. Fel rhan o'r broses hon, rydym hefyd yn nodi mesurau arweiniol ar gyfer pob un o'n hisadrannau a'n gwasanaethau i ddarparu crynodeb lefel uchel o'n perfformiad.

Ceir crynodeb o'n Mesurau Perfformiad Allweddol cyfredol yn **Atodiad D** a'r Mesurau Canlyniad yn **Atodiad E**.

# Cynllun Blwyddyn 1 ar Dudalen

*Yn cyd-fynd â'n hamcanion a'n canlyniadau strategol*

GIG CYMRU NHS WALES | Partneriaeth Cydwasanaethau Shared Services Partnership

## Ein Pobl

**Byddwn yn creu cyfleoedd i'n staff presennol a'n staff yn y dyfodol wneud y gorau o'u potensial a meithrin ein cyflenwad o dalent.**

Gweithredu Strategaeth Dysgu a Datblygu i fynd i'r afael ag anghenion dysgu staff ar draws y sefydliad.

Cryfhau ein Cynnig Gwerth Cyflogeion gyda brandio, marchnata, cyrchu, ac atyniad i wella recriwtio a chadw staff gennym.

---

**Byddwn yn cynyddu amrywiaeth ein gweithlu ac yn hybu'r defnydd o'r Gymraeg ym mhopeth a wnawn.**

Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ymestyn Rhaglen Recriwtio Ryngwladol Cymru Gyfan.

Cefnogi hyfforddeion clinigol i ddatblygu ac ymestyn eu sgiliau iaith Gymraeg trwy hyfforddiant a rhaglenni addysgol.

---

**Byddwn yn hyrwyddo llesiant corfforol, cymdeithasol, meddyliol ac ariannol ar draws yn sefydliad i gefnogi ein staff.**

Gweithredu rhaglen buddion staff Cymru gyfan.

Galluogi staff i Godi Llais heb Ofn a bod yn hyderus y byddant yn cael eu trin gyda pharch ac empathi a bydd pryderon yn cael sylw.

---

**Byddwn yn gwrando ar ein staff ac yn dysgu oddi wrthynt i gyd-gynhyrchu atebion arloesol gyda'n partneriaid.**

Ymgorffori ymagwedd newydd at gysylltiadau gweithwyr, lle mae ein pobl yn ganolog i bopeth i leihau niwed wrth ymdrin ag ymchwiliadau.

Gwella sgiliau staff i gefnogi technolegau digidol newydd ac adfywio ein rhwydwaith Hyrwyddwyr Digidol i wneud y mwyaf o'n buddsoddiad yn Microsoft 365.

## Ein Gwasanaethau

**Byddwn yn galluogi ein timau sy'n delio â chwsmeriaid i gau mwyafrif yr ymholiadau ar y cyswllt cyntaf, trwy wella cyflymder y gwasanaeth, ansawdd a phrofiad.**

Cefnogi datblygiad Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol Cymru Gyfan cadarn a chynaliadwy ledled Cymru.

Mesur hyd a lled gwelliannau i'r Cofnod Staff Electronig a Chymorth Dysgu i gyd-fynd â systemau gweithlu digidol eraill.

---

**Byddwn yn ysgogi arloesedd, gan osod y safon ar gyfer arfer da, a gwella ein prosesau drwy awtomeiddio.**

Arwain y gwaith o ddatblygu a gweithredu Rhaglen Trawsnewid Porth y Bobl.

Gwerthuso'r Rhaglenni Moderneiddio Recriwtio a Chyflogres i nodi cyfleoedd symleiddio a ffyrdd o leihau amser ar gyfer penodi.

---

**Byddwn yn meithrin partneriaethau ag arweinwyr diwydiant a sefydliadau academaidd ac yn ceisio statws Prifysgol.**

Bydd ein Hwb Arloesi yn dechrau adeiladu ar bartneriaethau sy'n dod i'r amlwg ar draws GIG Cymru.

Parhau i ymrwymo i ehangu mynediad drwy gynyddu ein prentisiaethau ac archwilio cyfleoedd fel interniaethau.

---

**Byddwn yn cael ein llywio gan ddata, gan rannu gwybodaeth â'n partneriaid i ddylanwadu ar y gwaith o wneud penderfyniadau ar draws GIG Cymru.**

Bydd Cronfa Risg Cymru yn gweithio gyda sefydliadau'r GIG i ymgorffori diwylliant o ddysgu gwell o ddigwyddiadau clinigol ar draws gofal sylfaenol ac eilaidd.

Cefnogi Byrddau Iechyd i reoli materion yn ymwneud â'r gadwyn gyflenwi drwy feintioli meintiau a chymhlethdod prinder meddyginiaethau.

## Ein Gwerth

**Byddwn yn gwneud penderfyniadau buddsoddi beiddgar sy'n ysgogi trawsnewid ac yn ychwanegu gwerth.**

Cwblhau prosiect gweithredu i symud System Rheoli Ariannol Oracle i Seilwaith Cwmwl Oracle.

Adeiladu uned radiofferylliaeth o fewn IP5 ac ychwanegu at drwydded meddyginiaethau bresennol yr uned feddyginiaethau.

---

**Byddwn yn arwain y ffordd ac yn mynnu'r newidiadau sydd eu hangen gan eraill i ymdrin â'r argyfwng newid hinsawdd a chyflawni targedau datgarboneiddio.**

Cyflawni cyfraniad Caffael at Gynllun Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru.

Archwilio systemau adfer gwres dŵr gwastraff ac adfer stêm pellach i gynyddu effeithlonrwydd ar draws Gwasanaethau'r Golchdy.

---

**Byddwn yn defnyddio ein hadnoddau'n effeithlon ac yn cael effaith gadarnhaol ar sail gymdeithasol a chynaliadwy.**

Cyflwyno Sganio er Diogelwch fel rhan o raglen foderneiddio Cymru (rhaglen 5 mlynedd).

Arwain ar gyflwyno Contract Offthalmig Cenedlaethol Cymru.

---

**Byddwn yn arwain cyfleoedd i gynyddu buddsoddiad yn yr economi sylfaenol ledled Cymru fel cyfran gynyddol o'n cadwyn gyflenwi.**

Cyflawni cynllun gwaith cytunedig ar yr Economi Sylfaenol i'r GIG yn gysylltiedig â Chaffael.

Meithrin sgiliau Cymraeg ein gweithlu parhaol gan sicrhau ein bod yn gynrychioliadol o'r cymunedau yr ydym yn gweithio ynddynt.

# Ein Hamcanion Strategol ar gyfer 2024-27



GIG CYMRU NHS WALES
Partneriaeth Cydwasanaethau
Shared Services Partnership




## Ein Hamcanion Strategol ar gyfer 2024-27

Mae ein meysydd ffocws allweddol ar gyfer y tair blynedd nesaf wedi’u cwmpasu yn ein Hamcanion Strategol. Rydym yn parhau i’w hymgorffori yn ein cynlluniau is-adrannol gan eu cysoni â Blaenoriaethau Gweinidogol a’r rhaglen lywodraethu ehangach, gan fynd i’r afael hefyd â gofynion ein cwsmeriaid a’n partneriaid.

Mae’r adran hon yn tynnu sylw at weithgarwch allweddol yn ein cynlluniau a sut maent yn cyd-fynd â’n hamcanion a’n canlyniadau strategol, gan bwysleisio’r effaith gadarnhaol ar ein cwsmeriaid a’n partneriaid ar draws GIG Cymru.

# Gwerth

**Gwneud y mwyaf o fudd, effeithlonrwydd ac effaith gymdeithasol yr hyn a wnawn i'n partneriaid.**

Byddwn yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau, trwy leihau gwastraff ac amrywiadau gyda'r bwriad o gynyddu capasiti, amser ac arian, i gefnogi ein partneriaid i wella gofal cleifion. Rydym yn deall y rôl allweddol rydym yn ei chwarae yn yr agenda Gwerth a Chynaliadwyedd ac rydym yn ymdrechu i gryfhau ein rhaglenni Cymru Gyfan a gwneud y mwyaf o gyfleoedd i sicrhau mwy o gysondeb gyda'n partneriaid.

Isod, amlinellir enghreifftiau allweddol sydd wedi'u cynllunio fel rhan o'n CTCI, sy'n amlygu ehangder y gweithgareddau y byddwn yn ymgymryd â nhw i gyflawni ein hamcanion, ynghyd â gweithgarwch o 2023-24 sy'n sail i'r amcanion hyn ac yn eu cefnogi.



## Gwella gwasanaeth a gwireddu buddion

Rydym wrthi'n gwreiddio gwireddu buddion trwy ddiffinio'n glir y buddion a ddymunir o unrhyw brosiect neu fenter newid, gosod targedau mesuradwy, monitro ac adrodd rheolaidd. Cyflawnir hyn trwy gyd-gynhyrchu a chydweithio rhwng yr Is-adran Cynllunio, Perfformiad a Gwybodeg a thimau gwasanaethau is-adrannol.

Ym mis Ionawr 2023, sefydlwyd y Tîm Gwella Gwasanaethau yn llawn o fewn yr Is-adran Cynllunio, Perfformiad a Gwybodeg. Datblygont amrywiaeth o offer ac arfer da megis technegau DMAIC a Chwe Sigma a dulliau eraill a ddefnyddir yn eang.

Cefnogodd y tîm y gwaith o gyflawni mentrau sefydliadol allweddol megis Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cwsmeriaid a, hefyd, cefnogodd fentrau allweddol eraill gyda gwasanaethau gan gynnwys:

- Y Gyflogres
- Cyfrifon Taladwy
- Gofal Sylfaenol

A symud i 2024-25, byddwn yn:

- Parhau i gymhwyso arfer da byd-eang i gefnogi trawsnewid ac ailgynllunio gwasanaethau a cheisio gwella'r ystod o offer sydd ar gael i'r sefydliad.
- Gweithio gyda gwasanaethau i nodi a gwireddu buddion lle y gallwn fod yn fwy craff ac effeithlon, gyda mwy o ffocws ar ansawdd ond hefyd yn defnyddio adnoddau mewn ffordd fwy effeithiol a fydd hefyd yn cefnogi datblygiad pobl.






## Datgarboneiddio

**Beth fydd hyn yn ei olygu i'n cwsmeriaid?**
Rydym yn cefnogi ein partneriaid i leihau eu hallyriadau carbon a chyflawni eu Cynlluniau Gweithredu Datgarboneiddio lleol.

Datblygwyd Cynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru 2021-30 (y 'Cynllun') i ysgogi gostyngiad mewn allyriadau carbon o weithrediadau GIG Cymru. Mae'r Cynllun yn nodi pum ffrwd waith: Rheoli Carbon; Adeiladau; Cludiant a Chaffael; Cynllunio Ystadau a Defnydd Tir; ac Ymagwedd at Ofal Iechyd, gyda map ffordd manwl ar gyfer GIG Cymru, wedi'i seilio ar 46 o fentrau sy'n helpu i hwyluso neu leihau allyriadau carbon yn uniongyrchol. Mae holl sefydliadau'r GIG yng Nghymru wedi datblygu Cynlluniau Gweithredu Datgarboneiddio unigol sy'n manylu ar eu hymateb i'r Cynllun a'r 46 menter.

Mae PCGC yn chwarae rhan hollbwysig wrth gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun ac uchelgais Llywodraeth Cymru o gael sector cyhoeddus sero net erbyn 2030, ar lefel genedlaethol a lleol. Dangosir hyn orau yn y graff canlynol, sy'n nodi bod PCGC yn gyfrifol am holl gaffael y GIG a'i fod yn dylanwadu'n sylweddol ar feysydd megis trafnidiaeth a'r amgylchedd adeiledig.

### Ôl Troed Carbon GIG Cymru yn ôl Categori 2018-19




Mae PCGC yn arwain ar 36 o dasgau yn y Cynllun gan gynnwys yr holl fentrau caffael, llawer o'r mentrau trafnidiaeth a nifer o fentrau a ddosberthir ar draws y ffrydiau gwaith sy'n weddill. Mae enghreifftiau penodol o fentrau dan arweiniad PCGC yn cynnwys datblygu canllawiau arfer gorau ym maes rheoli carbon, ffurfio safon adeiladu sero net a'i hintegreiddio i'r broses ddylunio ac adeiladu a datblygu system ar gyfer y GIG cyfan i safoni arferion fflyd.



## Caffael PCGC

Ochr yn ochr â blaenoriaethu effeithlonrwydd ariannol, mae'r gwasanaeth caffael yn parhau i weithio ar gyflawni Cynllun Cyflenwi Strategaeth Datgarboneiddio GIG Cymru o ran nodi a lleihau allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â gweithgarwch caffael. Mae'r timau ledled Cymru yn defnyddio dull targedig o ran y caffaeliadau cenedlaethol sydd â'r potensial mwyaf i effeithio ar leihau'r ôl troed carbon naill ai drwy newid y ffynhonnell weithgynhyrchu, y math o gynnyrch neu gymryd camau i leihau'r defnydd a'r galw.

Mae gweithgarwch caffael PCGC yn cynnwys 8 menter benodol fel y nodir yn y Cynllun. Mae caffael wrthi'n troi at ddull seiliedig ar y farchnad ar gyfer cyfrifo allyriadau cadwyn gyflenwi. Mae templed wedi'i ddosbarthu i'r tua 3,000 o gyflenwyr i sefydlu eu hallyriadau carbon, gyda phroses diwydrwydd dyladwy ar waith i fonitro cyfrifiadau allyriadau carbon cyflenwyr. Mae hyfforddiant ychwanegol yn cael ei ddarparu ar gyfer staff caffael ledled Cymru i ymgorffori fframwaith ar gyfer asesu rhinweddau cynaliadwyedd cyflenwyr.

Mae'r cyfleoedd o ran yr Economi Sylfaenol, yr Economi Gylchol ac Effaith Llesiant hefyd yn feysydd allweddol ar gyfer PCGC, gan sicrhau'r gwerth mwyaf posibl i'r gadwyn gyflenwi leol, lle bo'n bosibl, tra'n cynnal safonau uchel ar gyfer nwyddau a gwasanaethau. Mae PCGC yn parhau i gydweithio â rhanddeiliaid a gweithio gyda thimau caffael, a Sefydliadau Iechyd unigol, i gyrraedd y targedau datgarboneiddio a nodir yn y Cynllun ac i ymgorffori uchelgeisiau datgarboneiddio GIG Cymru mewn gweithdrefnau caffael ledled Cymru.



## Grŵp Gorchwyl a Gorffen Trafnidiaeth

Mae PCGC yn cadeirio ac yn hwyluso Grŵp Gorchwyl a Gorffen Trafnidiaeth Cymru Gyfan. Mae'r grŵp wedi canolbwyntio ar atebion Cymru gyfan ar gyfer menter 17 yn y Cynllun, gan weithio gyda Sefydliadau Iechyd i ddatblygu'r dull arfer gorau ar gyfer technoleg gwefru Cerbydau Trydan, caffael, a chynllunio mannau parcio. Mae'r grŵp wedi cyhoeddi dogfen ganllaw Cymru Gyfan a bydd nawr yn canolbwyntio ar hwyluso Sefydliadau Iechyd i ddatblygu eu hymagwedd unigol ar gyfer seilwaith gwefru Cerbydau Trydan.



## Ôl Troed Carbon PCGC

Yn ogystal â'r mentrau cenedlaethol, mae gan PCGC ei Chynllun Gweithredu Datgarboneiddio lleol ei hun, sydd â ffocws mewnol gyda'r nod o ddatgarboneiddio ein cyfleusterau a'n gweithgareddau ein hunain. Mae camau gweithredu allweddol yn cynnwys lleihau effaith ein hadeiladau, ein fflyd a Gwasanaethau Golchdy Cymru Gyfan, yn ogystal â gweithio gyda staff i helpu i godi proffil datgarboneiddio ar draws y sefydliad. Mae ein Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio yn cael ei adnewyddu i'w gyhoeddi ym mis Ebrill 2024 gyda map cyflawni uchelgeisiol, sy'n cyd-fynd yn llawn â'r Cynllun.

## Safon Rheolaeth Amgylcheddol ISO14001

Rydym wedi ymrwymo'n gryf i gynnal safon ISO14001 ac, o ganlyniad, cynhelir archwiliadau gwyliadwriaeth blynyddol i asesu cydymffurfiaeth barhaus â'r safon.

Mae PCGC wedi ymrwymo i wella'r amgylchedd ac mae'n gweithredu system reoli amgylcheddol gynhwysfawr i hwyluso a chyflawni'r polisi amgylcheddol. Wrth symud i CTCI 2024-27, byddwn yn:

- Dangos agwedd gyfannol at y safon gan ystyried i ba raddau rydym yn buddsoddi o dan adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.
- Gofyn i'n holl wasanaethau enwebu hyrwyddwyr 'Tîm Gwyrdd' penodedig i feithrin mwy o ymgysylltiad ar draws y sefydliad.
- Datblygu amserlen adroddiadau rheoli ar gyfer adrodd ar ôl troed carbon Safleoedd Caffael i sicrhau bod hyn yn cael ei fonitro'n fisol, gan gynnwys ffrydiau gwastraff.
- Sicrhau bod gwasanaethau yn cynnwys y Tîm Gwyrdd wrth gaffael safleoedd newydd neu adleoli er mwyn gallu dal ystyriaethau amgylcheddol yn rhagweithiol.

Mae rhai o lwyddiannau datgarboneiddio allweddol PCGC yn cynnwys y canlynol:

- Mae cyflwyno cerbydau trydan, sef cyfanswm o 34 erbyn hyn, wedi arwain at arbediad sylweddol o ran milltiroedd cerbydau diesel y flwyddyn.

- Mae PCGC yn gweinyddu'r cynllun Prydlesu Ceir trwy Aberthu Cyflog ar gyfer y rhan fwyaf o Sefydliadau Iechyd ac, yn ddiweddar, maent wedi gostwng uchafswm $CO_2$ y ceir sydd ar gael, felly mae pob car newydd a archebir naill ai'n Gar Trydan neu Hybrid.

- Mae wedi ennill cyfrifoldeb am weithredu Gwasanaethau Golchi Dillad a Dillad Gwely GIG Cymru. Fel rhan o'r rhaglen hon, mae cynllun mawr i foderneiddio'r cyfleusterau golchdy ledled Cymru, gan ddilyn y nodau dylunio carbon isel yn y Cynllun.

- Mae 'Tîm Gwyrdd' o fewn PCGC sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob cyfarwyddiaeth a'r prif safleoedd. Mae rôl y grŵp hwn yn cynnwys cynnal ymgysylltiad ehangach staff wrth gyflawni Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio PCGC.

- Gweithredu tracio cerbydau a dadansoddi amserlenni arferol cerbydau, sy'n llywio'r defnydd gorau posibl o'r fflyd Cerbydau Trydan.

- Cwblhau darpariaeth golau LED llawn yng Nghanolfan Dosbarthu a Warws IP5 yng Nghasnewydd.

- Dechreuwyd ar y gwaith o ddylunio a thendro ar gyfer gwaith i ddarparu seilwaith Arae Ffotofoltaidd a Gwefru Cerbydau Trydan ar safle IP5.



## Addasu at Newid Hinsawdd

Mae Cynllun 5 mlynedd Llywodraeth Cymru; Cymru sy'n Effro i'r Hinsawdd, yn nodi rhaglen addasu genedlaethol i ymateb i effeithiau hinsawdd. Mae'n rhannu gweledigaeth ar gyfer Cymru 2030 sydd â'r adnoddau, sydd yn barod, sydd â'r wybodaeth i ddeall y risg a'r heriau sydd o'n blaenau, ac sydd â'r gallu i addasu i effaith newid hinsawdd. Cyhoeddodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd adroddiad ym mis Mehefin 2023 a oedd yn asesu'r cynnydd o ran cyflawni'r cynllun addasu hwn. Roedd yr adroddiad yn nodi argymhellion i'r sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol sy'n cynnwys datblygu dull traws-sector hirdymor o fynd i'r afael â risgiau, datblygu cyfres o ddangosyddion Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a sicrhau dull gweithredu cydlynol rhwng lliniaru ac addasu.

Mae Bwrdd Prosiect Addasu i'r Hinsawdd Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi penodi Local Partnerships (LLP) i weithio gyda sefydliadau'r GIG i gyflawni'r argymhellion hyn. Maen nhw wrthi'n asesu'r parodrwydd traws-sector ar draws y GIG, gyda'r nod o ymgorffori asesiadau risg hinsawdd a chynlluniau ymaddasu yn y gwaith o ddarparu gofal iechyd, gan wella canlyniadau iechyd. Maent yn disgwyl sicrhau bod yr offer hyn ar gael yn 2024.



Mae PCGC yn cefnogi ac yn hwyluso gwaith yr adolygiad uchod drwy rannu ein hymagwedd ein hunain at addasu a defnyddio ein rhwydwaith sefydledig o gwsmeriaid a phartneriaid i hwyluso ymgysylltu.

Mae PCGC yn deall yr angen i GIG Cymru fod wedi'i addasu'n dda at newid hinsawdd, ac mae'n gofyn am leihau effeithiau uniongyrchol newid hinsawdd ar iechyd pobl gymaint ag y gellir, a sicrhau nad yw tywydd eithafol yn amharu ar ddarpariaeth gofal iechyd. Rydym hefyd yn cydnabod bod y camau a gymerir ar gyfer datgarboneiddio ac addasu yn gysylltiedig a bod iddyn nhw gyd-fuddiannau. Er enghraifft, mae Gwasanaethau Ystadau Arbennig eisoes yn gweithio i gefnogi'r adolygiad o'r Memorandwm Iechyd - Gwneud i Ynni Weithio mewn Gofal Iechyd er mwyn datblygu canllawiau ar yr arferion gorau i GIG Cymru, sy'n cynnwys argymhellion i wella effeithlonrwydd ffabrig adeiladau, a all hefyd eu gwneud yn fwy gwydn yn erbyn newidiadau hinsawdd yn y dyfodol.

Mae ein gweithgareddau i fynd i'r afael ag addasu at newid hinsawdd yn cynnwys:

- Parhau i gyflwyno adroddiadau ar weithgareddau addasu a'r cynnydd drwy Fwrdd Rhaglen Datgarboneiddio PCGC.
- Adolygu ein cynllun gweithredu i ganfod ble mae gweithgareddau datgarboneiddio arfaethedig hefyd yn cefnogi addasu.
- Datblygu a chefnogi dull o weithio gyda Rhaglen Argyfwng Hinsawdd Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru i ategu'r gwaith o reoli'n risgiau ni, a risgiau ein partneriaid a'n cwsmeriaid.
- Blaenoriaethu a nodi'r data a'r sgiliau sydd eu hangen arnom, gan sicrhau bod llywodraethu priodol ar waith, addysgu ac ymgysylltu â'n gweithlu, a nodi'r cyllid sydd ei angen i gyflawni'r gweithgareddau gofynnol.



## Yr Economi Sylfaenol ac Effeithiau Llesiant

**Beth fydd hyn yn ei olygu i'n cwsmeriaid?**
Ein nod yw cynyddu gwytnwch yn y gadwyn gyflenwi a chynyddu'r gwariant a'r contractau a ddyfernir i Gyflenwyr Cymreig.

Mae PCGC yn cydnabod bod yn rhaid i'n Gwasanaethau Caffael ddarparu gwasanaeth o'r ansawdd gorau i gleifion a'r gymuned, gan sicrhau bod y cynnyrch, y ddarpariaeth neu'r gwasanaeth cywir wedi'i gyrchu a'i gyflenwi'n effeithlon ac am y pris cywir i Gymru gyfan.

Ein hymrwymiad fel gwasanaeth yw dod o hyd i'r cynnyrch a'r gwasanaethau gwerth gorau, eu cyflenwi a'u darparu drwy gydweithio â'n cwsmeriaid a'n partneriaid ledled Cymru yn y cyfnod heriol sydd o'n blaenau, yn economaidd ac yn ariannol, ac i ail-fuddsoddi yn economi Cymru.

Mae ein strategaeth gaffael yn cofleidio egwyddorion Cymru yn gyntaf o feithrin cadwyni cyflenwi lleol a darparu cyfleoedd trwy dendro cystadleuol i hyrwyddo adfywio economaidd, gan sicrhau cyfle cyfartal trwy strategaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ym mhob contract am nwyddau a gwasanaethau.

Mae'r Tîm Cynaliadwyedd yn parhau i ymrwymo i hyrwyddo'r pedair prif ffrwd waith a amlinellir isod, yn ogystal ag amcan sydd newydd ei gyflwyno sy'n canolbwyntio ar hyrwyddo'r economi gylchol i leihau'r gwastraff a gynhyrchir a'r angen am bryniannau newydd.

- Hyfforddiant a chymorth yn ymwneud â'r economi sylfaenol i'r timau sy'n prynu a chanfod nwyddau caffael.
- Ymgysylltu â chyflenwyr Cymreig a rhoi cefnogaeth uniongyrchol iddynt.
- Gwelliannau i ddata ac adroddiadau'r Gwasanaethau Caffael.
- Anelu at ysgogi arloesedd ac arfer gorau.
- Cyflwyno egwyddorion economi gylchol i brosesau caffael ac ar draws y GIG ehangach.

Mae’r Tîm Cynaliadwyedd yn parhau i gydweithio’n agos â chaffael er mwyn hyrwyddo newid yn weithgar a chyfrannu ymhellach at Economi Cymru. O ystyried y pwysau cost diweddar a gafwyd ym mhob un o’r Byrddau Iechyd, mae angen cynyddol am greu mentrau arbed arian. Mae hyn yn her wrth ymdrechu i gynnal egwyddorion yr Economi Sylfaenol a Gwerth Cymdeithasol. O ganlyniad, rydym wedi bod yn archwilio rhagolygon ar gyfer gweithredu prosiectau’r Economi Gylchol, a fydd nid yn unig yn arwain at arbedion cost ond hefyd yn meithrin gwerth cymdeithasol ac yn cefnogi’r Economi Sylfaenol. Mae’r prosiectau hyn yn cwmpasu amrywiaeth o fentrau, gan gynnwys ailddefnyddio gwisgoedd nyrsys, cymhorthion cerdded, cynllun ailgylchu cewynnau, ail-weithgynhyrchu dyfeisiau meddygol ac ailddefnyddio gwastraff cardbord, ymhlith eraill.

O fewn cwmpas ein gweithrediadau parhaus, rydym wedi dyfarnu contractau i gyflenwyr lleol yn gyson. Mae’r dull hwn wedi esgor ar fanteision lluosog i economi Cymru. Rydym yn defnyddio dull Gwerth Cymdeithasol Ansoddol, sy’n integredig ar draws y sefydliad ac sy’n neilltuo pwysiad gorfodol o 15% i gyfanswm y meini prawf dyfarnu yn ein gweithgareddau tendro.

Wrth i ni alinio ein hunain â’r Sector Cyhoeddus Cymreig ehangach, mae term newydd yn dod i’r amlwg i hybu’r gwaith o hyrwyddo Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 2015. O hyn ymlaen, byddwn yn defnyddio’r term “Effeithiau Llesiant” i ddisgrifio’r hyn y cyfeiriwyd ato’n flaenorol fel “Gwerth Cymdeithasol.” Diffinnir y term hwn fel a ganlyn:

Mae “Effeithiau Llesiant” yn disgrifio’r cyfraniad cadarnhaol y gall ein gweithgaredd masnachol ei gael at lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru mewn ffordd sy’n cyd-fynd â’r egwyddor datblygu cynaliadwy, fel y’i mynegir yn y Ddeddf.



Mae ymgorfforí'r elfen hon a'r cydweithio â'r Sector Cyhoeddus ehangach yn arwydd o ymrwymiad GIG Cymru i alinio â'r Ddeddf, gan gydnabod bod y Ddeddf hon yn sbardun deddfwriaethol allweddol, ochr yn ochr â Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) y dyfodol. Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn cydweithio'n agos â thimau caffael a chyflenwyr i gynnal rhaglen beilot gyda'r nod o nodi mesurau a fydd yn cael y dylanwad mwyaf arwyddocaol ar Economi Cymru. Bydd canlyniadau'r mentrau peilot hyn yn cael eu cydgrynhoi fel eu bod yn ffurfio'r meini prawf adrodd gorfodol a amlinellir yn y Bil.

Er mwyn cynnal llesiant Economi Cymru yn ystod yr adferiad yn sgil COVID-19 ac yng ngoleuni'r heriau costau byw, mae'n hanfodol rhoi blaenoriaeth i ehangu'r Economi Sylfaenol. Bydd hyn yn helpu i sicrhau swyddi ac adnoddau economaidd yng Nghymru.

Mae'r ffocws ar yr Economi Sylfaenol wedi cefnogi timau caffael ar draws GIG Cymru i ddyfarnu gwerth tua £16m o gontractau GIG Cymru i gyflenwyr yng Nghymru yn 2022-23, a dyfarnu £25m o gontractau newydd i sefydliadau yng Nghymru yn Chwarter 3 (Ch3) 2023-24. O ran y perfformiad hwn, bydd GIG Cymru yn parhau i gyflawni lefelau uchel o fuddsoddiad yn yr Economi Sylfaenol yn 2023-24, gan ddarparu cyllid y mae mawr angen amdano i fusnesau yng Nghymru wrth iddynt gefnogi ein hadferiad cenedlaethol a rhoi cymorth i ymdrin â'r argyfwng costau byw.

Er mwyn mynd i'r afael ag ymholiadau ynglŷn â'r Economi Sylfaenol a gwariant yng Nghymru a gafwyd o gyfarfodydd perfformiad sefydliadol un i un diweddar, mae PCGC yn ymchwilio i ddatblygu adroddiadau gwell ar lefel fwy rhanbarthol yng Nghymru.



A symud i 2024-25, bydd gweithgaredd yn cynnwys:

- Adolygiad o Effeithiau Llesiant Contractau Presennol - A defnyddio Effeithiau Llesiant sy'n cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, byddwn yn cysylltu â holl gyflenwyr Cymru i gael dealltwriaeth o'r gwerth a gafwyd o gontractio â nhw. Bydd hyn yn dechrau yn 2023-24 ond ni fydd yn gyflawn tan 2024-25. Y nod yw cael dealltwriaeth o dirwedd Cymru ac yna dyfeisio strategaeth i gynyddu ei chyflawniad.
- Mapio Gwyddor Bywyd Cymru - Mapio'r cyflenwad presennol â Chyflenwyr Cymru i ganfod y posibilrwydd o newid cynnyrch.
- Adolygiad o wastraff plastig y gellir ei ailgylchu, i'w werthu i Ddiwydiant Mowldio Chwistrellu Cymru.
- Cyhoeddi'r Adolygiad o Gontractau sydd ar y Gweill i gynnwys cyfleoedd yr Economi Sylfaenol a'r potensial ar gyfer cyfleoedd am Effaith Llesiant.



Person ganolog
Person centred

## Caffael

**Beth fydd hyn yn ei olygu i'n cwsmeriaid?**
Cefnogi ein cwsmeriaid i gyflawni arbedion cost ac arbed amser staff, gan alluogi ffocws ar ofal cleifion.

### Arbedion ac Effeithlonrwydd Ariannol

Mae Gwasanaethau Caffael Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru wedi ymrwymo i arbed £40 miliwn ynghyd ag arbedion sy'n rhyddhau arian parod i sefydliadau GIG Cymru ym mlwyddyn ariannol 2023-24. Mae'r targed hwn yn cynnwys cynlluniau arbed lleol, rhanbarthol a chenedlaethol a ddatblygwyd gan y timau ledled Cymru ar gyfer ystod o nwyddau a gwasanaethau. Yng nghyd-destun yr amgylchedd ariannol heriol iawn sy'n wynebu GIG Cymru a'r angen am hwyluso rhagor o gyfleoedd i wneud arbedion, mae'r gwasanaeth yn rhoi cyngor i Fwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd GIG Cymru gan nodi meysydd lle bydd angen cymorth gan yr Uwch Fwrdd Gweithredol a Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â ffafriaeth glinigol a datgloi potensial llawn yr arbedion ychwanegol sydd ar y gweill.

Mewn rhai meysydd gwariant meddygol a chlinigol nad yw'n gysylltiedig â'r gyflogres, mae amrywiadau yn y defnydd o frandiau gweithgynhyrchwyr ledled Cymru wedi creu amrywiadau mewn prisiau rhwng Byrddau Iechyd y mae angen eu herio a, lle bynnag y bo modd, cytuno ar ystod safonedig o gynhyrchion i'w defnyddio yn y dyfodol sy'n gwneud y mwyaf o botensial ymagwedd genedlaethol at gaffael.

A symud i 2024-25, byddwn yn datblygu strategaeth arbedion ac adrodd cenedlaethol, lleol, ariannol ac anariannol y cytunwyd arni.

## Newidiadau Deddfwriaethol

Mae'r fframwaith deddfwriaethol y mae'r Gwasanaeth Caffael yn gweithredu o'i fewn hefyd yn newid yn sylweddol dros y 12 mis nesaf yn sgil cyflwyno **Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 a Deddf Caffael 2023.**

Bydd Deddf Caffael 2023 yn disodli'n gyfan gwbl y drefn caffael cyhoeddus bresennol, sy'n deillio o'r Undeb Ewropeaidd, ar gyfer y DU yn dilyn Brexit. Nod y newidiadau yw cynyddu hyblygrwydd i brynwyr wrth ymgysylltu â'r farchnad a gwella tryloywder wrth wneud penderfyniadau. Bydd Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 yn cwmpasu rhai o'r meysydd yn Neddf Caffael 2023 ond yn canolbwyntio'n fwy penodol ar faterion sy'n ymwneud â gwerth cymdeithasol drwy bartneriaeth, caffael sy'n gyfrifol yn gymdeithasol, gwaith teg a datblygu cynaliadwy. Bydd cyflwyno'r darnau hyn o ddeddfwriaeth yn gofyn am hyfforddiant sylweddol i ymarferwyr caffael, rhanddeiliaid a chyflenwyr yn y farchnad, ac ymwybyddiaeth sylweddol ganddynt.

## Porth Buddiannau Staff Cymru Gyfan y GIG

Beth mae hyn yn ei olygu i'n cwsmeriaid? Cysondeb buddion staff i'r holl staff sy'n gweithio ar draws GIG Cymru.

Dechreuwyd ymarfer cwmpasu rhaglenni buddion staff Cymru Gyfan yn 2019 ond daeth i ben oherwydd pandemig COVID-19. Mae'r gwaith hwn bellach wedi ailddechrau ar ôl cael ei gymeradwyo gan Gyfarwyddwyr y Gweithlu ledled Cymru ym mis Hydref 2023.

Nod y prosiect yw ymchwilio i botensial creu rhaglen fuddion Cymru Gyfan a fydd yn creu cysondeb ledled Cymru, yn manteisio ar arbedion maint ac yn darparu buddion gweinyddol. Yn 2023-24, ailddechreuodd yr ymarfer cwmpasu a dechreuwyd llunio matrics buddion.

A symud i 2024-25, byddwn yn:

- Cwblhau'r matrics buddion a'i gyflwyno i Ddirprwy Gyfarwyddwyr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol.
- Gosod cynllun gweithredu gyda Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cymru Gyfan.
- Datblygu cynnig i Gyfarwyddwyr y Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol.








## Moderneiddio Recriwtio



**Beth fydd hyn yn ei olygu i'n cwsmeriaid?**

Gwasanaeth recriwtio modern ac effeithlon sy'n bodloni anghenion ein cwsmeriaid.

### Lleihau'r Amser ar gyfer Penodi

Ymgymerodd y tîm recriwtio â rhaglen ymatebolrwydd y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol yn 2021, lle cafwyd adborth ar sut i wella'r gwasanaeth. Arweiniodd hyn at ddatblygiad y Rhaglen Moderneiddio Recriwtio lle mae nifer o newidiadau a gwelliannau wedi'u gwneud i brosesau, addysg a thechnoleg.

Mae newidiadau allweddol i brosesau a roddwyd ar waith yn cynnwys:

- Lleihau nifer y gwiriadau cyn cyflogaeth sy'n orfodol cyn y dyddiad dechrau.
- Trefnu dyddiad cychwyn dros dro gyda'r ymgeisydd adeg cynnig y swydd ar lafar.
- Dim gofynion am eirda ar gyfer penodiadau mewnol yn y sefydliad.
- Gall timau recriwtio gymeradwyo geirdaon os nad ydynt yn cynnwys unrhyw wybodaeth am salwch neu ddisgyblu.
- Gweithredu meddalwedd Dilysu Hunaniaeth Digidol (Trust ID).
- Cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r system Iechyd Galwedigaethol newydd (OPAS G2) a gwblhawyd ym mis Rhagfyr 2023.

A symud i 2024-25, byddwn yn:

- Adolygu cynnydd 'perchnogi'r daith' ar draws Sefydliadau'r GIG a gwerthuso'r buddion.
- Archwilio syniadau trwy ymgynghori â Sefydliadau eraill a recriwtio rheolwyr.
- Cynnal adolygiad 'yn ôl i'r hanfodion' i sicrhau bod yr holl newidiadau a weithredwyd yn effeithiol.
- Defnyddio'r dechnoleg ddigidol sydd ar gael i gefnogi gostyngiadau pellach mewn 'amser ar gyfer penodi'.

## Gwiriadau Hunaniaeth Digidol – Gwelliannau

Mae gweithredu Trust ID ym mis Hydref 2022 wedi arwain at effaith gadarnhaol ar yr amser a gymerir i gwblhau gwiriadau hunaniaeth, gyda thros 50% o ymgeiswyr bellach yn cwblhau eu gwiriad hunaniaeth o fewn tri diwrnod i dderbyn eu llythyr cynnig, o gymharu â 30% cyn ei weithredu. Prif ysgogwr y gwelliant hwn yw gallu'r ymgeisydd i gael at y system hon 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos, pan fo'n gyfleus iddo.

## Gostwng Amser ar gyfer Penodi - Perchnogi'r Daith Recriwtio

Er bod y newidiadau i brosesau a gweithredu meddalwedd Dilysu Hunaniaeth Digidol yn dangos canlyniadau cadarnhaol, mae gweithgarwch ychwanegol y gall sefydliadau'r GIG, a rheolwyr recriwtio, ei wneud i gefnogi gostyngiad yn yr amser ar gyfer penodi, gan gynnwys cynllunio gweithgareddau recriwtio ymlaen llaw a symleiddio sawl cymeradwyaeth sydd ei angen ar gyfer swyddi gwag. Mae'r gweithgareddau hyn yn llunio ail gam y Rhaglen Moderneiddio Recriwtio ac fe'u cefnogir gan ein Pwyllgor Partneriaeth.

Mae'r Gwasanaeth Recriwtio wedi datblygu a rhannu cyfres o broblemau hysbys yn y Broses Recriwtio sy'n eiddo i Sefydliadau'r GIG, gydag atebion arfaethedig, gan gynnwys rhannu adroddiadau perfformiad a chynnal sesiynau ymgysylltu rheolaidd ledled Cymru gyda Rheolwyr Recriwtio. Bydd sesiynau ymgysylltu â rheolwyr recriwtio ynghylch y Rhaglen Moderneiddio Recriwtio yn cynnwys cyfleu awgrymiadau i leihau'r amser ar gyfer penodi er mwyn cefnogi sefydliadau yn ystod cam dau y rhaglen.  Elfen allweddol o'r broses recriwtio yw cyfranogiad rheolwyr.  Cynghorir rheolwyr i gadw mewn cysylltiad â'u penodai ac adolygu system recriwtio Trac yn rheolaidd i leihau oedi.



# Moderneiddio'r Gyflogres

**Beth fydd hyn yn ei olygu i'n cwsmeriaid?**
Gostyngiad mewn gordaliadau a phrosesau cysylltiedig a chynnydd mewn Hunanwasanaeth Rheolwyr, gan arwain at gyflogres fwy cywir.

Mae ein tîm Gwasanaethau Cyflogaeth wedi datblygu porth gordaliadau cyflogres i gynorthwyo Sefydliadau'r GIG i leihau amlder y taliadau hyn, gan fod dros 90% o ordaliadau yn cael eu cynhyrchu gan y sefydliadau cyflogi o ganlyniad i gyflwyniadau hwyr neu anghywir. Mae'r porth yn galluogi sefydliadau i dargedu rheolwyr y gallai fod angen ailhyfforddiant a chymorth ychwanegol arnynt.

Yn ogystal, mae'r porth yn cael ei ddatblygu ymhellach i gasglu gwybodaeth am elfen adennill pob gordaliad, sef gweithgarwch a gyflawnir gan dîm cyllid pob Bwrdd Iechyd. Felly, bydd gan y porth gordaliadau hanes cyflawn o bob gordaliad, o'i ddarganfod i'w adennill. Bydd mabwysiadu Hunanwasanaeth Rheolwyr (MSS) gan bob Bwrdd Iechyd a'u rheolwr perthnasol yn dileu'r defnydd o ffurflenni Cyngor Symud Staff ar draws GIG Cymru. Dim ond un system (MSS) fydd ar gael i reolwyr gyflenwi gwybodaeth i'r gyflogres am ddechreuwyr, ymadawyr a newidiadau i staff yn y Cofnod Staff Electronig.

Drwy gael un system yn unig (MSS), dylai hyn leihau oedi mewn hysbysiadau sy'n arwain at ordaliadau, gan y bydd y rheolwyr yn dod yn fwy cyfarwydd â system MSS ac am ei bod yn bwydo'n uniongyrchol i'r Cofnod Staff Electronig, a fydd yn lleihau ymdriniaeth ddwbl o safbwynt gweinyddol.

A symud i 2024-25, byddwn yn:

- Cefnogi sgiliau digidol ar draws GIG Cymru drwy ddatblygu fideos hyfforddi i gefnogi staff i gynyddu sgiliau hunanwasanaeth gyda'r nod o leihau gordaliadau.
- Annog Byrddau Iechyd nad ydynt eisoes wedi gweithredu Hunanwasanaeth Rheolwyr i'w fabwysiadu, gan amlygu buddion y system





Gweithlu
Workforce

## Cronfa Risg Cymru

**Beth fydd hyn yn ei olygu i'n cwsmeriaid?**
Gweithlu hyfforddedig ledled Cymru gyda rhwydwaith sy'n cefnogi cyflawni rhagoriaeth a chysondeb, gyda'r nod o leihau risg ymgyfreitha.

Mae Cronfa Risg Cymru yn rhan o Wasanaeth Cyfreithiol a Risg PCGC. Bydd yn gyfrifol am ad-dalu gwariant ar gyfer achosion hawliadau ac iawndal y mae pob sefydliad yn eu cael. Rôl Cronfa Risg Cymru yw cael dull integredig o asesu risg, rheoli hawliadau, ad-dalu a dysgu sut i wella. Mae'r tîm yn gweithio ledled Cymru i hyrwyddo a hwyluso cyfleoedd i roi dysgu o ddigwyddiadau ar waith, lleihau risg ymgyfreitha a chefnogi datblygiad a gweithrediad gwelliannau i wella diogelwch a chanlyniadau cleifion.

Mae meysydd gwaith allweddol yn cynnwys:

- Caniatâd i Archwiliad a Thriniaeth er mwyn gwella prosesau ar draws GIG Cymru. Mae adolygiad cenedlaethol wedi'i gynnal ac mae Cronfa Risg Cymru wedi cefnogi Sefydliadau Iechyd i fesur eu perfformiad yn erbyn safonau yn y maes hwn. Mae'r tîm wedi datblygu a lansio'n llwyddiannus becyn e-ddysgu penodol i Gymru sy'n cefnogi'r holl staff sy'n ymwneud â chymryd a chofnodi cydsyniad a chefnogi cynllun peilot technoleg cydsyniad digidol yn genedlaethol.
- Cefnogaeth i bob sefydliad i wella eu defnydd o broses gwyno Gweithio i Wella. Cynhaliwyd cyfres o asesiadau ac mae pob sefydliad wedi datblygu cynlluniau gweithredu ar gyfer gwelliant parhaus. Mae'r tîm yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr o Lywodraeth Cymru fel rhan o'r diweddariad i'r ddeddfwriaeth yn y maes hwn.
- Rhaglen fyrdymor yw Gwella Sefydliadau Dysgu sydd â'r nod o wella ansawdd y dysgu a'r camau a gymerir yn dilyn digwyddiad neu hawliad. Mae'r tîm yn cefnogi sefydliadau i gynhyrchu Polisi Model Cymru Gyfan a metrigau allweddol fel y gellir mesur perfformiad dysgu yn lleol.

**Amlygir meysydd gwaith pellach â ffocws ar dudalen 35.**

## Hyfforddiant Amlbroffesiynol Ymarferol mewn Obstetreg (PROMPT) Cymru

Mae PROMPT yn rhaglen diogelwch mamolaeth a ariennir gan Gronfa Risg Cymru ac a gefnogir gan Sefydliad Mamolaeth PROMPT ac fe'i hymgorfforwyd ers 2019. Datblygwyd PROMPT Cymru yn y Gymuned yn 2020 i ddarparu hyfforddiant pwrpasol i dimau bydwreigiaeth cymunedol, yn seiliedig ar fethodoleg PROMPT.

Nodau allweddol y rhaglen hon yw:

- Lleihau amrywiadau mewn hyfforddiant ac ymarfer ar draws GIG Cymru.
- Gwella canlyniadau diogel i fabanod a theuluoedd.

## Cadw Golwg ar y Ffetws yn ystod Genedigaeth Cymru

Nodwyd bod monitro ffetws yn ffactor cyfrannol hanfodol mewn achosion lle gallai gwelliannau mewn gofal fod wedi atal canlyniad gwael. Mae ein tîm yn gweithio gyda chyrff cenedlaethol i leihau amrywiadau.

- Rhaglen hyfforddi safonol Cymru gyfan mewn Cadw Golwg ar y Ffetws yn ystod Genedigaeth.

- Hyfforddwyd y gyfadran ac mae'r rhaglen yn barod i'w threialu o fewn pob gwasanaeth mamolaeth.

## Hyfforddiant Amlbroffesiynol Newyddenedigol Cymru

Mae'r tîm ar hyn o bryd yng nghyfnod cwmpasu'r rhaglen waith hon. Bydd y Rhaglen Hyfforddiant Amlbroffesiynol Newyddenedigol yn darparu profiad hyfforddi pwrpasol a safonol ar gyfer timau newyddenedigol ar draws GIG Cymru.

Bydd yn cael ei gynllunio i ategu hyfforddiant 'sgiliau clinigol' presennol, gan ddod â hyfforddiant ar ffactorau clinigol a dynol i'r lleoliad clinigol, a galluogi pob aelod o'r tîm i gymryd rhan.



## Dyletswydd Ansawdd

**Beth fydd hyn yn ei olygu i'n cwsmeriaid?**
Ffocws ar wasanaethau o safon, dibynadwy, diogel ac effeithiol yn unol â safonau a rheoliadau fel y bo'n briodol, gan gefnogi'r system iechyd gyffredinol.

### Y safonau iechyd a gofal

Yn y flwyddyn gyntaf ers lansio'r Ddyletswydd Ansawdd, rydym wedi canolbwyntio ar wreiddio'r wybodaeth am y 12 Safon Ansawdd Iechyd a Gofal ar draws y sefydliad. Mae dehongli a chymhwyso'r 12 safon ar gyfer gwasanaethau anghlinigol yn ogystal â gwasanaethau clinigol yn gyfle cyffrous i Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.





| Safonau Ansawdd | Galluogwyr Ansawdd |
|---|---|
| Diogel | Arweinyddiaeth |
| Amserol | Diwylliant |
| Effeithiol | Y Gweithlu |
| Effeithlon | Gwybodaeth |
| Canolbwyntio ar yr unigolyn | Gwella |
| Teg | System Gyfan |

Mae tystiolaeth sy’n dangos ein hymrwymiad i ansawdd yn 2023-24 yn cynnwys:

| Cyflawniad | Is-adran | Meysydd ansawdd | Galluogwyr ansawdd |
|---|---|---|---|
| Penderfyniad i geisio achrediad Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cwsmeriaid ar draws PCGC, a’i gyflawni. | Ar draws PCGC | • Teg<br>• Canolbwyntio ar yr unigolyn | • Arweinyddiaeth<br>• Diwylliant<br>• Gwybodaeth |
| Gwobr am waith cyflwyno Sganio er Diogelwch. | Caffael | • Canolbwyntio ar yr unigolyn<br>• Effeithlon | • Gwybodaeth<br>• System gyfan |
| Gwobrau hyfforddiant PROMPT, datblygu cyrsiau newydd a lledaeniad a graddfa’r hyfforddiant presennol. | Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg | • Canolbwyntio ar yr unigolyn<br>• Diogel<br>• Effeithlon | • Dysgu a Gwella<br>• Arweinyddiaeth<br>• Diwylliant<br>• System gyfan |
| Moderneiddio’r Gyflogres | Y Gweithlu | • Effeithiol<br>• Effeithlon<br>• Teg<br>• Amserol | • Arweinyddiaeth<br>• Arloesi<br>• System Gyfan |
| Adroddiadau Chwarterol Archwilwyr Meddygol i Fyrddau/ Ymddiriedolaethau Iechyd - Atgyfeiriadau Byrddau Iechyd wedi’u strwythuro yn erbyn y safonau. | Gofal Sylfaenol | • Diogel<br>• Effeithiol | • Diwylliant<br>• System Gyfan |
| Cyflwyno llinellau cynnyrch newydd yn y Gwasanaeth Trawsnewid Mynediad at Feddyginiaethau. | Gwasanaethau Fferylliaeth | • Effeithiol<br>• Effeithlon<br>• Diogel | • System Gyfan<br>• Arloesi |

Mae PCGC hefyd wedi cefnogi cynhyrchu modiwl e-ddysgu Dyletswydd Ansawdd Cymru Gyfan, a lansiwyd ym mis Rhagfyr 2023. Bydd PCGC yn hyrwyddo’r defnydd o’r modiwl yn fewnol, drwy Grŵp Gweithredu’r Ddyletswydd Ansawdd, sy’n cynnwys cynrychiolwyr o bob un o Is-adrannau PCGC.



## Gwneud Penderfyniadau sy’n Seiliedig ar Ansawdd

Mae Asesiad o Effaith CTCI 2024-27 ar Ansawdd, sydd i’w weld yn Atodiad F, yn dangos y pwysigrwydd a roddwn ar asesu ansawdd ar lefel cynllunio strategol. Rydym hefyd wedi mapio’r safonau drwy’r ddogfen gan ddefnyddio’r eiconau perthnasol, lle y maent yn berthnasol.

Mae gwreiddio’r 12 Safon Ansawdd Iechyd a Gofal fel ystyriaethau mwy ffurfiol yn ein penderfyniadau o ddydd i ddydd, yn ogystal â chynnwys metrigau ansawdd ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir ac a gafaelir, yn dasg y byddwn yn parhau i fynd ar ei thrywydd yn ystod y flwyddyn i ddod.

## Systemau Rheoli Ansawdd

Mae gan bob un o’n his-adrannau System Rheoli Ansawdd wedi’i theilwra i anghenion gwahanol iawn pob adran, yn amrywio o System Rheoli Ansawdd clinigol yn ein Gwasanaethau Fferyllol a’n Labordy Profi Deunyddiau Llawfeddygol, i’r Is-adrannau Caffael a Gweithlu anghlinigol yn bennaf. Mae rhannu arfer gorau ar draws isadrannau yn elfen allweddol o’n strategaeth gwella ansawdd barhaus.

## Adrodd

Dechreuodd adrodd misol ‘Ar waith bob amser’ yn 2023 gydag isadrannau’n paratoi cyflwyniadau yn dangos sut y maent yn ymgorffori ansawdd ar draws eu gwasanaeth. Cynhelir y cyflwyniadau hyn ar safle SharePoint PCGC, sydd hefyd yn ymddwyn fel adnodd dysgu ar draws y sefydliad.

A symud i 2024-25, bydd adroddiadau misol yn cynyddu gyda phob is-adran yn amlygu sut y maent yn integreiddio ansawdd yn eu gwasanaethau, a bydd hyn yn rhoi golwg gynhwysfawr i ni ar ein hymagwedd sefydliadol tuag at y Ddyletswydd Ansawdd.



# Ein Pobl

## Cydweithio i fod y gorau y gallwn fod

Rydym yn cydnabod y bydd darparu cyfleoedd cyflogaeth a gyrfaol boddhaus yn cael effaith gadarnhaol ar Boblogaeth Cymru. Mae ein Cynllun Pobl a nodir yn **Atodiad C** yn parhau i gael ei ddatblygu, gydag iechyd a llesiant ein pobl yn ganolog, ac mae'n adeiladu ar y sylfeini cryf yr ydym eisoes wedi'u creu.





Diwylliant
Culture

## Cynlluniau Gweithredu Cymru Wrth-hiliol

**Beth fydd hyn yn ei olygu i'n cwsmeriaid?**
Ymrwymiad i hyrwyddo amrywiaeth, tegwch a chyfiawnder.

Drwy ddatblygu ein Cynllun Gweithredu Amrywiaeth a Chynhwysiant a gyhoeddwyd yn ddiweddar, rydym wedi nodi sawl cyfle i gynyddu amrywiaeth y sefydliad er mwyn adlewyrchu'r cymunedau a wasanaethwn yn well. Ochr yn ochr â hyn rydym wedi ymrwymo i ddarparu gweithle cynhwysol lle y gallwn ddenu a chadw talent, lle mae pobl yn teimlo bod croeso iddynt, eu bod yn ddiogel, a'u bod yn perthyn.

Mewn ymateb i gyhoeddiad Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ym mis Mehefin 2022, rydym hefyd wedi datblygu Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol PCGC. Mae hwn yn canolbwyntio'n benodol ar y nodau canlynol:

- Bydd y GIG yng Nghymru yn wrth-hiliol ac ni fydd yn derbyn unrhyw fath o wahaniaethu nac anghydraddoldeb ar gyfer gweithwyr neu ddefnyddwyr gwasanaeth.
- Bydd staff yn gweithio mewn amgylcheddau diogel a chynhwysol, wedi'u hadeiladu ar arweinyddiaeth a chynghreiriaeth wrth-hiliol dda, gyda chefnogaeth i gyrraedd eu llawn botensial, a bydd staff a chynghreiriaid ethnig leiafrifol yn cael eu grymuso i nodi a mynd i'r afael ag arfer hiliol.

I'r perwyl hwn rydym wedi ymrwymo i gyfres o gamau gweithredu yn 2024-25 sy'n cynnwys y canlynol:

- Penodi Noddwr Gyfarwyddwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.
- Penodi Noddwr Gyfarwyddwr Newid Diwylliant.
- Recriwtio Llysgenhadon Amrywiaeth a Chynhwysiant i gefnogi cydweithwyr.
- Creu rhwydweithiau gweithwyr a fydd yn gallu cael at uwch arweinwyr a noddwyr.
- Sefydlu rhwydwaith cydraddoldeb hiliol a all gefnogi archwiliad.
- Cynllun mentora o chwith i uwch gydweithwyr ddysgu oddi wrth y rhai sydd â phrofiad personol.
- Addysgu ein huwch arweinwyr ar ragfarn ddiarwybod a gwrth-hiliaeth.
- Mwy o gyfleoedd ar gyfer dysgu, ymwybyddiaeth a sgyrsiau agored i gefnogi datblygiad pob cydweithiwr.

Person ganolog
Person centred

## Iechyd a llesiant

### Beth fydd hyn yn ei olygu i'n cwsmeriaid?

Ymrwymiad i hyrwyddo a chefnogi gweithlu iach ac ymgysylltiedig.

Mae camau breision wedi'u cymryd yn 2023-24 wrth ddatblygu ein harlwy Iechyd a Llesiant yn PCGC. Ymhlith y datblygiadau mae gweithredu Fframwaith Iechyd a Llesiant gyda'n hyrwyddwyr Iechyd a Llesiant. Rydym hefyd wedi cefnogi ein staff gydag ymwybyddiaeth o'r menopos, sesiynau ffitrwydd corfforol, gweithdai ymwybyddiaeth straen ac rydym wedi gwella ein darpariaeth cymorth iechyd meddwl trwy gydweithio â phartneriaid fel Mind, Silver Cloud, Amser i Newid Cymru a Headspace.

A symud i 2024-25, byddwn yn:

- Hyrwyddo ein cefnogaeth i weithlu iach ac ymgysylltiedig sy'n sicrhau bod gan bobl lais a'n bod yn gwrando ar y llais hwnnw ar y cyd â gweithgareddau eraill o fewn Dyma ein PCGC ni.
- Adolygu ein fframwaith Iechyd a Llesiant gyda'r Hyrwyddwyr Iechyd a Llesiant.
- Datblygu ymhellach y ddarpariaeth lles ariannol.
- Darparu hyfforddiant achrededig mewnol trwy ein canolfan hyfforddi achrededig ar gyfer Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl i gynyddu nifer y Swyddogion Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl i gefnogi ein staff.

Diwylliant
Culture

## Strategaeth Llety mewn amgylchedd gweithio ystwyth

### Beth fydd hyn yn ei olygu i'n cwsmeriaid?

Rydym yn gyrru arbedion effeithlonrwydd ar draws ein sefydliad ac yn hyrwyddo diwylliant o gyfathrebu agored.

Yn ystod 2023, rydym wedi dechrau cynnal gwerthusiad strategol o'n Hystâd: eiddo sy'n eiddo i ni, yn cael ei brydlesu gennym ac yn cael ei feddiannu gennym. Nod y gwerthusiad hwn yw gostwng costau a chysoni'r defnydd o ofod â'n gwerthoedd a'n hamcanion, trwy sicrhau'r budd a'r effeithlonrwydd mwyaf. Bydd rhaglen ad-drefnu ystadau yn ein cynorthwyo i symleiddio ein portffolio er mwyn diwallu anghenion y sefydliad yn well.

Rydym yn deall bod gweithredu strategaeth llety o fewn amgylchedd gweithio ystwyth PCGC yn gofyn am hyblygrwydd a chydweithio. Rydym yn parhau i hyrwyddo diwylliant o gyfathrebu agored a grymuso i annog staff i gofleidio ein harferion ystwyth, gan gyfrannu at wasanaethau deinamig ac ymatebol.

Gan adeiladu ar yr arferion ystwyth presennol yn 2024-25, mae PCGC hefyd yn bwriadu:

- Cyfuno ein lleoliadau yn y de-ddwyrain yn Nhŷ'r Cwmnïau a Charnwood Court mewn Pencadlys newydd, efallai yn ardal Nantgarw.
- Cynyddu potensial cyfleusterau desg boeth eraill sydd ar gael mewn lleoliadau eraill megis IP5, Matrix House ac, o bosibl, defnyddio sefydliadau eraill y GIG.

Gwella, dysgu ac ymchwil
Learning, improvement and research

# Un Cyflogwr Arweiniol

**Beth fydd hyn yn ei olygu i'n cwsmeriaid?**
Gwell profiad i hyfforddeion meddygol, deintyddol a fferylliaeth gan arwain at well cyfraddau cadw ar draws Cymru.

Mae'r Un Cyflogwr Arweiniol yn drefniant a roddwyd ar waith i reoli a chefnogi'r holl hyfforddeion Meddygol a Deintyddol ledled Cymru, mewn cydweithrediad ag Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC). Mae'r gwaith o gyflwyno'r model i weddill yr hyfforddeion bellach wedi'i gwblhau ac mae trefniadau busnes fel arfer bellach ar waith gyda Byrddau Iechyd. Yn sgil cyflwyno Hyb Hyfforddeion ac Ap Symudol yn 2023, mae'r ffocws yn parhau ar wella'r gwasanaeth a ddarparwn i hyfforddeion yn barhaus.

Gydag ymgysylltiad parhaus â hyfforddeion, cynrychiolwyr staff, AaGIC a sefydliadau cynnal, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar wella a symleiddio model yr Un Cyflogwr Arweiniol drwy weithredu'r camau allweddol canlynol a ddeilliodd o adborth rhanddeiliaid ac adolygiad gwasanaeth mewnol:

- Gwell profiad cynefino hyfforddeion/profiad cwsmeriaid.
- Gwell trefniadau cymorth ar gyfer hyfforddeion tramor.
- Llai o wastraff a llai o ddyblygu gweithgareddau trafodol.
- Gweithio gyda phartneriaid i leihau hysbysiadau talu hwyr sy'n effeithio ar wybodaeth i'r gyflogres, gan arwain at ostyngiad sylweddol mewn gordaliadau.
- Arolygon rheolaidd i hyfforddeion er mwyn monitro boddhad hyfforddeion â Model yr Un Cyflogwr Arweiniol yn barhaus.

Key Performance Indicators have been agreed with partners (NWSSP, HEIW and NHS host organisations) and 2024-25 will focus on automating and embedding these into a monthly reporting process for stakeholders.



Gweithlu
Workforce

## Tyfu Gweithlu'r Dyfodol

**Beth fydd hyn yn ei olygu i'n cwsmeriaid?**
Darparu gwasanaethau gwydn, sy'n addas ar gyfer y dyfodol, ochr yn ochr â chyfleoedd cyflogaeth yn ein cymunedau lleol.

Mae PCGC wedi ymrwymo i'r agenda ehangu mynediad ac i sicrhau ein bod yn darparu cyfleoedd cyflogaeth a thwf i'r rhai yn y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu. Yn 2023-24, buom yn canolbwyntio ar dyfu sgiliau Cymraeg ein gweithlu parhaol er mwyn sicrhau ein bod yn cynrychioli'r cymunedau yr ydym yn gweithio ynddynt a datblygu mynediad i Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru trwy Lwybrau Mynediad Gyrfa.

Hyrwyddom gyfleoedd cyflogaeth trwy ddigwyddiadau gyrfaol mewn partneriaeth ag addysg a sefydliadau eraill, gan gynnwys elusennau ac asiantaethau sy'n cefnogi mynediad i leoliadau gwaith cynhwysol.  Yn sgil cynnydd mewn gweithgarwch hyrwyddo, fe wnaethom recriwtio mwy o hyfforddeion Rhwydwaith 75 nag yn y blynyddoedd diwethaf gyda 10 myfyriwr yn ymuno â ni ar draws 6 o'n meysydd gwasanaeth proffesiynol.

Yn 2024-25, rydym wedi ymrwymo i ddatblygu ein dull Ehangu Mynediad ymhellach, gan ganolbwyntio ar:

- Cynyddu nifer y staff sy'n ymuno â ni gyda nodweddion gwarchodedig.
- Parhau i feithrin sgiliau Cymraeg ein gweithlu parhaol i sicrhau ein bod yn gynrychioliadol o'r cymunedau yr ydym yn gweithio ynddynt.
- Datblygu mynediad i PCGC ymhellach drwy Lwybrau Mynediad Gyrfa gan ganolbwyntio'n benodol ar gynyddu ein llwybrau prentisiaeth ac archwilio cyfleoedd eraill fel interniaethau.
- Hyrwyddo ymhellach gyfleoedd trwy ddigwyddiadau Gyrfa mewn partneriaeth ag addysg a sefydliadau eraill gan gynnwys elusennau ac asiantaethau sy'n cefnogi mynediad i leoliadau gwaith cynhwysol.



# Gwasanaethau

**Ysgogi arloesedd a darparu gwasanaethau o ansawdd uchel yn gyson.**

Rydym yn cydnabod effaith drawsnewidiol gwasanaethau a yrrir gan ddata a chanlyniadau a sut maent yn cyfrannu at wella profiadau i gleifion GIG Cymru a'r boblogaeth ehangach.  Mae ein hastudiaethau achos, cyflawniadau a datblygiadau arloesol ar **dudalen 12** yn amlygu sut rydym yn gweithio tuag at yr amcan hwn, gan ymgorffori'r defnydd o dechnoleg, ein hyb arloesi a gweithio mewn partneriaeth.





Ymagwedd systemau cyfan
Whole systems approach

# Rhaglen Datrysiadau Gweithlu'r GIG yn y Dyfodol

**Beth fydd hyn yn ei olygu i'n cwsmeriaid?**
System Rheoli Dynol hyblyg ac ystwyth sy'n fwy ymatebol i anghenion GIG Cymru sy'n rhyngwynebu'n ddi-dor ag e-systemau eraill GIG Cymru.

Rydym yn gweithio'n agos gydag Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG (NHSBSA) i arwain datblygu a gweithredu Datrysiad Gweithlu'r GIG yn y Dyfodol ar ran GIG Cymru, a fydd wedyn yn disodli'r Cofnod Staff Electronig (ESR) cyfredol. Dyma fydd un o'r rhaglenni trawsnewid digidol mwyaf y bydd staff GIG Cymru yn ei brofi ers peth amser a bydd yn rhedeg drwy gydol tymor tair blynedd y CTCI hwn.

Daw'r contract gyda'r darparwr gwasanaeth presennol i ben yn 2025 ac mae cyfres e-fusnes Oracle y mae'r Cofnod Staff Electronig wedi'i adeiladu arni yn symud i 'ddiwedd y cymorth' yn 2033. Mae gweithgareddau caffael ar y gweill a byddant yn parhau trwy gydol blwyddyn gyntaf ein CTCI. Bydd y contract yn cael ei ddyfarnu yn 2025. Yn ystod y cyfnod hwn, byddwn yn cefnogi Sefydliadau GIG Cymru i baratoi ar gyfer y datrysiad yn y dyfodol, trwy weithgareddau optimeiddio a pharodrwydd. Yn dilyn dyfarnu'r contract, bydd holl Sefydliadau GIG Cymru yn symud i'r datrysiad newydd erbyn 2030. Bydd y rhaglen trawsnewid hon yn darparu system gweithlu gadarn, reddfol, ystwyth sy'n diwallu anghenion esblygol GIG Cymru.

Rhagwelwn y bydd gwaith adeiladu a mudo yn dechrau ym mlwyddyn dau ein CTCI, ac ar ôl dyfarnu'r contract, gyda chytundeb ar sefydliadau mabwysiadu cynnar. Ar ran GIG Cymru, rydym yn awyddus i fanteisio ar y buddion a ddarperir gan Ateb Gweithlu'r Dyfodol ac rydym yn gweithio ar gynlluniau i sicrhau bod GIG Cymru yn y sefyllfa orau i fod yn fabwysiadwr cynnar. Ym mlwyddyn 3, ein huchelgais yw bod yn un o'r mabwysiadwyr cynnar hynny a dechrau trosglwyddo defnyddwyr GIG Cymru i'r platfform newydd. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â chydweithwyr yn GIG Cymru ac arweinwyr strategol drwy strwythurau llywodraethu sydd newydd eu sefydlu.





Teg
Equitable

## Gwasanaeth Archwilio Meddygol

**Beth fydd hyn yn ei olygu i'n cwsmeriaid?**
Craffu annibynnol ar bob marwolaeth nad yw'r crwner yn ymchwilio iddi.

Ym mis Ebrill 2023, nododd Llywodraeth y DU y camau nesaf tuag at greu System Archwilio Meddygol statudol o fis Ebrill 2024. Dechreuodd darpariaethau perthnasol Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009 a Deddf Iechyd a Gofal 2022 yn hydref 2023, gan nodi gofynion systemau iechyd lleol i baratoi ar gyfer cyflwyno Archwilwyr Meddygol yn statudol, yn weithredol o fis Ebrill 2024.

Pwrpas y system archwilio meddygol yw:

- Darparu mwy o fesurau diogelu i'r cyhoedd drwy sicrhau bod craffu annibynnol ar bob marwolaeth nad yw'n mynd at y crwner.
- Sicrhau bod marwolaethau'n cael eu cyfeirio'n briodol at y crwner.
- Darparu gwell gwasanaeth i alarwyr, a chyfle iddynt godi unrhyw bryderon gyda meddyg nad oedd yn ymwneud â gofal yr ymadawedig.
- Gwella ansawdd ardystio marwolaethau.
- Gwella ansawdd data marwolaethau.

Yng Nghymru, mae PCGC yn darparu'r swyddogaeth hon drwy Wasanaeth Archwilio Meddygol Cymru. Mae'r Gwasanaeth hwn yn cyflogi Archwilwyr Meddygol, sydd oll yn uwch feddygon ac yn Swyddogion Archwilio Meddygol, sy'n cefnogi Archwilwyr Meddygol i gyflawni eu dyletswyddau a, gyda'i gilydd, maent yn darparu craffu cyson ac annibynnol, o ansawdd uchel, ar bob marwolaeth na chaiff ei chyfeirio'n uniongyrchol at grwner.





Person ganolog
Person centred

## Achrediad Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cwsmeriaid

**Beth fydd hyn yn ei olygu i'n cwsmeriaid?**
Dangos ein cymhwysedd, ffocws ar gwsmeriaid ac ymrwymiad i welliant parhaus.

Yn 2023, gyda chefnogaeth ein Tîm Gwella Gwasanaethau, llwyddodd PCGC i ennill Achrediad Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cwsmeriaid ar lefel gorfforaethol, gan amlygu'r ystod o gymwyseddau gwasanaeth cwsmeriaid craidd ar draws y sefydliad.

Fe wnaethom gyflawni:

- 12 Cydymffurfiaeth Plws (Wedi rhagori ar y safonau sy'n ofynnol)
- 33 Cydymffurfiaeth (Cyflawnwyd y safon sy'n ofynnol)
- 2 Gydymffurfiaeth Rannol (Meysydd i'w gwella)




A symud i 2024-25, byddwn yn:

- Datblygu a monitro cynlluniau gweithredu adrannol gan ganolbwyntio ar y meysydd a nodwyd i'w gwella yn yr Asesiad Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cwsmeriaid.
- Hwyluso cydweithio a rhannu arfer da ar draws isadrannau er mwyn gwella boddhad cwsmeriaid.
- Cefnogi is-adrannau i gynnal yr achrediad a gweithio tuag at asesiad 2024.



Effeithiol
Effective

## Gwasanaeth Golwg Gwan

**Beth fydd hyn yn ei olygu i'n cwsmeriaid?**
Gwasanaeth wedi'i foderneiddio sy'n cofleidio cyfleoedd i addasu a dod yn fwy syml.

Trosglwyddwyd Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru yn llwyddiannus o Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i Ofal Sylfaenol, Gwasanaethau Proffesiynol a Chlinigol, ar 1 Mehefin 2023. Yn sail i'r trosglwyddiad hwn yr oedd egwyddorion Trosglwyddo Ymgymeriadau Diogelu Hawliau Cyflogaeth (TUPE).

### Datblygiad gwasanaeth parhaus

Mae adolygiad cychwynnol o systemau a phrosesau wedi cyflwyno cyfleoedd i foderneiddio gwasanaethau. Rydym wedi cefnogi'r proffesiwn trwy ddatgomisiynu peiriannau ffacs, gan roi cyfle i ni symud i drefniadau rhannu ffeiliau diogel, gan wella cydymffurfiaeth o ran Llywodraethu Gwybodaeth a'r Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

Rydym yn parhau i weithio gyda chydweithwyr caffael i sicrhau bod contract cyflenwr priodol yn cefnogi'r gwasanaeth ac mae ein hamserlen ar gyfer dyfarnu contract yn Chwarter 1, 2024. Bydd y ddwy fenter hyn yn dileu risgiau i'r gwasanaeth a nodwyd yn ystod y cyfnod trosglwyddo.

### Datblygu Staff

Gyda chyflwyniad y Contract Offthalmig, rydym yn parhau i chwilio am gyfleoedd i foderneiddio ymhellach y trefniadau Golwg Gwan presennol, gan groesawu cyfleoedd hefyd i addasu a symleiddio er mwyn bodloni newidiadau deddfwriaethol.

Ar hyn o bryd, rydym yn gweithio gyda Thîm Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru i'w hymgorffori ymhellach yn y gwasanaethau trafodol ehangach. Cynnig cyfleoedd ychwanegol i'n cydweithwyr yng Ngwasanaeth Golwg Gwan Cymru i gefnogi eu llwybr hyfforddi a datblygu, gan feithrin gwydnwch o fewn y tîm presennol hefyd.

## Ymchwiliad Cyhoeddus COVID-19 ac Ymgyfreitha

### Beth fydd hyn yn ei olygu i'n cwsmeriaid?

Derbyn cyngor cyfreithiol arbenigol sy'n cefnogi gwneud penderfyniadau gofalus a rheolaeth gyfreithiol a risg.

Bydd ein Timau Cyfreithiol a Risg yn parhau i gefnogi Sefydliadau'r GIG yng Nghymru mewn perthynas ag ymgyfreitha sy'n deillio o bandemig COVID-19. Mae hyn yn cynnwys hawliadau cyfreithiol, pryderon yr ymchwiliwyd iddynt o dan y Rheoliadau Gweithio i Wella ac ymchwiliad cyhoeddus COVID-19 y DU. Rydym yn ymwybodol iawn o'r baich ariannol y mae ymchwiliad cyhoeddus COVID-19 yn ei roi ar y GIG yng Nghymru, y gost o ran amser staff, a'r effaith emosiynol ar y staff dan sylw. Byddwn yn parhau i gydweithio â phob Sefydliad y GIG ledled Cymru i rannu dysgu a lleihau'r effaith ar staff a chleifion y GIG.

## Uned Feddyginiaethau Gwasanaethau Fferylliaeth

### Beth fydd hyn yn ei olygu i'n cwsmeriaid?

Cefnogi gwasanaethau aseptig, canser a gofal critigol lleol o fewn ein Byrddau Iechyd partner.



Mae ein Huned Meddyginiaethau Fferylliaeth yn gyfleuster Gwneuthurwr a Deliwr Cyfanwerthu "Arbennig" Trwyddedig yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA) sy'n canolbwyntio ar baratoi meddyginiaethau risg uchel/cost uchel i GIG Cymru.

Gall y cyfleuster gyflenwi Meddyginiaethau "Arbennig" (cynhyrchion a gynhyrchwyd yn arbennig ar gyfer trin cleifion unigol) o dan ei drwydded trwy ddefnyddio technolegau lled-awtomataidd sy'n datblygu ansawdd, diogelwch a gwerth meddyginiaethau trwy leihau costau ac effeithiau amgylcheddol. Mae'r uned yn gweithio gyda phartneriaid ar draws Byrddau Iechyd yng Nghymru i nodi cyfleoedd i gefnogi gwasanaethau aseptig lleol sydd â heriau capasiti neu ariannol, gan gynnwys gweithredu argymhellion cenedlaethol megis rheoli capasiti gwasanaethau therapi gwrth-ganser systemig.

O dan Drwydded Deliwr Cyfanwerthu, mae'r Uned Fferylliaeth yn parhau i brynu meddyginiaethau targedig ar sail Cymru gyfan i wella gwydnwch y cyflenwad, ystwythder gwasanaethau ac i ysgogi gostyngiadau mewn gwariant ar feddyginiaethau. Mae gweithgareddau'r Deliwr Cyfanwerthu hefyd yn caniatáu i Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru gyflenwi'r brechlynnau COVID-19 i safleoedd gofal sylfaenol ac eilaidd ar draws GIG Cymru.

Mae datblygiadau gwasanaeth yn cynnwys darparu Gwasanaethau Profi Nwy Meddygol GIG Cymru, gostwng costau drwy lai o ddibyniaeth ar gyflenwyr masnachol a chefnogaeth dihalogi i Fyrddau Iechyd partner trwy dechnegau diheintio arloesol a ddatblygwyd o fewn Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.

Effeithlon
Efficient

# Trawsnewid Mynediad at Feddyginiaethau (TrAMS).

**Beth fydd hyn yn ei olygu i'n cwsmeriaid?**
Sefydlu cadernid cost-effeithiol yn ein cyflenwad meddyginiaethau, gan wella profiad y claf trwy ddarparu meddyginiaethau a gwasanaethau o ansawdd uchel.

Rydym yn parhau i arwain o ran y rhaglen gynhwysfawr hon o bobl, prosesau a buddsoddiadau cyfalaf i ad-drefnu Gwasanaethau Fferylliaeth ar draws GIG Cymru yn un cydwasanaeth.

Bydd y trawsnewid hwn yn dangos gwelliannau mewn ansawdd, diogelwch a chydymffurfio rheoleiddiol, gan sicrhau mynediad teg i gleifion ledled Cymru at feddyginiaeth ac ad-daliadau costau cysylltiedig yn y pen draw.

Cyfeirir at Raglen TrAMS yng Nghynllun Gweithredu Canser Cymru fel galluogwr allweddol ar gyfer sicrhau cyflenwad o Therapïau Gwrth-Ganser Systemig. Yn ystod 2023, llwyddodd y rhaglen i gwblhau proses Cam 1 Newid Sefydliadol a recriwtio'r Strwythur Arweinyddiaeth Cenedlaethol.

Bydd y gwaith a gynllunnir ar gyfer 2024–27 yn cynnwys:

- Adeiladu tri hwb paratoi meddyginiaeth rhanbarthol, gan ddewis yr ardaloedd sy'n cael eu ffafrio ar eu cyfer, datblygu gwaith dylunio, a pharatoi Achosion Busnes i gefnogi penderfyniadau buddsoddi. Mae statws y cynllun yn dibynnu ar y cyllid cyfalaf a fydd ar gael a disgwylir iddo fod fel a ganlyn:
    - 2024-25: Datblygu gwasanaeth Radiofferylliaeth De-ddwyrain Cymru o fewn IP5. (Mae radiofferylliaeth yn cynnwys paratoi meddyginiaethau ymbelydrol i'w chwistrellu, yn bennaf i ategu sganio diagnostig.)
    - 2025-26: Ystafell Therapi Gwrth-ganser Systemig De-ddwyrain Cymru (SACT – cemotherapi i'w chwistrellu).
    - 2026-27: Ystafell Ychwanegion Mewnwythiennol Canolog (CIVA – meddyginiaethau i'w chwistrellu).
- Cefnogi a sefydlogi gwasanaethau etifeddol ledled Cymru yn wyneb materion yn ymwneud â chyfleusterau a chapasiti'r gweithlu.
- Gweithio mewn partneriaeth ag Addysg a Gwella Iechyd Cymru i ddatblygu rhaglen hyfforddi i ddatblygu ac ehangu'r gweithlu presennol.
- Parhau â'r prosesau newid sefydliadol gan ymgysylltu'n llawn â'r staff.
- Gweithio mewn partneriaeth ag Iechyd a Gofal Digidol Cymru, datblygu a defnyddio systemau digidol a rheoli stoc.
- Ymgysylltu clinigol parhaus i safoni arfer a dileu amrywiadau diangen ar draws GIG Cymru.
- Gweithio mewn partneriaeth â gwledydd eraill y DU ar safoni'r catalog cynnyrch, ymchwil sefydlogrwydd, a rhannu arfer gorau.

Effeithiol
Effective

## Uned Gwerth Meddyginiaethau

**Beth fydd hyn yn ei olygu i'n cwsmeriaid?**

Rydym yn gwella gwerth ac yn gwneud y gorau o adnoddau'n effeithlon er budd ein partneriaid a'n cleifion.

Mae'r Uned Gwerth Meddyginiaethau, ar ôl cwblhau cam recriwtio staff, bellach yn cynnal rhaglen o weithgarwch caffael masnachol wedi'i dargedu gyda'r nod o sicrhau deunydd fferyllol a therapïau newydd ac arloesol ar gyfer GIG Cymru a'r boblogaeth cleifion, gan ychwanegu gwerth a defnydd effeithlon o adnoddau. Bydd y gweithgaredd yn cael ei arwain yn glinigol ac yn seiliedig ar ddulliau seiliedig ar dystiolaeth i sicrhau canlyniadau sydd o bwys i gleifion.

Mae'r rhaglen waith bresennol yn yr Uned Gwerth Meddyginiaethau yn canolbwyntio ar nifer o weithgareddau allweddol:

- Targedu contractio meddyginiaethau didrwydded drwy ddatblygu manylebau cynnyrch wedi'u safoni'n genedlaethol ac ymgysylltu â'r farchnad i ddod â 30% o wariant Cymru ar feddyginiaethau didrwydded oddi ar gontract o dan gytundebau contract Cymru Gyfan.

- Ar hyn o bryd, mae'r uned yn cynnal proses adolygu genedlaethol yn gysylltiedig â Meddyginiaethau Gofal Cartref er mwyn deall y cyfleoedd am ddull Cymru Gyfan o ddarparu meddyginiaethau gofal cartref, tra hefyd yn cefnogi GIG Cymru i weithredu cyfleoedd arbedion effeithlonrwydd sy'n deillio o feddyginiaethau lle y collwyd detholusrwydd. Gwneir y gwaith hwn gyda rhanddeiliaid allweddol megis Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru Gyfan a Chanolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan.



# Blaenoriaethau Gweinidogol



GIG CYMRU NHS WALES | Partneriaeth Cydwasanaethau Shared Services Partnership

# Blaenoriaethau Gweinidogol



Er bod y Blaenoriaethau Gweinidogol yn Fframwaith Cynllunio 2024-27 wedi'u cyfeirio'n bennaf at Fyrddau Iechyd lleol, rydym wedi ystyried sut y bydd ein cynlluniau'n cyfrannu at ac yn darparu cymorth i'r blaenoriaethau hyn drwy'r gwaith yr ydym eisoes wedi'i amlygu fel rhan o gyflawni Amcanion Strategol PCGC.

## Sicrhau Gwerth, Arloesedd a Rhagoriaeth drwy Bartneriaeth

**Sbardunau Strategol a Gweledigaeth Hirdymor**

Cefnogi ein partneriaid yn y GIG i weithredu blaenoriaethau gweinidogol drwy ddarparu'r effeithlonrwydd a'r arloesedd i ychwanegu gwerth a chyflymder ar draws GIG Cymru.

**Cymru Iachach** – Y cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol.

**Dyletswydd Ansawdd** – Ymrwymiad i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)** – gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

**Canlyniadau Amcanion Strategol**

**Ein pobl** - Cydweithio i fod y gorau y gallwn fod.

Mae cyfleoedd cyflogaeth a gyrfa gwerth chweil yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd poblogaeth Cymru.

**Ein Gwasanaethau** - Ysgogi arloesedd a darparu gwasanaethau o ansawdd uchel yn gyson.

Mae defnydd effeithiol o ddata a ffocws clir ar ganlyniadau yn arwain at wella gwasanaethau i gleifion a'r boblogaeth ehangach.

**Ein Gwerth** - Gwneud y mwyaf o fudd, effeithlonrwydd ac effaith gymdeithasol yr hyn a wnawn i'n partneriaid.

Mae defnydd effeithlon ac effeithiol o'n hadnoddau yn cynyddu'r amser a'r arian sydd ar gael i wella gofal cleifion i'n partneriaid.



## Codi Llais heb Ofn

Mae PCGC mor ymrwymedig ag erioed i weithio tuag at newid cadarnhaol. Trwy ein rhaglen newid diwylliant, 'Dyma Ein PCGC Ni', rydym wedi sicrhau bod gan gydweithwyr lais wrth lunio'r ffordd rydym yn gweithio ac rydym wedi ymgymryd â'u safbwyntiau. Rydym yn cydnabod nad yw pob cydweithiwr yn teimlo'n ddiogel i gael llais yn y sefydliad a phan fydd pethau'n mynd o chwith weithiau, mae'n hanfodol bod cydweithwyr yn gallu codi pryderon, teimlo'n ddiogel wrth wneud hynny, bod yn hyderus y byddant yn cael eu trin â pharch ac empathi, ac y byddwn yn mynd i'r afael â phryderon.

I gefnogi cydweithwyr yn hyn o beth, mae PCGC yn gwneud nifer o ymrwymiadau sy'n cynnwys y canlynol:

- Creu Polisi a Gweithdrefn PCGC ar gyfer Codi Llais heb Ofn a fydd yn mynd i'r afael â chymhlethdodau'r sefydliad, y mae ei weithwyr wedi'u lleoli ar ein safleoedd ein hunain ond hefyd gyda sefydliadau eraill y GIG. Mae'r olaf yn arbennig o berthnasol i weithwyr y Gwasanaeth Un Cyflogwr Arweiniol. Bydd hyn yn cynnwys mecanwaith i sicrhau bod pryderon a godir yn cael eu dal a bod themâu yn cael eu hadrodd o fewn amserlenni y cytunwyd arnynt.
- Penodi Arweinydd Codi Llais heb Ofn a fydd yn canolbwyntio ar weithredu'r polisi a hwyluso'r broses.
- Addysg i holl lysgenhadon a hyrwyddwyr y sefydliadau, y gellir cysylltu â nhw'n gyfrinachol neu sydd mewn sefyllfa i glywed gan gydweithwyr sy'n dymuno mynegi pryderon, gan gynnwys Hyrwyddwyr Newid Diwylliant, Hyrwyddwyr Iechyd a Llesiant a Llysgenhadon Amrywiaeth a Chynhwysiant.
- Hyfforddiant ymwybyddiaeth i bob cydweithiwr i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r broses a sut y byddant yn cael eu cefnogi.

Byddwn yn datblygu diwylliant lle mae ein Gweithwyr Arweiniol Sengl dan Hyfforddiant yn cael eu hannog i godi llais am bryderon a theimlo eu bod yn gallu gwneud hyn yn ddiogel. Byddwn yn datblygu systemau sy'n sicrhau bod pryderon a godir yn destun ymchwiliad trylwyr a diduedd a bod gwersi a ddysgwyd yn cael eu trafod yn agored a'u bwydo'n ôl i'r holl randdeiliaid dan sylw. Byddwn yn sicrhau na fydd hyfforddai/hyfforddeion sy'n codi llais yn dioddef unrhyw anfantais. Yn olaf, rydym yn ymrwymo y bydd pryderon yn ymwneud â gwreig-gasineb yn destun ymchwiliad annibynnol ac y byddwn yn gweithredu arnynt.

Gweithlu Workforce

## Recriwtio Rhyngwladol

**Beth fydd hyn yn ei olygu i'n cwsmeriaid?**
Cryfhau gwasanaethau clinigol ar draws GIG Cymru i fynd i'r afael â heriau hirdymor y gweithlu.

Mae Rhaglen Recriwtio Ryngwladol Cymru Gyfan, a sefydlwyd yn 2021, wedi hwyluso'r broses o recriwtio Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd Rhyngwladol yn ddiogel ac yn foesegol i weithlu GIG Cymru, gan leihau nifer y lleoedd gwag a chefnogi'r gwaith o ddarparu gofal rheng flaen i gleifion. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae PCGC bellach wedi darparu cynigion cyflogaeth yn GIG Cymru i dros 700 o nyrsys cofrestredig a addysgwyd yn rhyngwladol, gan gyfrannu at gryfhau'r Gweithlu Gofal Iechyd yn unol â Chymru Iachach.

Yn ystod 2023-24, ehangodd y rhaglen i gynnwys recriwtio meddygon. Ym mis Tachwedd 2023, cynigiwyd swyddi i'r garfan gyntaf o Raddedigion Meddygol Rhyngwladol yn GIG Cymru, gan gynnwys 9 Cymrawd Clinigol Iau a 4 Cymrawd Clinigol Uwch mewn Meddygaeth Gyffredinol; ynghyd â 3 Chymrawd Clinigol Uwch Oncoleg. Mae PCGC hefyd wedi'i ychwanegu at y rhestr recriwtwyr moesegol a dyfarnwyd achrediad y Cyngor Meddygol Cyffredinol iddo fel sefydliad noddi ar gyfer GIG Cymru gyfan.

Mae PCGC yn parhau i sefydlu ymgeiswyr mewn Byrddau Iechyd, gan ystyried modelau recriwtio amgen i hybu effeithlonrwydd hefyd. Rydym wedi cwblhau Cam 2 y broses Recriwtio Rhyngwladol, sydd wedi rhoi cyfleoedd i drosglwyddo rhywfaint o ddarpariaeth y rhaglen i fusnes fel arfer.

A symud i 2024-25, bydd PCGC yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu Achos Busnes dros gynyddu cyllid ar gyfer Rhaglen Recriwtio Ryngwladol Cymru Gyfan, er mwyn sicrhau bod pob sefydliad yn gallu cymryd rhan. Bydd y rhaglen waith hefyd yn cynnwys:

- Cychwyn Cam 3 recriwtio nyrsys rhyngwladol.
- Gweithredu fframwaith monitro perfformiad cyflenwyr gyda Dangosyddion Perfformiad Allweddol diffiniedig yn ei ategu, o fewn Cytundeb Lefel Gwasanaeth y cytunwyd arno.
- Ymchwilio ymhellach i gyfleoedd modelau recriwtio rhithwir.
- Ehangu'r rhaglen recriwtio ryngwladol i arbenigeddau eraill sy'n anodd eu llenwi, fel Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd, o fewn Sefydliadau GIG Cymru.



## Contract Offthalmig Cenedlaethol Cymru

**Beth fydd hyn yn ei olygu i'n cwsmeriaid?**
Gwell gwasanaethau gofal llygaid ar gael yn y lleoliad Gofal Sylfaenol.

Daeth rheoliadau i rym ar 20 Hydref 2023, yn cefnogi lefel 1 gorfodol Gwasanaeth Offthalmig Cyffredinol Cymru (WGOS), gofal iechyd llygaid cyfannol, a lefel 2, Archwiliad Iechyd Llygaid Cymru (EHEW) gorfodol. Rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth ag Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) i sicrhau bod y proffesiwn wedi cyrchu a chwblhau'r hyfforddiant angenrheidiol i'w alluogi i gydymffurfio â'r trefniadau newydd hyn. Rydym yn parhau i arwain ar gyflwyno llwybrau gwasanaeth newydd yn ystod y cyfnod trosiannol hwn (Hydref i Fawrth 2024), er mwyn sicrhau bod yr holl drefniadau contract yn fyw ac yn weithredol erbyn diwedd mis Mawrth 2024.

Mae'r gweithredu'n parhau i ddatblygu ar y cyfeiriad a amlinellwyd yn Cymru Iachach a'r cynnydd a wnaed eisoes ers lansio'r cynllun Law yn Llaw at Iechyd: gofal iechyd llygaid. Fel rhanddeiliad allweddol ac arweinydd ar y rhaglen hon, mae PCGC yn parhau i sicrhau bod pob penderfyniad a wneir yn dilyn egwyddorion allweddol Gofal Iechyd Llygaid GIG Cymru – Ymagwedd y Dyfodol tuag at Wasanaethau Optometreg.

Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol Cymru
Wales General Ophthalmic Services

Mae'r gwaith o roi llwybrau gwasanaeth newydd ar waith wedi dechrau ac rydym yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn y Bwrdd Iechyd i alluogi newid gweithredol i gefnogi'r llwybrau newydd hyn. Bydd y newidiadau a chyflwyno llwybrau newydd yn cefnogi gwelliannau i alluogi monitro, rheoli a thrin mwy o gleifion mewn gofal sylfaenol. Dros amser, byddwn yn dangos tystiolaeth o'r gostyngiad yn y galw am ofal eilaidd a gwell mynediad i gleifion.

Mae'r Bwrdd Gweithredu yn parhau i gymeradwyo a goruchwylio'r gwaith o gyflawni'r holl amcanion allweddol wrth baratoi ar gyfer gweithredu'r contract erbyn mis Ebrill 2024. Mae trefniadau Swyddfa Rheoli Prosiect PCGC bellach yn ategu'r Bwrdd Gweithredu, gan gefnogi'r Gwasanaethau Gofal Sylfaenol i alluogi'r newid hwn.

A symud i 2024-25, byddwn yn:

- Gweithredu fel Partner Strategol i Lywodraeth Cymru gan arwain y gwaith o gyflwyno contract Offthalmig Cenedlaethol Cymru.
- Cefnogi'r gwaith o sefydlu trefniant bwrdd rheoli gwasanaeth newydd o fewn GIG Cymru.
- Adolygu targedau cyflawnadwy allweddol i'w dwyn ymlaen i 2024-25 a chytuno ar gerrig milltir gyda'r bwrdd gwasanaeth.

## Gwasanaeth Rhagnodi Electronig

**Beth fydd hyn yn ei olygu i'n cwsmeriaid?**

Lleihau/dileu presgripsiynau papur gan ei wneud yn fwy cyfleus i staff a chleifion. Arbedion effeithlonrwydd mewn gwasanaethau dosbarthu, ad-dalu a gwybodaeth i gefnogi darpariaeth gwasanaeth cynaliadwy o fewn fferylliaeth gymunedol.

Bydd datblygu Gwasanaeth Rhagnodi Electronig yng Nghymru a'i gyflwyno yn golygu nad yw'r system bellach yn dibynnu ar symud presgripsiynau papur rhwng y rhagnodwr a'r dosbarthwr, gyda'r cysylltiad dilynol â PCGC ar gyfer ad-daliadau. Fel rhan annatod o'r system ehangach hon, bydd PCGC yn gweithio'n agos gydag Iechyd a Gofal Digidol Cymru i gyflawni'r newidiadau hyn yn unol ag amserlen Rhaglen y Gwasanaeth Rhagnodi Electronig.

Mae Gwasanaethau Gofal Cychwynnol wedi cyfrannu at lawlyfr y Gwasanaeth Rhagnodi Electronig (f.1 i'w ddefnyddio ar y safle cyntaf yn unig) a bydd y llawlyfr yn cael ei addasu wrth i'r rhaglen barhau i gael ei chyflwyno. Bydd trefniadau gweithio ar y cyd rhwng timau cyfathrebu PCGC ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn sicrhau bod y trefniant cydweithio hwn yn cael ei gynnal.

Mae mewnbwn a thrafodaethau parhaus gyda Thîm Iaith Gymraeg PCGC yn sicrhau bod y broses o gyflwyno'r Gwasanaeth Rhagnodi Electronig yng Nghymru yn cydymffurfio'n llawn â safonau'r Gymraeg a'u rhwymedigaethau.

Erbyn hyn, mae'r prosiect mewn cyfnod prawf byw a ddechreuodd ganol mis Tachwedd 2023 a bydd yn parhau tan fis Rhagfyr 2023, gyda Meddygfa a Fferyllfa wedi'u galluogi i gefnogi'r profion byw hyn. Bydd cyflwyno'r system hon yn gwneud y broses ragnodi a dosbarthu yn fwy diogel, yn fwy effeithlon ac yn gyfleus i gleifion a staff y GIG.

Wrth symud i 2024-25, byddwn yn gweithredu elfennau PCGC y Rhaglen e-ragnodi genedlaethol gydag Iechyd a Gofal Digidol Cymru, sy'n golygu ein bod yn:

- Parhau i'w chyflwyno yn ôl y bwriad, fel y'i hysgogwyd gan y rhaglen.
- Adolygu rheolau'r system i sicrhau'r buddion mwyaf posibl.
- Adolygu gofynion adnoddau.
- Datblygu a defnyddio newid system i gynyddu awtomeiddio.



# Swyddogaethau Cefnogi Craidd



GIG CYMRU NHS WALES
Partneriaeth Cydwasanaethau
Shared Services Partnership



## Blaenoriaethau Digidol

Rydym yn deall ac yn cydnabod pwysigrwydd systemau digidol sy'n cefnogi ein cwsmeriaid, profiad defnyddwyr a staff, a sut maent yn gwella effeithlonrwydd a pherfformiad ar draws GIG Cymru.

Wrth symud i 2024-25, rydym wedi blaenoriaethu nifer o feysydd digidol a fydd yn cefnogi ein cwsmeriaid a'n partneriaid i hybu effeithlonrwydd ar draws GIG Cymru. Y blaenoriaethau hyn yw:

- Sicrhau'r adenillion mwyaf posibl o'r buddsoddiad mewn systemau digidol newydd.
- Trawsnewid Mynediad at Feddyginiaethau: Dod o hyd i ateb digidol i gefnogi'r gwasanaeth gweithgynhyrchu meddyginiaethau.
- Newid y Cofnod Staff Electronig mewn cydweithrediad ag Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG yn 2025.
- Mudo cyllid ac adroddiadau Oracle o gael eu cynnal gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i gwmwl Oracle yn 2024.
- Sganio er Diogelwch: Olrhain cynnyrch meddyginiaethol/ dyfeisiau meddygol awtomataidd. Parhau i'w gyflwyno yn unol â Chynlluniau Byrddau Iechyd.
- Gwasanaeth Presgripsiynau Electronig: Integreiddio taliadau contractwyr a darparu ar gyfer cardiau clyfar. Dechreuodd y peilot ym mis Tachwedd 2023.
- Cofrestru Cleifion: Newid dull cofrestru cleifion Gofal Sylfaenol y Gwasanaeth Seilwaith Cymwysiadau Iechyd Gwladol (NHAIS) yn 2024.
- System Gwybodaeth am y Gweithlu: Disodli System Adrodd Cenedlaethol y Gweithlu Cymru (Gofal Sylfaenol) a Datrysiadau Rhestri Cyflawnwyr yn 2024.

## Cynaliadwyedd Ariannol

Mae'r rhagolygon ariannol ar gyfer PCGC yn heriol iawn ac mae'r cynllun ariannol, er ei fod yn gytbwys, yn cynnwys nifer o risgiau sylweddol a thybiaethau incwm. Bydd pwysau a blaenoriaethau a nodwyd o £9.157m ar gyfer 2024-25 yn cael eu diwallu o gynhyrchu incwm ychwanegol, arbedion sy'n rhyddhau arian parod, arbedion effeithlonrwydd ac incwm Llywodraeth Cymru.

| | **£ miliwn** |
|---|---|
| Blaenoriaethau | 1.227 |
| Pwysau | 2.976 |
| Datblygu Gwasanaethau | 3.163 |
| Mwy o Weithgaredd Trafodol | 0.791 |
| Ynni – Golchdai | 1.000 |
| **Cyfanswm** | **9. 157** |


Mae pwysau allweddol yn ein cynllun yn ymwneud â chostau chwyddiant wrth i gontractau gael eu hadnewyddu ynghyd ag ehangu ein gwasanaethau a chynnydd parhaus yn y galw, gan gynnwys y cynnydd parhaus mewn gweithgarwch sy'n parhau i gael ei brosesu gan ein Gwasanaethau Trafodol gan gynnwys y Gyflogres, Recriwtio a Chyfrifon Taladwy.  Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid rheolaidd i Fyrddau Iechyd Prifysgol ar gyfer y pwysau yr ydym yn ei gydnabod o ran ynni ar gyfer golchdai.

Byddwn yn buddsoddi mewn nifer o feysydd â blaenoriaeth gan gynnwys yr Economi Sylfaenol, Datgarboneiddio a'n Strategaeth Ddigidol. Hefyd, byddwn yn buddsoddi mewn ehangu nifer o'n gwasanaethau i ateb y galw cynyddol gan gynnwys Gwasanaethau Cyfreithiol, Aberthu Cyflog a'n His-adran Gadwyn Gyflenwi a Logisteg. Bydd buddsoddiad o'r fath yn gwella ansawdd ac effeithlonrwydd y gwasanaethau a ddarperir i GIG Cymru. Yn ogystal, mae cyllid wedi'i glustnodi i ymateb i Ymchwiliad Cyhoeddus Covid-19 a gweithredu Cam 1 ein strategaeth ad-drefnu ystadau.

Bydd ffrydiau incwm yn fwy na £681m ar gyfer 2024-25 gan godi i £692m erbyn 2026-27.



## **Incwm PCGC £m** *(ac eithrio darpariaethau Cronfa Risg Cymru)*




Mae trefniadau'r Un Cyflogwr Arweiniol yn effeithio'n sylweddol ar ein ffrydiau incwm, gyda £266 miliwn o incwm o'n cyfanswm o £681 miliwn i'w briodoli o'r gwasanaeth hwn yn unig yn 2024-25. Rhagwelir twf incwm parhaus ar draws sawl maes Gwasanaeth hyd at 2026-27.

Bydd setliadau hawliadau Cronfa Risg Cymru o £139.913m yn 2024-25 yn gofyn am gyfraniad cyfran risg o £30.478m gan Fyrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd.

Mae angen buddsoddiad cyfalaf o £125m ar gyfer y cyfnod o bum mlynedd hyd at 2028-29. Cynhwysir buddsoddiadau cyfalaf mawr ar gyfer prosiectau Gwasanaethau Radiofferylliaeth a Fferylliaeth ac adnewyddu cerbydau.



## Pobl

Rydym wedi ymrwymo i alluogi ein pobl i deimlo eu bod yn cymryd rhan, i fod yn gysylltiedig â'n pwrpas ac i rannu ynddo; i deimlo eu bod wedi'u cyfoethogi, eu grymuso a'u hysbrydoli; a theimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi fel eu bod yn cael eu galluogi i wneud gwahaniaeth i bobl Cymru.

Rydym hefyd wedi ymrwymo i egwyddorion yr Economi Sylfaenol ac felly, mae ein hagenda ehangu mynediad yn canolbwyntio ar dyfu ein gweithlu yn y dyfodol o fewn y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu ledled Cymru.

Ein nod yw gwneud PCGC yn lle gwych i weithio a chefnogi Iechyd a Llesiant ein staff yn unol â'r cynllun ar gyfer **Cymru Iachach.**

O'r herwydd, erys ein saith blaenoriaeth strategol o fewn Pobl a Datblygu Sefydliadol fel:

- Dylunio Sefydliadol
- Datblygu Sefydliadol
- Adnoddau
- Dadansoddeg Pobl
- Cysylltiadau Cyflogeion
- Y Gymraeg
- Rhagoriaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol

Yn ystod 2023-24, fe wnaethom barhau i ganolbwyntio ar sawl rhaglen waith a sefydlwyd yn 2022-23 i sicrhau bod ein pobl yn gallu bod y gorau y gallant fod. O fewn pob un o'n blaenoriaethau strategol, rydym wedi cysoni ein gwaith arfaethedig â blaenoriaethau Gweinidogol a rhaglen ehangach Llywodraeth Cymru. Byddwn yn adeiladu ar hyn yn 2024-25.





## Risg

Mae risgiau a chyfleoedd sydd â'r potensial i effeithio ar y gwaith o gyflawni ein CTCI yn cael eu rheoli'n weithredol drwy adolygiad ym mhob un o gyfarfodydd misol yr Uwch Grŵp Arwain. Yn ogystal, mae cyfarfodydd deufisol y Pwyllgor Partneriaeth a chyfarfodydd chwarterol y Pwyllgor Archwilio yn cael diweddariad ar ein risgiau corfforaethol allweddol. Caiff risgiau is-adrannol eu monitro trwy'r gyfres o Adolygiadau Chwarterol o'r Fframwaith Rheoli Perfformiad, sy'n rhoi'r cyfle i risgiau gael eu huwchgyfeirio i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn ôl yr angen.

Yn 2022, fe wnaethom gynnal ymgynghoriad helaeth ag aelodau'r Pwyllgor Partneriaeth i adolygu ein derbynioldeb risg. Arweiniodd hyn at newidiadau sylweddol yn ein hymagwedd at risg, gydag Aelodau'r Pwyllgor yn awyddus i PCGC gymryd mwy o risg. Gall PCGC gymryd rôl flaenllaw i ysgogi newid ac i nodi amrywiadau diangen a lleihau gwastraff drwy ddadansoddiad gwybodus o'r data sydd gennym ar y gwasanaethau a ddarparwn. Bydd hyn yn helpu i wneud gwasanaethau ar draws GIG Cymru yn fwy effeithlon a, thrwy hynny, helpu sefydliadau'r GIG i gyflawni eu cynlluniau. Er mwyn cyflawni'r nodau hyn a rhoi'r newid angenrheidiol ar waith yn gyflym, mae angen sicrhau ymgysylltiad Sefydliadau Iechyd eraill o fewn GIG Cymru a'u cefnogaeth.

## Ein Risgiau Corfforaethol Allweddol

Mae ein Risgiau Corfforaethol Allweddol wedi'u nodi yn ein Cofrestr Risgiau.  Mae'r Gofrestr Risg yn chwarae rhan ganolog wrth lunio ein Rhaglen Archwilio Mewnol. Mae ein harchwilwyr mewnol yn cyfeirio'n glir at ein Cofrestr Risg drwy gydol eu rhaglen waith ac maent yn sicrhau asesiad trylwyr a chyson o'n tirwedd risg sefydliadol. Yn ystod 2022-23, cofnododd y Pennaeth Archwilio Mewnol farn sicrwydd rhesymol ar gyfer PCGC ac nid oedd ein Llythyr Rheolaeth gan Archwilio Cymru ar gyfer 2022-23 yn nodi unrhyw faterion nac argymhellion.

# Risgiau Corfforaethol Allweddol 2024-25

## Parhau i gyflawni ar gyfer GIG Cymru mewn hinsawdd ariannol heriol

Mae'r hinsawdd ariannol bresennol, yn enwedig y diffyg cyfalaf, yn fygythiadau sylweddol i'r modd y darperir gwasanaethau presennol ac i ddatblygiad gwasanaethau newydd.

Mae gennym hanes da o reolaeth ariannol gadarn a'r gallu i gynhyrchu arbedion tra hefyd yn cyflawni rhagoriaeth mewn gwasanaethau ac addasu i newid gydag agwedd gadarnhaol a 'gallu gwneud'.

I liniaru rhywfaint o'r risg rydym yn darparu adroddiadau cyllid rheolaidd i'r Uwch Grŵp Arwain, i'n Pwyllgor Partneriaeth a'n Pwyllgor Archwilio. Rydym wedi sefydlu Grŵp Gwerth a Chynaliadwyedd i fonitro ein gwaith i gefnogi'r rhaglen genedlaethol ond hefyd i gytuno ar weithredu'r newidiadau gofynnol o fewn PCGC. Rydym eisoes wedi dechrau rhoi trefniadau gwell i reoli swyddi gwag ar waith ac adolygu'r defnydd o dâl amrywiol ar draws y sefydliad.

## Cydbwyso blaenoriaethau cystadleuol mewn hinsawdd ariannol heriol

Rydym yn parhau i hyrwyddo a chefnogi'r ddau nod o dyfu'r Economi Sylfaenol drwy gyrchu nwyddau a gwasanaethau yng Nghymru lle bo modd a hyrwyddo'r Agenda Datgarboneiddio i helpu i gyflawni nod Llywodraeth Cymru o fod yn garbon-niwtral erbyn 2030.

Yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni, mae cydbwysedd anodd ei daro rhwng cyrchu cynnyrch yn lleol a thrwy hynny ddarparu cyflogaeth i'r economi leol, ar yr un pryd â sicrhau gwerth am arian a byw o fewn cyfyngiadau amlen gyllidebol y GIG. Mae'r flaenoriaeth gystadleuol hon i wneud y peth iawn ar gyfer y tymor hwy a mantoli'r gyllideb yn y tymor byr hefyd yn berthnasol i'n dymuniad i wneud mwy o gynnydd yn erbyn ein cynlluniau gweithredu datgarboneiddio.

Byddwn yn parhau i archwilio amrywiaeth o opsiynau i gyflawni blaenoriaethau Gweinidogol a sefydliadol a bod yn agored ac yn dryloyw yn ein trafodaethau ac yn ystyriol yn ein prosesau gwneud penderfyniadau.

## Trawsnewid Gwasanaethau'r Golchdy

Roedd y cyfyngiadau ar gyllideb gyfalaf GIG Cymru yn ei gwneud yn ofynnol inni adolygu a diwygio ein cynlluniau trawsnewid ar gyfer Gwasanaethau'r Golchdy. Roedd y cynlluniau gwreiddiol yn cynnig potensial am welliannau sylweddol i sicrhau cydymffurfiad deddfwriaethol ond roedd angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol. Yr her yn awr yw sicrhau cymaint o'r manteision i GIG Cymru ag sy'n bosibl, ar raddfa lai o lawer o ran buddsoddiad.

O ganlyniad, rydym wedi penderfynu cau un o'r pum safle golchdy presennol, ac mae'r broses hon a reolir yn ofalus ar y gweill, gyda'r nod o'i chwblhau erbyn 31 Mawrth 2024. Hefyd yn ystod 2024, rydym yn bwriadu bwrw ymlaen â chynlluniau i drosglwyddo staff y safleoedd golchdy sy'n weddill nad ydynt yn cael eu cyflogi ar hyn o bryd gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Rydym yn gweithio'n agos gyda'n Hundebau Llafur a chydweithwyr yn y gweithlu yn y Byrddau Iechyd yr effeithir arnynt i ddarparu gwybodaeth amserol a chywir i'r staff y mae'r newidiadau yn effeithio arnynt.



## Mynd i'r afael â Choncrit Awyredig Awtoclafedig Cyfnerth (RAAC) ar ein Safleoedd

O ganlyniad i ddarganfod presenoldeb RAAC mewn dau o adeiladau PCGC sy'n cael eu prydlesu, bu'n ofynnol i ni gymryd camau prydlon.

Penodwyd peiriannydd adeileddol arbenigol i roi cyngor ar y cyflwr strwythurol a'r mesurau lliniaru gofynnol. Cynhaliwyd adolygiadau iechyd a diogelwch a rhoddwyd mesurau diogelwch dros dro priodol ar waith. Mae hyn wedi cynnwys staff yn gweithio gartref lle bo modd a darparu cynhaliaeth a rhwydi diogelwch. Rydym hefyd wedi datblygu Achos Busnes ar gyfer symud gwasanaethau o'r lleoliadau hyn i eiddo arall, a gymeradwywyd ym mis Tachwedd 2023 ac mae gwaith yn mynd rhagddo.

## Datblygu Gwasanaeth Trawsnewid Mynediad at Feddyginiaethau (TrAMS)

Mae'r cyfyngiadau ar gyllideb gyfalaf GIG Cymru hefyd wedi effeithio ar ein cynlluniau trawsnewid ar gyfer Gwasanaethau Fferylliaeth. Bydd y gwasanaeth TrAMS yn sicrhau arbedion sylweddol posibl ar draws GIG Cymru gyfan ond mae angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol ymlaen llaw i ddatblygu'r gwasanaeth.

Mae'r oedi parhaus wrth ddod o hyd i lety addas yn ne-ddwyrain Cymru ar gyfer prosiect TrAMS yn bygwth cyflenwad cyffuriau critigol i gleifion canser. Rydym wedi derbyn elfen o gyllid ar gyfer ein Gwasanaeth TrAMS i'n galluogi i ymchwilio i sefydlu Uned Radiofferylliaeth yn IP5. Bwriedir cyflymu'r gwaith hwn yn ystod 2024-25.

Rydym yn lliniaru risg drwy ein Bwrdd Rhaglen TrAMS, dull rheoli prosiect cadarn, cyflenwyr allanol a gweithredu grŵp gorchwyl a gorffen. Mae Grŵp y Prif Fferyllwyr yn ymgysylltu'n gryf ac yn cefnogi'r angen am weithredu prydlon a buddsoddiad pellach.

## Rheoli capasiti staff a sicrhau Gwaith Teg i'n gweithlu

Er ein bod wedi parhau i addasu i gwrdd â'r twf yn ein gwasanaethau, rydym yn rhagweld galw pellach gan ein cwsmeriaid, a fydd yn ei dro yn rhoi mwy o bwysau ar ein staff. Fel llawer o sefydliadau eraill y GIG, mae gennym rai heriau o ran recriwtio staff, yn enwedig i rolau proffesiynol mwy arbenigol.

Rydym wedi adnewyddu ein Cynnig Gwerth Gweithwyr ac wedi newid ein dull o recriwtio staff i ddod i weithio yn PCGC, gyda hysbysebion mwy arloesol a defnydd mwy targedig o gyfryngau cymdeithasol a rhwydweithiau proffesiynol. Rydym eisoes yn gweld bod hyn yn ennyn ystod ehangach o ymgeiswyr a nifer cynyddol o geisiadau cryf. Mae mwy o waith yn yr arfaeth ar gyfer 2024-25 fel y nodir yn Ein Cynllun Pobl.

Rydym hefyd yn adolygu ein defnydd presennol o gyflog amrywiol ar draws y sefydliad, gan edrych ar ein defnydd o asiantaethau, goramser, a banc (trefniadau gweithio hyblyg). Rydym yn annhebygol o leihau'r defnydd o fecanweithiau tâl amrywiol i ddim ond rydym am weld ystod briodol o atebion yn cael eu mabwysiadu sy'n dangos gwerth am arian a bod Gwaith Teg yn cael ei gynnig i'n gweithlu.

Mae Ein Cynllun Pobl hefyd yn nodi nifer o gamau gweithredu sy'n targedu gwelliannau yn iechyd corfforol a meddyliol, llesiant, amrywiaeth a chynhwysiant staff.



*Atodiad A*

# Ein Cynllun Digidol:
## Galluogi Sefydliad Digidol



GIG CYMRU NHS WALES | Partneriaeth Cydwasanaethau Shared Services Partnership




Mae technoleg ddigidol yn chwarae rhan ganolog wrth gyflawni ein hamcanion corfforaethol a darparu gwerth i'n cwsmeriaid. Rydym yn canolbwyntio ar ***"ddigidol fel galluogwr",*** gan bwysleisio newid busnes fel ysgogwr ar gyfer datrysiadau digidol.

## Strategaeth Ddigidol a Model Gweithredu Targed

### Yr hyn a gyflawnwyd gennym yn 2023-24

Yn 2023-24, cyhoeddwyd ein Strategaeth Ddigidol sy'n amlinellu ein nodau digidol o fewn tair thema allweddol a'n llwybr at Fodel Gweithredu Targed newydd.




## Themâu Allweddol

| Aliniad Strategol | Portffolio Datrysiadau Symleiddio | Model Gweithredu Newydd |
|---|---|---|
| ↘ Nodau strategol PCGC | ↘ Gwella -> Prynu ->Adeiladu | ↘ Rheoli Perthynas Busnes |
| ↘ Strategaeth Ddigidol i Gymru | ↘ Datrysiadau lefel menter | ↘ Partneriaid a chyflenwyr |
| ↘ Strategaethau Allweddol | ↘ Alinio Prosesau | ↘ 'Lleoli' priodol |

Dechreuasom ar ein taith at Fodel Gweithredu Targed newydd drwy gyflawni prosiectau o fewn rhaglen waith sy'n ffitio'n fras i dri chategori:

- **Sefydlogi** – gweithgareddau tymor byrrach wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â bylchau neu risgiau yn y model presennol.
- **Optimeiddio** – gweithgareddau tymor canolig wedi'u cynllunio i wireddu'r Model Gweithredu Targed a dylunio proses i gyflawni cylch parhaus o wella gwasanaethau.
- **Cynaliadwyedd** – gweithgareddau tymor hwy wedi'u cynllunio i sicrhau bod gennym fodel wedi'i ddiffinio'n glir i gefnogi cylchoedd gwella parhaus a darparu set dargedig o ddatrysiadau digidol sy'n gadarn ac yn ddiogel.



### Roedd cyflawni Sefydlogi yn cynnwys:


- Datblygu achos busnes i ddarparu amgylchedd lletya cadarn hirdymor ar gyfer ein datrysiadau pwrpasol.
- Darparu datrysiad rheoli asedau a chyfluniad digidol cadarn a chynhwysfawr.
- Cwblhau prosiect i gyflawni camau adferol a nodwyd yn Adroddiad Fframwaith Asesu Seiber PCGC.
- Recriwtio i fynd i'r afael â bylchau capasiti a gallu mewn sicrwydd seiber.

### Gweithgareddau galluogi ar gyfer newid busnes gyda datrysiadau digidol yn sylfaen iddynt:

- Cefnogaeth strategol ar gyfer gweithredu elfen PCGC o'r Gwasanaeth Presgripsiynau Electronig.
- Pecynnau seiber-sicrwydd Cymru gyfan ar gyfer:
  - Sganio er Diogelwch
  - e-Amserlennu
- Cefnogaeth dylunio a sicrwydd ar gyfer dod o hyd i ddatrysiadau:
  - System Gwybodaeth am y Gweithlu
  - Datrysiad Teleffoni a Chanolfan Gyswllt Integredig Microsoft 365
  - System Bwrsariaethau Myfyrwyr

### Roedd cyflawni Optimeiddio yn cynnwys:

- Datblygu proses y porth digidol yn sylfaen i'r strategaeth Gwella, Prynu, Adeiladu er mwyn symud tuag at ddarparu datrysiadau lefel menter symlach.
- Sefydlu Byrddau Dylunio, Newid a Rheoli Gwasanaethau newydd yn sylfaen i broses y porth digidol.
- Symleiddio prosesau gweithredol ar y cyd â phartneriaid i ddileu unrhyw ddibyniaeth etifeddol ar staff PCGC ar gyfer rheoli newid, rhyddhau, problemau ac argaeledd.
- Sefydlu ein perthynas â Chanolfan Ragoriaeth M365 sydd wedi galluogi ein timau busnes i fanteisio ar fanteision y Power Platform.
- Sefydlu pecyn seiber-sicrwydd Cymru gyfan i gefnogi caffael datrysiadau digidol o dan fframwaith cenedlaethol.






## Yr hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud yn ystod 2024-27

### Sefydlogi:

- Rhoi ein hamgylchedd lletya newydd ar waith yn y Canolfannau Data Cenedlaethol i ddarparu amgylchedd lletya cadarn hirdymor ar gyfer ein datrysiadau pwrpasol.
- Recriwtio i fynd i'r afael â bylchau mewn capasiti a gallu wrth ddod o hyd i ddatrysiadau.

### Optimeiddio:

- Gwella'r catalog gwasanaethau i ddarparu golwg gyfannol, seiliedig ar wasanaeth.
- Ehangu'r cytundebau gyda phartneriaid i ryddhau PCGC i gefnogi'r Model Partner Busnes.
- Darparu adnoddau i'r cynllun a recriwtio i wreiddio cymorth ar gyfer arweinwyr gwasanaeth i weithredu newid busnes wedi'i ategu gan ddatrysiadau digidol drwy'r Model Partner Busnes.
- Cyflwyno ac ymgorffori proses y porth digidol.
- Darparu mwy o hyblygrwydd yn yr amgylchedd lletya gan ddefnyddio egwyddorion cwmwl yn gyntaf.
- Datblygu ymhellach strategaeth a chynllun adnoddau Microsoft Power Platform er mwyn datblygu datrysiadau ar lefel sefydliad.



## Cynaliadwyedd

- Ehangu cytundebau gyda phartneriaid i ddarparu gwasanaethau menter a phensaernïaeth data.
- Datblygu gwasanaeth dadansoddeg data craidd gyda datrysiadau'n sail iddo i gefnogi gwasanaethau menter a phensaernïaeth data.
- Datblygu trefniadau partneriaeth i ddarparu datblygiad pwrpasol a chymorth i gymwysiadau etifeddol.
- Recriwtio i gefnogi newid busnes yn llawn a ddarperir trwy'r Model Partner Busnes.
- Adolygu'r Strategaeth Rheoli Dogfennau gan gynnwys digideiddio ac adalw cofnodion.

## Gweithgareddau galluogi ar gyfer newid busnes gyda datrysiadau digidol yn sylfaen iddynt:

- Cefnogaeth strategol ar gyfer:
  - Gweithredu elfen PCGC y strategaeth ddigidol gofal llygaid mewn gofal sylfaenol.
  - Amnewid y Cofnod Staff Electronig.
- Pecynnau seiber-sicrwydd Cymru gyfan ar gyfer:
  - Mudo Oracle FMS i'r cwmwl.
  - Amnewid y Cofnod Staff Electronig.
- Cefnogaeth dylunio, gweithredu a sicrwydd ar gyfer dod o hyd i ddatrysiadau:
  - Datrysiadau digidol TrAMS a throsi'r gweithlu.
  - Strategaeth ystadau a gweithio ystwyth.
  - Amnewid dull cofrestru cleifion gofal sylfaenol NHAIS.
  - Datrysiad Rheoli Achosion y Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg.



## Ffocws ar y cwsmer a rhagoriaeth weithredol

Byddwn yn grymuso ein cwsmeriaid trwy alluoedd hunanwasanaeth a nifer o sianeli.

Byddwn yn rhoi atebion diogel sy'n canolbwyntio ar y cwsmer ar waith, yn defnyddio data ac yn darparu mewnwelediad / mynediad amserol at wybodaeth, lle a phan fo angen.

Byddwn yn gwella rhagoriaeth weithredol trwy weithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu systemau a gwasanaethau effeithlon, symlach a chost-effeithiol.

CUSTOMER SERVICE EXCELLENCE®
RHAGORIAETH MEWN GWASANAETH I GWSMERIAID®
CSE


## Partneriaethau a chydweithio

Byddwn yn adeiladu ar ein gwaith partneriaeth a chydweithredol gyda Llywodraeth Cymru, Iechyd a Gofal Digidol Cymru a Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd GIG Cymru. Gan weithio gyda phartneriaid Iechyd a Gofal (gan gynnwys gofal cymdeithasol), partneriaid yn y sector cyhoeddus ehangach a diwydiant, byddwn yn defnyddio cyfleoedd i gyd-greu gwerth a harneisio manteision technolegau newydd ac atebion digidol.

## Gwerth am Arian ac Adenillion o Fuddsoddi

Ar ôl cyflawni blociau adeiladu sylfaenol Microsoft 365, byddwn yn meithrin gallu sefydliadol i harneisio manteision pellach gan gynnwys defnyddio Power Platform, Dynamics 365 a SharePoint Online.

Wrth i PCGC barhau i fabwysiadu gwasanaethau digidol newydd, bydd angen datblygu arbenigedd mewnol, mewn partneriaeth ag Iechyd a Gofal Digidol Cymru, i leihau costau ymgynghori yn y tymor hwy.



## Datblygu staff a chynllunio olyniaeth

Byddwn yn uwchsgilio ein staff i gefnogi technolegau digidol newydd a meithrin gallu i harneisio manteision technolegau newydd ar draws PCGC. Byddwn yn gweithio'n agos gydag AaGIC wrth iddynt ddatblygu Fframwaith Sgiliau Digidol Cymru ymhellach. Byddwn yn nodi bylchau o ran capasiti ac yn buddsoddi mewn cyfleoedd i ddatblygu staff, cynllunio ar gyfer olyniaeth a sicrhau bod gennym y nifer priodol o bobl â'r sgiliau cywir i gefnogi amcanion sefydliadol.

Yn 2024-25 byddwn yn ailfywiogi ein rhaglen hyrwyddwyr digidol Microsoft 365 i sicrhau bod ein gweithlu'n manteisio ar fuddion yr adnodd trwy ymgysylltu ar draws y sefydliad, gyda'r rhwydwaith hyrwyddwyr digidol cenedlaethol a Chanolfan Ragoriaeth Microsoft 365 Iechyd a Gofal Digidol Cymru.

## Awtomeiddio Prosesau

Mae egwyddorion Awtomeiddio Prosesau Robotaidd (RPA) yn ymwneud â defnyddio offer addas a all atgynhyrchu ac awtomeiddio tasgau dynol ailadroddadwy a gyflawnir ar systemau i gynorthwyo staff, gan eu rhyddhau i ymgymryd â dyletswyddau gyda mwy o werth ychwanegol. Rydym wedi buddsoddi mewn Awtomeiddio Prosesau Robotaidd ers sawl blwyddyn ac yn parhau i wneud. Byddwn yn ailedrych ar ein strategaeth awtomeiddio prosesau i gwmpasu'r defnydd o offer awtomeiddio prosesau robotig pwrpasol wrth fanteisio'n briodol ar alluoedd Microsoft Power Platform.

Mae'r prosesau a ddatblygwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys:

- Trosglwyddo data o Ffurflenni Penodiadau Newydd ar gyfer Cyflogi Cylchdroadol Un Cyflogwr Arweiniol.
- Prosesu, archifo ac adrodd yn fisol ar recriwtio i swyddi gwag.
- Trefnu dyddiad cychwyn y Cofnod Staff Electronig.
- Adrodd ar y Banc Cydweithredol.
- Anghydfodau o ran anfonebau sydd wedi'u hoedi.
- Anfon anfonebau yn awtomatig.
- Creu contractau cyflogaeth a'u hanfon trwy'r e-bost.
- Creu'r "Ffeil bersonol" ar gyfer dechreuwyr newydd.
- Adrodd ar Ddatgarboneiddio.
- Dangosfwrdd y Cynllun Tymor Canolig Integredig.

Y cynllun ar gyfer y flwyddyn nesaf yw parhau i gefnogi prosesau byw ac i nodi cyfleoedd i awtomeiddio a defnyddio datrysiadau yn y meysydd a ganlyn:

- Glanhau rhestrau cleifion y paratoir presgripsiynau iddynt.
- Proses Rheoli Sefydliadau Awtomataidd.
- Datblygu codau dosbarthu meddygon teulu.
- Dull diystyru'r rheolwr yn awtomataidd yn y Cofnod Staff Electronig.
- Addasu proses bresennol y Ffurflen Penodiad Newydd i ddarparu ar gyfer trosi i ddatrysiad newydd y Cyngor Symud Staff.
- Diweddaru prosesu seiliedig ar Oracle i ddarparu am fudo i gwmwl Oracle.
- Cynnal adolygiad o'r buddion posibl a gynigir gan Blue Prism Cloud ac adolygiad o'r drwydded bresennol i fanteisio ar arbedion cost posibl.

## Seibergadernid

Mae bygythiad ymosodiadau seiberddiogelwch yn cael ei gydnabod fel risg gorfforaethol allweddol yr ydym yn ei rheoli'n weithredol. Rydym yn parhau i fod yn wyliadwrus ac yn parhau i adolygu a gwella ein seilwaith Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn gadarn yng nghyd-destun y bygythiadau a wynebwn, sy'n newid yn barhaus.

I ymateb i'r argymhellion yn ein hadroddiad ar y Fframwaith Asesu Seiber, fe wnaethom ddatblygu rhaglen waith sy'n anelu at roi gwell sicrwydd mewn pedwar categori. Byddwn yn destun asesiad dilynol yn gynnar yn 2024. Mae ein prosiect ymateb cychwynnol bellach wedi cyflawni ein camau adfer. Byddwn yn darparu ymateb tebyg i'r ailasesiad a byddwn yn parhau i ddatblygu a gwreiddio'r egwyddorion canlynol yn ein diwylliant a'n gweithgareddau busnes fel arfer:

### Pobl

***Sicrhau bod ein staff yn gwbl ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran sicrwydd seiber a'u bod wedi'u hyfforddi'n briodol gan gynnwys:***

- Diffiniad clir o gyfrifoldebau ac atebolrwydd ar gyfer rolau sydd â lefelau "uwch" o effaith ar sicrwydd seiber.
- Achrediad addas ar gyfer staff mewn rolau "sensitif".
- Hyfforddiant ac addysg barhaus i'r staff i gyd.

### Achrediad

***Yn ogystal â sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â'r Fframwaith Asesu Seiber, byddwn yn asesu gwerth achredu ein sefydliad i safonau diwydiant, a allai gynnwys:***

- Cynllun Cyber Essentials IASME.
- ISO27001.

### Prosesau

***Sicrhau bod prosesau'n cael eu gwella'n barhaus er mwyn sicrhau gwytnwch busnes a seibergadernid gan gynnwys:***

- Rheoli Asedau.
- Asesiad effaith ar fusnes.
- Parhad busnes, adfer ar ôl trychineb a pharhad TG.
- Monitro diogelwch, ymchwilio, gwaith fforensig a gallu i reoli bygythiadau.
- Gwreiddio seiber-sicrwydd i waith rheoli cylch oes systemau o'r dechrau hyd at gaffael a hyd at ddatgomisiynu.

### Technoleg

***Sicrhau bod y datrysiadau seiber technegol gorau posibl ar waith i gefnogi ein prosesau, gan gynnwys:***

- Monitro rhwydweithiau.
- Monitro achosion a digwyddiadau diogelwch.
- Gwella waliau tân.

*Atodiad B*

# Ein cynllun ariannol:



GIG CYMRU NHS WALES
Partneriaeth Cydwasanaethau
Shared Services Partnership

## Ein cynllun ariannol




Mae'r cynllun ariannol yn nodi ein strategaeth ariannol, sy'n galluogi ac yn cyd-fynd â chyflawni'r strategaeth datblygu gwasanaeth a amlinellir yn y CTCI hwn. Yn yr amgylchedd ariannol heriol presennol, mae PCGC, yn unol â GIG Cymru, yn parhau i wynebu heriau sylweddol rhag galluogi gwneud newidiadau mawr i wasanaethau o fewn ein hadnoddau ariannol tra'n parhau i sicrhau bod gwasanaethau o ansawdd uchel yn cael eu darparu.

Mae gennym rôl gefnogol allweddol i'w chwarae i alluogi GIG Cymru i gyflawni ei gynlluniau a'i fentrau a nod ein cynllun ariannol yw adlewyrchu hyn. Mae cyflawni'r cynllun yn heriol iawn yn yr amgylchedd presennol sydd â chwyddiant uchel ynghyd â chynnydd sylweddol parhaus yn nifer y trafodion yr ydym yn eu prosesu ar draws PCGC.  Bydd buddsoddi yn ein gwasanaethau yn arwain at well effeithlonrwydd ac ansawdd a fydd o fudd i Sefydliadau GIG Cymru.

Mae'r cynllun ariannol ar gyfer 2024-27 yn gytbwys, ond mae nifer o risgiau arwyddocaol a rhagdybiaethau o ran incwm ac arbedion wedi'u cynnwys yn ein cynllun. Hefyd, mae nifer o feysydd yr hoffem fuddsoddi ynddynt er mwyn sicrhau manteision ac arbedion effeithlonrwydd ychwanegol na allwn efallai eu datblygu yn yr hinsawdd ariannol bresennol.

### Mae'r cynllun ariannol yn cynnwys ein tri maes allweddol:



## Cyllidebau Refeniw Craidd PCGC

Mae 2023-24 wedi gweld nifer o ddatblygiadau a newidiadau i'r Gwasanaethau a ddarperir o fewn PCGC, gan gynnwys:

- Mireinio opsiynau i ddarparu TrAMS yn rhanbarth y de-ddwyrain, gan gynnwys y posibilrwydd o ddatblygu Uned Radiofferylliaeth yn gyflym.
- Buddsoddiad cyfalaf yn ein golchdai i alluogi ad-drefnu'r cynhyrchu o 5 i 4 safle o 2024-25 ymlaen.
- Cynnydd sylweddol a pharhaus mewn galw a nifer y trafodion yn y gwasanaethau Cyflogres, Recriwtio a Chyfrifon Taladwy.
- Trosglwyddo rheolaeth pentwr stoc meddyginiaethau Cymru Gyfan.

Unwaith eto, mae PCGC wedi galluogi newid sylweddol yn ystod 2023-24, drwy ailfuddsoddi cyllid wedi'i gynllunio o fewn meysydd Gwasanaeth y rhoddir blaenoriaeth iddynt i ddarparu mwy o gapasiti i gefnogi, galluogi a chyflymu'r broses o gyflawni newid ar draws GIG Cymru.

Gan edrych i'r dyfodol, yn 2024-25, bydd achosion busnes ar gyfer TrAMS yn cael eu symud yn eu blaenau, bydd cynnyrch Gwasanaethau'r Golchdy yn cael ei ad-drefnu dros 4 safle a bydd Cam 1 ein Strategaeth Ad-drefnu Ystadau yn cael ei weithredu. Bydd cefnogaeth barhaus ar gyfer rheoli Cyfarpar Diogelu Personol a pharatoi a dosbarthu brechlynnau ar draws GIG Cymru yn parhau trwy gydol 2024-27. Mae hyn bellach wedi'i ariannu'n rheolaidd drwy ddyraniad 2024-25, ond bwriedir i'r gwasanaeth sy'n darparu Cyfarpar Diogelu Personol i Ofal Sylfaenol a Gofal Cymdeithasol ddod i ben ar 31 Mawrth 2024 yn unol â gohebiaeth Llywodraeth Cymru.

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r gofyniad incwm refeniw ar gyfer 2024-27 er mwyn galluogi'r blaenoriaethau a nodwyd mewn Cynlluniau Cyflenwi Gwasanaethau.

| Sefyllfa Refeniw PCGC | 2024/25 £ miliwn | 2025/26 £ miliwn | 2026/27 £ miliwn |
|---|---|---|---|
| **Dyraniad LIC** | | | |
| Gwasanaethau Craidd PCGC | 88.621 | 88.621 | 88.621 |
| Gwasanaeth Cronfa Risg Cymru (gan gynnwys Gwneud Iawn) | 109.453 | 109.453 | 109.453 |
| **Cyfanswm y Dyraniad** | **198.056** | **198.056** | **198.056** |
| Incwm Craidd Arall o Anfonebu | 452.907 | 458.156 | 460.993 |
| Incwm Cytundeb Rhannu Risg Cronfa Risg Cymru | 30.478 | 31.946 | 33.241 |
| **Cyfanswm yr Incwm** | **681.441** | **688.158** | **692.263** |

## Gwasanaethau Craidd PCGC

Mae'r maes hwn yn ymgorffori'r cyllidebau incwm a gwariant sy'n gysylltiedig â chynnal y prif wasanaethau a ddarparwn. Derbynnir elfen o'r incwm hwn drwy frigdoriad ein dyraniad cyllid gyda Llywodraeth Cymru, gyda'r gweddill yn cael ei gynhyrchu drwy anfonebu a nodir yn y tabl isod.

| Sefyllfa Refeniw Graidd PCGC | 2024/25 £ miliwn | 2025/26 £ miliwn | 2026/27 £ miliwn |
|---|---|---|---|
| **Dyraniad LIC** | 88.621 | 88.621 | 88.621 |
| **Incwm Craidd Arall o Anfonebu** | | | |
| Un Cyflogwr Arweiniol | 266.366 | 266.366 | 266.366 |
| Ad-daliadau Storfeydd | 54.645 | 54.645 | 54.645 |
| Y Cynllun Ad-daliad Fferyllol | 55.100 | 55.100 | 55.100 |
| Gwasanaethau Golchdy Cymru Gyfan | 12.091 | 12.091 | 12.091 |
| Ad-daliadau Systemau Cymru Gyfan | 10.435 | 10.727 | 10.176 |
| Y Gwasanaeth Negesydd Iechyd | 7.987 | 7.987 | 7.987 |
| Hawliadau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru | 7.579 | 7.882 | 8.118 |
| Hawliadau Indemniad Meddygon Teulu FLS ac ELS | 4.664 | 4.540 | 3.811 |
| Dibrisiant | 7.111 | 9.756 | 11.619 |
| Codi Tâl Cyfreithiol a Risg | 6.501 | 7.001 | 7.501 |
| Archwilio Meddygol | 4.332 | 4.332 | 4.332 |
| Uned Feddyginiaethau/TrAMS | 4.753 | 5.999 | 7.267 |
| Recriwtio Rhyngwladol | 2.000 | 2.000 | 2.000 |
| Treuliau Adleoli Cymru Gyfan | 1.150 | 1.150 | 1.150 |
| Ynni (Golchdai) | 1.000 | 1.000 | 1.000 |
| Banc Cydweithredol Cymru Gyfan | 0.750 | 1.000 | 1.250 |
| Mwy o Weithgaredd Trafodol | 0.605 | 0.605 | 0.605 |
| Y Labordy Profi Dyfeisiau Llawfeddygol | 0.446 | 0.583 | 0.583 |
| Incwm Craidd Arall | 5.392 | 5.392 | 5.392 |
| **Cyfanswm Incwm a Anfonebwyd** | **452.907** | **458.156** | **460.993** |
| **Total Core Income** | **541.528** | **546.777** | **549.614** |

Mae dyraniad Llywodraeth Cymru wedi'i gymryd o Ddyraniad Refeniw'r Bwrdd Iechyd 2024-25. Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, nid ydym wedi rhagdybio unrhyw amcangyfrif o incwm na gwariant ar gyfer dyfarniadau cyflog yn ein cynllun ar y sail y bydd hyn yn cael ei ariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru ar ôl y cytunir arno. Ni chafodd cyllid dyfarniadau cyflog rheolaidd ar gyfer 2022-23 a 2023-24 ei gynnwys fel rhan o ddyraniad 2024-25, felly mae amcangyfrifon o'r cyllid sydd i'w dderbyn ar gyfer y dyfarniadau cyflog hyn yn parhau i fod yn risg yn ein cynllun.



Tybiwyd y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i dalu'r taliadau blwydd-dal ychwanegol o 6.3% yn ganolog yn ystod 2024-25. Rydym wedi rhagdybio y bydd ein holl Gytundebau Lefel Gwasanaeth ac incwm taladwy'r GIG yn cael ei godi gan gyllid yr ymgodiad craidd o 3.67% a ddarperir i Fyrddau Iechyd Prifysgol ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru fel rhan o'r broses o drosglwyddo'r disgwyliad cyllid.

Mae cyllid ar gyfer pwysau ynni wedi'i gynnwys yn y dyraniad cyllid ar gyfer 2024-25. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau bod Byrddau Iechyd Prifysgol (BIP) wedi cael arian ar gyfer y pwysau ynni sy'n gysylltiedig â golchdai, sef £1.000m y flwyddyn yn seiliedig ar brisiau ynni 2023-24 yn ôl ein hamcangyfrif. Byddwn yn parhau i ailgodi tâl y costau hyn ar y BIPau perthnasol fel rhan o'r trefniadau ailgodi tâl am olchi dillad ac mae'r incwm hwn wedi'i ragweld yn ein cynllun ariannol.

Mae'r dyraniad cyllid a ddarperir ar gyfer Cyfarpar Diogelu Personol a gwasanaethau cymorth brechu yn seiliedig ar y tybiaethau canlynol ar gyfer 2024-27 ac mae'n cyd-fynd â'n strategaeth Cyfarpar Diogelu Personol:

- Bydd cyflenwadau Cyfarpar Diogelu Personol o storfeydd yn parhau i gael eu dosbarthu a chodir tâl amdanynt ar GIG Cymru.
- Bydd lefel bresennol y gefnogaeth i'r rhaglen frechu torfol yn parhau.
- Ni fyddwn yn cyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol i ofal sylfaenol a gofal cymdeithasol ar ôl 31 Mawrth 2024.
- Byddwn yn parhau i fynd i gostau gweithredol uwch ar gyfer storio, dosbarthu a rheoli'r pentwr stoc Cyfarpar Diogelu Personol.

Rydym yn rhagweld y byddwn yn parhau i wynebu costau COVID-19 etifeddol o £0.791m yn 2024-25 i gefnogi'r gweithgarwch parhaus uwchlaw llinellau sylfaen cyn-covid sy'n parhau i gael eu prosesu drwy ein Gwasanaethau Trafodol gan gynnwys y Gyflogres, Recriwtio a Chyfrifon Taladwy. Oherwydd arbedion effeithlonrwydd yn ein prosesau a'r arbedion yr ydym yn eu cynnig, mae hyn yn llai na'r £1.246m a nodwyd mewn cynlluniau blaenorol. Mae'r pwysau hyn o ran costau yn parhau i fodoli oherwydd y gweithgarwch ychwanegol sylweddol a ddeilliodd o adferiad COVID-19 sydd wedi gwaethygu'r galw ar y Gwasanaethau hyn ar draws GIG Cymru. Mae ein cynllun yn rhagdybio y bydd costau o £0.605m yn cael eu hailgodi ar BIPau/Ymddiriedolaethau os bydd y lefelau gweithgarwch uchel yn parhau, sy'n cyd-fynd â'n rhagdybiaethau cynllunio o 2023-24.



Wrth osod cyllidebau ar gyfer 2024-27, byddwn yn cynhyrchu arbedion effeithlonrwydd ac arbedion, ac yn amsugno nifer o bwysau cost yn gysylltiedig â thwf costau oherwydd pwysau chwyddiant a phwysau cost cytundebol/anorfod yn ogystal â phenderfyniadau buddsoddi cenedlaethol a lleol fel y nodir yn ein cynlluniau cyflenwi. Crynhoir y rhain yn y tabl ar dudalen 80, ynghyd â chrynodeb o sut y caiff y rhain eu hariannu.

| Pwysau | 2024/25 £ miliwn | 2025/26 £ miliwn | 2026/27 £ miliwn |
|---|---|---|---|
| Diffyg a ddygwyd ymlaen | 0.605 | 0.000 | 0.000 |
| Chwyddiant Macro Economaidd | 0.610 | 0.200 | 0.200 |
| Cytundebol neu Anorfod | 6.121 | 2.941 | 2.506 |
| Penderfyniadau Buddsoddi Cenedlaethol | 0.240 | 0.000 | 0.000 |
| Penderfyniadau Buddsoddi Lleol | 1.581 | 0.279 | 0.164 |
| **Cyfanswm y Pwysau** | **9.157** | **3.420** | **2.870** |
| **Ariennir Gan:** | | | |
| Cynhyrchu Incwm | -4.673 | -1.859 | -1.688 |
| Cyllid LlC | -0.571 | -0.275 | -0.275 |
| Arbedion | -3.913 | -1.286 | -0.907 |
| **Pwysau Net** | **0.000** | **0.000** | **0.000** |

Gellir priodoli cynlluniau i wneud arbedion a nodwyd i arbedion cyflog o'r adolygiad o swyddi wrth i ni fireinio strwythurau a gwneud mwy o ddefnydd o dechnoleg ac arbedion nad ydynt yn ymwneud â chyflogau o ganlyniad i adolygiad o gyllidebau a chostau llety. Rydym wedi sefydlu cronfa ailfuddsoddi fewnol o fewn PCGC i hwyluso buddsoddiadau yn ein blaenoriaethau allweddol. Mae'r gofyniad am arbedion yn cyfateb i 4.4% o'n dyraniad craidd ar gyfer 2024-25.

Manylir ar ragdybiaethau cyllid Llywodraeth Cymru yn y tabl isod.

| Rhagdybiaethau Cyllid LlC | 2024/25 £ miliwn | 2025/26 £ miliwn | 2026/27 £ miliwn |
|---|---|---|---|
| **Rheolaidd:** | | | |
| Ymgodiad Craidd | - | - | - |
| Diffyg Cyllid IP5 | 0.056 | | |
| Cymorth Y Ffliw | 0.240 | | |
| **Dyraniad Anghylchol/Yn Y Flwyddyn:** | | | |
| Costau Storio - Cadw Cofnodion | 0.103 | 0.103 | 0.103 |
| Cyllid Trosiannol TrAMS | 0.172 | 0.172 | 0.172 |
| **Cyfanswm** | **0.571** | **0.275** | **0.275** |

Mae’r pwysau a’r buddsoddiadau o £9.157m ar gyfer 2024-25 a nodwyd yn y cynllun ariannol yn cyd-fynd â’r blaenoriaethau allweddol a nodir yn y cynlluniau gwasanaeth a gellir eu crynhoi fel a ganlyn:

| Crynodeb 2024/25 | Blaenoriaethau | Pwysau | Datblygu Gwasanaethau | Etifeddiaeth COVID | Ynni | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Costau Trosiannol Ad-drefnu Ystadau a Datblygiad Ystadau | 0.200 | - | 0.238 | - | - | 0.438 |
| Costau Cyfreithiol a Chymorth Ymchwiliad Covid | - | 0.150 | - | - | - | 0.150 |
| Mentrau Datgarboneiddio Ychwanegol | 0.081 | - | - | - | - | 0.081 |
| Costau Rhedeg Dwbl (Llety a NHAIS) | - | 0.298 | - | - | - | 0.298 |
| Ynni - Golchdai | - | - | - | - | 1.000 | 1.000 |
| Chwyddiant nad yw’n gyflogau | - | 0.590 | - | - | - | 0.590 |
| Digidol - Chwyddiant, twf a buddsoddiad | 0.454 | 0.224 | - | - | - | 0.678 |
| Mwy o Weithgaredd Trafodol | - | - | - | 0.791 | - | 0.791 |
| Gostyngiad mewn incwm trethadwy | - | 0.222 | - | - | - | 0.222 |
| Galw am Wasanaethau Cyfreithiol | - | 0.336 | 1.418 | - | - | 1.754 |
| Profion Masnachol Deunyddiau Llawfeddygol | - | - | 0.143 | - | - | 0.143 |
| Cadwyn Gyflenwi a Logisteg | - | 0.456 | - | - | - | 0.456 |
| Twf Gwasanaethau (Aberthu Cyflog, Cronfa Risg Cymru, Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol (GMPI)) | - | - | 0.771 | - | - | 0.771 |
| Cymorth Prosiectau (Meddyginiaethau, y Cofnod Staff Electronig, Codi Llais heb Ofn) | 0.110 | - | 0.437 | - | - | 0.547 |
| Cadernid Strwythur | 0.129 | - | 0.156 | - | - | 0.285 |
| Staffio - cynyddrannau/ newidiadau strwythur | - | 0.700 | - | - | - | 0.700 |
| Cyflenwad o Dalent - Prentisiaid Rhwydwaith 75 | 0.219 | - | - | - | - | 0.219 |
| Hyfforddiant a Datblygiad Ychwanegol | 0.034 | - | - | - | - | 0.034 |
| **CYFANSWM £miliwn** | **1.227** | **2.976** | **3.163** | **0.791** | **1.000** | **9.157** |

Mae risgiau nodedig eraill yn ein cynllun yn ymwneud â'r Gwasanaeth Fferylliaeth newydd a'r angen am fuddsoddiad anghylchol yn y blynyddoedd trosiannol, gan ragdybio y bydd y costau hyn yn cael eu hariannu o gyllidebau pan fydd gwasanaethau'n trosglwyddo i PCGC. Buddsoddi yn y maes blaenoriaeth hwn fydd yr alwad gyntaf ar unrhyw arbedion ychwanegol fel y cytunwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau i gefnogi'r weledigaeth hirdymor ar gyfer y rhaglen Trawsnewid Mynediad at Feddyginiaethau y mae'r Gwasanaethau Technegol Fferylliaeth newydd yn elfen allweddol ohoni.

Ni chaiff unrhyw ddosbarthiad wedi'i gynllunio ei gynnwys yn ein CTCI, fodd bynnag, os cyflawnir unrhyw arbedion ychwanegol, bydd y rhain yn cael eu dychwelyd i Sefydliadau unigol y GIG yn unol â fformiwla cyfrannu'r dyraniad a grynhoir yn y tabl isod:

| Bwrdd Iechyd / Ymddiriedolaeth | % |
|---|---|
| Aneurin Bevan | 9.85 |
| Bae Abertawe | 8.80 |
| Betsi Cadwaladr | 11.98 |
| Caerdydd a'r Fro | 10.49 |
| Cwm Taf Morgannwg | 10.60 |
| Hywel Dda | 7.77 |
| Powys | 1.95 |
| Felindre | 1.17 |
| Ambiwlans Cymru | 1.28 |
| Iechyd Cyhoeddus Cymru | 0.87 |
| Llywodraeth Cymru | 35.25 |
| **Cyfanswm** | **100.00** |



## Cronfa Risg Cymru Gyfan

Mae Cronfa Risg Cymru Gyfan yn rheoli ad-daliadau a wneir gan GIG Cymru yn dilyn hawliadau llwyddiannus am iawndal. Mae Cronfa Risg Cymru (WRP) yn ad-dalu sefydliadau'r GIG am hawliadau a dalwyd ar ôl cymhwyso tâl-dros-ben o £25,000.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu dwy ffrwd ariannu benodol i PCGC mewn perthynas â Gwasanaeth Cronfa Risg Cymru:

i. **Terfyn Gwariant Adrannol** (y TGA/DEL) i gwrdd â chostau yn ystod y flwyddyn sy'n gysylltiedig â hawliadau wedi'u setlo sy'n codi o fewn Byrddau Iechyd (BI) ac Ymddiriedolaethau ee, cyfandaliad neu orchymyn talu cyfnodol.

ii. **Gwariant a Reolir yn Flynyddol** (y GRF/AME) i gwrdd â chostau cyfrifo am rwymedigaethau hirdymor hawliadau hy y ddarpariaeth ar gyfer costau hawliadau yn y dyfodol.

Os nad yw'r dyraniad refeniw blynyddol gan Lywodraeth Cymru yn ddigonol i gwrdd â gwerth gwariant a ragwelir yn ystod y flwyddyn h.y. y Terfyn Gwariant Adrannol, yna mae'r gwasanaeth yn ysgwyddo'r risg o unrhyw amrywiad o'r amcangyfrif a bydd y tâl-dros-ben yn amodol ar gytundeb rhannu risg cytunedig ag aelod-sefydliadau GIG Cymru.

Mae Gwasanaeth Cronfa Risg Cymru yn derbyn dyraniad blynyddol craidd (DBC/DEL) i ariannu achosion a setlwyd yn ystod y flwyddyn ariannol. Bydd gwariant uwchlaw'r terfyn adnoddau hwn yn cael ei adennill drwy'r fecanwaith Rhannu Risg.

Rhagwelir y bydd cost esgeulustod clinigol yn parhau i godi dros y tair blynedd nesaf. Rhagwelir y bydd y cytundeb rhannu risg yn cael ei weithredu ym mhob blwyddyn yn ymwneud â thwf hawliadau craidd a'r gost gyfartalog gynyddol fesul achos. Mae'r rhagolwg wedi'i lunio ar sail gwerthoedd yr hawliadau cyfredol a'r dyddiadau setlo amcangyfrifedig yn ein cronfa ddata. Mae hyn yn sensitif i amrywiaeth o ffactorau a thybiaethau newidiol wrth i achosion symud ymlaen at gael eu setlo a chaiff ei adolygu bob mis.

Mae'r tabl isod yn nodi sefyllfa'r rhagolwg lefel uchel ar gyfer 2024-2027 ym mis Rhagfyr 2023 ar gyfer gwariant blynyddol gyda'r alldro a ragwelir ar gyfer 2023-24:

| | 2023/24 £ miliwn | 2024/25 £ miliwn | 2025/26 £ miliwn | 2026/27 £ miliwn |
|---|---|---|---|---|
| Gwasanaeth Cronfa Risg Cymru – Dyraniad craidd gan Lywodraeth Cymru | 109.435 | 109.435 | 109.435 | 109.435 |
| Incwm Cytundeb Rhannu Risg – Sefydliadau'r GIG sy'n Aelodau | 26.494 | 30.478 | 31.946 | 33.214 |
| **CYFANSWM INCWM CRONFA RISG CYMRU** | **135.929** | **139.913** | **141.381** | **142.649** |

Bydd y model rhannu risg yn cael ei gymhwyso i unrhyw wariant yn ystod y flwyddyn uwchlaw lefel dyraniad dangosol Llywodraeth Cymru. Mae'r dosraniad dangosol rhwng aelodau sefydliadau'r GIG yn seiliedig ar y cytundeb rhannu risg presennol i'w gweld isod:

| | Rhannu Risg | 2023/24 £ miliwn | 2024/25 £ miliwn | 2025/26 £ miliwn | 2026/27 £ miliwn |
|---|---|---|---|---|---|
| Aneurin Bevan | 18.08% | 4.790 | 5.511 | 5.776 | 6.005 |
| Bae Abertawe | 13.45% | 3.562 | 4.098 | 4.295 | 4.466 |
| Betsi Cadwaladr | 18.56% | 4.916 | 5.655 | 5.928 | 6.163 |
| Caerdydd a'r Fro | 16.03% | 4.274 | 4.886 | 5.121 | 5.324 |
| Cwm Taf Morgannwg | 15.12% | 4.006 | 4.608 | 4.830 | 5.022 |
| Hywel Dda | 10.45% | 2.769 | 3.186 | 3.339 | 3.472 |
| Powys | 4.13% | 1.095 | 1.260 | 1.321 | 1.373 |
| Iechyd Cyhoeddus Cymru | 1.16% | 0.309 | 0.355 | 0.372 | 0.387 |
| Felindre | 1.09% | 0.288 | 0.331 | 0.347 | 0.361 |
| Gwasanaethau Ambiwlans Cymru | 1.93% | 0.511 | 0.588 | 0.616 | 0.641 |
| Iechyd a Gofal Digidol Cymru | 0.00% | - | - | - | - |
| Addysg a Gwella Iechyd Cymru | 0.00% | - | - | - | - |
| | **100.00%** | **26.494** | **30.478** | **31.946** | **33.214** |

Mae'r ffigurau dangosol hyn ar hyn o bryd yn seiliedig ar yrwyr cost 2022-23 wrth aros am ddata blwyddyn lawn ar gyfer 2023-24. Yn seiliedig ar ddata 2022-23, nid yw Iechyd a Gofal Digidol Cymru ac AaGIC ar hyn o bryd yn ysgogi unrhyw ddosraniad o'r gyfran risg, ond gallai hyn newid os derbynnir unrhyw achosion newydd yn ystod cyfnod y CTCI.

Bydd dosraniad cwantwm y gyfran risg gyfan yn newid yn 2024-25 ar ôl adnewyddu'r ysgogwyr cost yn y cytundeb rhannu risg. Bydd y dosraniadau wedi'u diweddaru yn cael eu hailgyfrifo unwaith y bydd y wybodaeth derfynol ar gyfer 2023-24 ar gael ym mis Medi 2024.



Mae ein cynllun yn nodi gofyniad buddsoddiad cyfalaf o £124.655 miliwn dros y cyfnod 5 mlynedd o 2024 i 29. Mae'r rhan fwyaf o'r gwariant hwn yn gysylltiedig â thrawsnewid mawr y Gwasanaethau Fferylliaeth. Mae'r rhagamcanion sydd wedi'u cynnwys ar gyfer canolfannau'r Gwasanaethau Fferylliaeth yn seiliedig ar gostau lefel uchel rhagarweiniol yr opsiynau posibl sy'n cael eu hystyried. Bydd y rhagamcanion manwl yn cael eu datblygu fel rhan o'r Achosion Busnes Amlinellol.

Nodir sawl prosiect datblygu gwasanaeth a phrosiect strategol hefyd a fydd nid yn unig yn sicrhau parhad busnes ar gyfer y gwasanaethau a ddarparwn i GIG Cymru ond a fydd yn galluogi moderneiddio, awtomeiddio, cadernid a datgarboneiddio i hwyluso cyflawni nifer o flaenoriaethau allweddol yn ein cynllun.

Mae'r prosiectau datblygu gwasanaeth yn fuddsoddiadau mawr na ellir eu cwmpasu gan ein dyraniad cyfalaf dewisol.

Wrth i'r prosiectau mawr a nodir uchod ddod yn weithredol, bydd gofynion ychwanegol am gyfalaf dewisol. Ni allwn fesur y rhain ar hyn o bryd, a bydd angen inni adolygu a thrafod ymhellach gyda Llywodraeth Cymru.

Mae trafodaethau'n cael eu cynnal gyda Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'n gofynion cyfalaf yn y dyfodol. Mae'r cyllid sydd ei angen yn y dyfodol yn ystod cyfnod y cynllun fel a ganlyn:

| | 2024/25 £m | 2025/26 £m | 2026/27 £m | 2027/28 £m | 2028/29 £m | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dewisol | 0.600 | 0.600 | 0.600 | 0.600 | 0.600 | 3.000 |
| Dewisol Ychwanegol | 0.200 | 0.200 | 0.200 | 0.200 | 0.200 | 1.000 |
| IP5 Dewisol | 0.250 | 0.250 | 0.250 | 0.250 | 0.250 | 1.250 |
| **Cyfanswm Dewisol** | **1.050** | **1.050** | **1.050** | **1.050** | **1.050** | **5.250** |
| Prosiectau Datblygu Gwasanaeth | 32.930 | 21.300 | 16.723 | 23.218 | 25.234 | 119.405 |
| **Cyfanswm Gofyniad y Cyllid Cyfalaf** | **33.980** | **22.350** | **17.773** | **24.268** | **26.284** | **124.655** |

| | 2024/25 £m | 2025/26 £m | 2026/27 £m | 2027/28 £m | 2028/29 £m | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Radiofferylliaeth | 6.322 | 3.161 | - | - | - | 9.483 |
| Gwasanaethau Technegol Fferylliaeth - y De Ddwyrain | - | 4.322 | 12.333 | 7.379 | - | 24.034 |
| Gwasanaethau Technegol Fferylliaeth - y De Orllewin a'r Gogledd | - | - | - | 11.172 | 22.344 | 33.516 |
| Rhaglen Amnewid Cerbydau | 2.987 | 4.978 | 2.701 | 3.428 | 1.851 | 15.945 |
| Storfa Ychwanegol Mewn Warws | 12.324 | - | - | - | - | 12.324 |
| Ailgyflunio Gwasanaethau Golchdy Cymru | 0.713 | 7.000 | - | - | - | 7.713 |
| Datgarboneiddio'r Golchdy | 0.636 | - | - | - | - | 0.636 |
| Fferm Solar / Troshaen To IP5 | 4.030 | 0.789 | 0.889 | 0.889 | 0.889 | 7.486 |
| Hyb a Phencadlys Rhanbarthol y De Ddwyrain | 3.000 | - | - | - | - | 3.000 |
| Adnewyddu TG | 0.200 | 0.600 | 0.650 | 0.200 | - | 1.650 |
| Seilwaith Gwefru Cerbydau Trydan | 1.556 | - | - | - | - | 1.556 |
| Meddalwedd Rheoli Achosion | 0.250 | 0.150 | 0.150 | 0.150 | 0.150 | 0.850 |
| Amnewid Meddalwedd y Gweithlu | 0.400 | 0.300 | - | - | - | 0.700 |
| Rheseli / Generaduron Warws | 0.220 | - | - | - | - | 0.220 |
| Offer Uned Feddyginiaethau | 0.112 | - | - | - | - | 0.112 |
| Gwelliannau i Ystadau | 0.180 | - | - | - | - | 0.180 |
| **CYFANSWM** | **32.930** | **21.300** | **16.723** | **23.218** | **25.234** | **119.405** |

Mae buddsoddiad cyfalaf yn hwyluso'r gwaith o ddarparu gwasanaethau gwell a mwy effeithlon. Bydd pob cynllun cyfalaf yn sicrhau buddion refeniw o ran arbedion sy'n rhyddhau arian, osgoi costau, llai o allyriadau carbon, gwell ansawdd a/neu ddatblygiadau iechyd a diogelwch.

Yn ogystal â'r prosiectau cyfalaf trawsnewidiol, mae risg allweddol i'r CTCI yn ymwneud â'r lefelau uchel o TG y bydd, yn ôl ein hamcan, angen eu newid fesul cam o ddiwedd 2024-25 ymlaen. Mae'r cyllid sydd ei angen ar gyfer y strategaeth amnewid cerbydau hefyd yn peri risg o ran costau cynnal a chadw a/neu brydlesu uwch a pharhad busnes os na ellir cymeradwyo cyllid ar gyfer cerbydau newydd. Rydym yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar arfarniad opsiynau ar gyfer storio a dosbarthu brechlynnau ffliw. Efallai y bydd angen cyllid cyfalaf ar hyn yn dibynnu ar ba opsiwn a ddewisir; nid yw hyn wedi'i gynnwys yn y cynllun cyfalaf eto. Yn yr un modd, mae'n bosibl y bydd goblygiadau cyfalaf yn gysylltiedig â newid y Cofnod Staff Electronig yn y blynyddoedd i ddod, yn dibynnu ar y datrysiad newydd a ddatblygir. Nid yw hyn wedi'i gynnwys yn y cynllun cyfalaf ar hyn o bryd.

Byddwn yn parhau i gynhyrchu achosion busnes ar gyfer prosiectau penodol mawr yn ogystal â pharhau i adolygu'r ffynonellau ariannu amgen posibl, er enghraifft Buddsoddi i Arbed. Byddai'r camau rheoli hyn yn lliniaru ond nid yn dileu effaith y ffaith nad oes mwy o gyllid cyfalaf ar gael.

Dylid nodi mai cyllid cyfyngedig sydd gennym ar gyfer dibrisiant a bydd angen cyllid ychwanegol nad yw'n arian parod gan Lywodraeth Cymru yn ychwanegol at y llinell sylfaen os caiff cyllid cyfalaf ei gymeradwyo.

Mae ein cynllun ariannol yn nodi gofyniad am £9.120m o gyllid cyfalaf dros gyfnod 2024-2028 i gyfalafu prydlesi o dan Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol 16.


| | 2024/25 £m | 2025/26 £m | 2026/27 £m | 2027/28 £m | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhagolwg Cyfalaf IFRS 16 | 7.606 | 0.426 | 0.814 | 0.274 | 9.120 |

Mae angen y rhan fwyaf o'r cyllid hwn yn 2024/25 yn gysylltiedig â'r prydlesi ar gyfer llety newydd DuPont a Nantgarw a'r brydles newydd ar gyfer Cerbydau Nwyddau Trwm.



*Atodiad C*

# Ein Cynllun Pobl:



GIG CYMRU NHS WALES
Partneriaeth Cydwasanaethau
Shared Services Partnership

## Ein Cynllun Pobl



Rydym wedi ymrwymo i alluogi ein pobl i deimlo eu bod yn cymryd rhan, i fod yn gysylltiedig â'n pwrpas ac i rannu ynddo; i deimlo eu bod wedi'u cyfoethogi, eu grymuso a'u hysbrydoli; a theimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi fel eu bod yn cael eu galluogi i wneud gwahaniaeth i bobl Cymru. Rydym hefyd wedi ymrwymo i egwyddorion yr Economi Sylfaenol ac felly, mae ein hagenda ehangu mynediad yn canolbwyntio ar dyfu ein gweithlu yn y dyfodol o fewn y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu ledled Cymru. Ein nod yw gwneud PCGC yn lle gwych i weithio a chefnogi Iechyd a Llesiant ein staff yn unol â'r cynllun ar gyfer 'Cymru Iachach'.

O'r herwydd, erys ein saith blaenoriaeth strategol o fewn Pobl a Datblygu Sefydliadol (Pobl a DS) fel:

- Dylunio Sefydliadol
- Datblygu Sefydliadol
- Adnoddau
- Dadansoddeg Pobl
- Cysylltiadau Cyflogeion
- Y Gymraeg
- Rhagoriaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol

Yn ystod 2023-24 fe wnaethom barhau i ganolbwyntio ar sawl rhaglen waith a sefydlwyd yn 2022-23 i sicrhau bod ein pobl yn gallu bod y gorau y gallant fod. O fewn pob un o'n blaenoriaethau strategol, rydym wedi cysoni ein gwaith arfaethedig â blaenoriaethau Gweinidogol a rhaglen ehangach Llywodraeth Cymru. Byddwn yn adeiladu ar hyn yn 2024-25.



## Dylunio Sefydliadol

Yn ystod 2023-24 fe wnaethom barhau i groesawu egwyddorion gweithio ystwyth ac ystwythder rolau. Rydym wedi cyflwyno sesiwn Coffi a Sgwrsio i gynorthwyo rheolwyr i ddeall ein hymagwedd at Weithio Ystwyth ac rydym wedi cynnal sesiynau pwrpasol o fewn is-adrannau. Mae pecyn E-Ddysgu o'r enw "Rheoli Timau o Bell" hefyd ar gael ar y Cofnod Staff Electronig i gynorthwyo rheolwyr i lywio'r dirwedd hon, sy'n newid yn barhaus. Rydym yn parhau i weld lefelau cynhyrchiant ffafriol ynghyd â thwf mewn gwasanaethau ac mae ein lefelau absenoldeb yn parhau i fod ymhell islaw ein targed o 3.3%, ynghyd â bod yn is na chyfradd ganrannol y llynedd, ar 31 Hydref 2023.

Rydym hefyd wedi cyflwyno proses gadarn a symlach o fireinio disgrifiadau swydd, sy'n gyson â dull Cymru Gyfan, ac rydym wedi adeiladu llyfrgell o swydd-ddisgrifiadau i ganiatáu mynediad hawdd at swydd-ddisgrifiadau a allai alluogi ystwythder rolau. Rydym wedi gweld llwyddiant ar unwaith yn y broses hon, gydag 16% o swydd-ddisgrifiadau yn cael eu hanfon i'w mireinio yn 2022 o gymharu â 55% yn yr un cyfnod yn 2023.

Yn ystod 2023-24, fe wnaethom hefyd gychwyn adolygiad AGDP ac ymgysylltu â'r sefydliad cyfan i ddeall sut y gallwn gefnogi staff yn fwy effeithiol i ystyried eu perfformiad a'u datblygiad eu hunain a chefnogi ystwythder rolau.

Fel sefydliad, rydym yn parhau i gofleidio egwyddorion ystwythder busnes ac, yn ystod 2024-25, byddwn felly'n canolbwyntio ar:

- Weithio tuag at gyflwyno rhaglen lleoliadau gwaith tymor byr i staff parhaol "roi cynnig ar" a chyfrannu at waith isadrannau eraill, yn ogystal â rhaglen profiad gwaith i gydweithwyr gael profiad o dîm neu wasanaeth gwahanol a dysgu am eu gwaith.

- Cyflwyno proses i weithredu elfennau dyfarniad cyflog 2023 nad ydynt yn ymwneud â chyflogau mewn partneriaeth â'n cydweithwyr yn yr Undebau Llafur, gan sicrhau bod yr holl Swydd-ddisgrifiadau sydd dros dair oed yn cael eu hadolygu gyda deiliaid y swydd.

- Cyflwyno proses AGDP newydd sy'n ategu'r ymagwedd at ystwythder rolau.



## Datblygu Sefydliadol

Yn ystod 2023-24 cawsom gyfle i ymgysylltu ymhellach â chydweithwyr a chyflawni rhai meysydd allweddol o'n cynllun gweithredu, Dyma Ein PCGC Ni. Nodau'r rhaglen hon yw:

- Datblygu diwylliant cadarnhaol yn PCGC.
- Ymgorffori ymagwedd gyfunol a thosturiol at ddatblygu strategaeth arweinyddiaeth a phrosiectau cysylltiedig.
- Hyrwyddo a chefnogi arweinyddiaeth gyfunol i alluogi PCGC i wneud y canlynol:
    - Cefnogi gweithlu iach ac ymgysylltiol
    - Galluogi staff i ddangos tosturi; i leisio barn; i wella'n barhaus; ac i ddysgu
    - Datblygu cymhwysedd unigol a chyfunol priodol
    - Adnabod gwahaniaethau ac anghenion unigol er mwyn cynyddu annibyniaeth, a chreu ymdeimlad cliriach o berthyn
    - Darparu gwasanaethau o ansawdd uchel a gwerth am arian

Rydym wedi cynyddu ymhellach nifer yr Hyrwyddwyr Newid Diwylliant o bob rhan o'r sefydliad i gefnogi'r gwaith o weithredu'r rhaglen ac i fod yn llysgenhadon dros ddulliau arwain tosturiol a chynhwysol. Yn ystod y Cyfnod Darganfod, bu'r Hyrwyddwyr yn allweddol wrth hwyluso grwpiau ffocws a chyfweld â'n huwch arweinwyr, cyn dadansoddi'r data a gasglwyd ganddynt. Nawr bod cynllun gweithredu wedi'i ddatblygu, ymgynghorwyd â'r Hyrwyddwyr ar ddeunyddiau ac adnoddau dysgu arweinyddiaeth a rheolaeth newydd, cyfrannwyd at ymarferiad ymholi gwerthfawrogol i'r ffyrdd yr ydym yn ymgysylltu â'n cydweithwyr, a gweithiwyd gyda'r Tîm Pobl a Datblygu Sefydliadol ar ddatblygu fframwaith ymddygiad sy'n cyd-fynd â gwerthoedd y sefydliad.

Mae'r Hyrwyddwyr Newid Diwylliant yn weithgar yn eu gwasanaethau, yn siarad ag uwch dimau arwain a chydweithwyr fel ei gilydd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am y rhaglen ac i glywed eu barn. I'w cefnogi nhw rydym wedi sefydlu rhaglen ddatblygu ar gyfer pob hyrwyddwr i'w galluogi a'u grymuso ymhellach yn eu rôl.



Yn ystod 2024-25 bydd y rhaglen hon yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Mapio canlyniadau'r arolwg staff i'r themâu a nodwyd eisoes yn ystod Cyfnod Darganfod Dyma ein PCGC ni i nodi gorgyffwrdd a chwilio am gyfleoedd ar gyfer gwelliannau pellach.
- Datblygu cynllun gweithredu i alluogi cydweithwyr i weld newid cadarnhaol y gellir ei rannu ag arolwg staff 2024.
- Ymgorffori ymhellach y Fframwaith Gwerthoedd Ymddygiad ar draws safleoedd a gwasanaethau PCGC.
- Cyhoeddi astudiaethau achos i ddangos arfer da mewn arweinyddiaeth dosturiol a byw'r gwerthoedd.

## Cefnogi Gweithlu Iach ac Ymgysylltiedig

Cymerwyd camau breision dros y flwyddyn ddiwethaf wrth ddatblygu ein harlwy Iechyd a Llesiant, gan gynnwys:

- Gweithredu ein fframwaith Iechyd a Llesiant gyda'n Hyrwyddwyr Iechyd a Llesiant.
- Llofnodi'r Addewid Menopos i ddangos cefnogaeth i gydweithwyr y mae effeithiau'r menopos yn effeithio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol arnynt, yn ogystal â darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r menopos.
- Cyflwyno cyfres o sesiynau ffitrwydd corfforol ar-lein i gydweithwyr ymuno â nhw mewn amser real neu drwy recordiadau.
- Cefnogaeth barhaus i staff trwy weithdai ymwybyddiaeth llesiant ac ymwybyddiaeth straen.
- Datblygu canolfan hyfforddi achrededig ar gyfer Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl i sicrhau bod arbenigedd a chefnogaeth barhaus yn cael eu darparu i swyddogion cymorth cyntaf iechyd meddwl hyfforddedig a gweithredol y sefydliad.
- Parhau i wella ein darpariaethau cymorth Iechyd Meddwl trwy gydweithio â phartneriaid fel Mind, Silver Cloud, Amser i Newid Cymru, a Headspace, ymhlith eraill.



Yn 2024-25, byddwn yn hybu ein cefnogaeth i weithlu iach ac ymgysylltiol, gan sicrhau bod gan ein pobl lais a'n bod yn gwrando ar y llais hwnnw. Ar y cyd â gweithgareddau eraill yn y rhaglenni 'Dyma ein PCGC ni' a Gweithio Ystwyth, byddwn yn darparu amgylchedd gwaith sy'n galluogi ein pobl i ffynnu. Gyda hyn mewn golwg, byddwn yn:

- Adolygu ein Fframwaith Iechyd a Llesiant gyda'n Hyrwyddwyr Iechyd a Llesiant.
- Datblygu ymhellach y ddarpariaeth lles ariannol.
- Darparu hyfforddiant achrededig mewnol trwy ein canolfan hyfforddi achrededig ar gyfer Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl i gynyddu nifer y Swyddogion Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl i gefnogi ein staff

## Cydnabod Gwahaniaethau Unigol a'r Angen i Gynyddu Ymreolaeth, a Chreu Synnwyr Cliriach o Berthyn

Mae gwreiddio amrywiaeth a chynhwysiant yn ein diwylliant a'n ffordd o feddwl, a grymuso ein pobl i ffynnu, yn rhan hanfodol o raglen 'Dyma ein PCGC ni'.

- Ein nod parhaus yw datblygu rhaglen o weithgarwch sy'n cynnig cyfleoedd i grwpiau o fewn y boblogaeth sy'n cael eu tangynrychioli yn PCGC, gan godi proffil ein sefydliad yn y gymuned ehangach, a sicrhau bod pawb yn cael eu croesawu a'u hannog i ystyried gyrfa gyda ni.

Yn ystod 2023-24, rydym wedi:

- Recriwtio Rheolwr Datblygu Sefydliadol sy'n canolbwyntio'n benodol ar Amrywiaeth, Llesiant a Chynhwysiant i fwrw ymlaen â'n cynlluniau gweithredu a chefnogi PCGC i gofleidio gweithgareddau yn unol â blaenoriaethau cenedlaethol fel Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn ogystal â blaenoriaethau a yrrir gan weithwyr.
- Cyhoeddi Cynllun Gweithredu Amrywiaeth a Chynhwysiant sy'n canolbwyntio ar y meysydd canlynol:
  - Atyniad
  - Datblygiad
  - Ymgysylltu
  - Arferion Cyflogaeth
  - Arweinyddiaeth
- Darparu cyfres o gyfleoedd dysgu a datblygu i staff a rheolwyr ar Amrywiaeth a Chynhwysiant gan gynnwys sesiynau wyneb yn wyneb a rhithwir pwrpasol, modiwl Arweinyddiaeth Gynhwysol ychwanegol yn rhaglen arweinyddiaeth y sefydliad, mynediad at fodiwl e-ddysgu Arweinyddiaeth Gynhwysol, sesiwn Coffi a Sgwrs ar gyfer rheolwyr i'w galluogi i drafod sut y maent yn arwain yn unol ag arferion cynhwysol, a gweminar i gydweithwyr ei wylio pan fydd yn gyfleus iddynt.

Yn 2024-25, byddwn yn:

- Rhoi cynlluniau gweithredu ar waith gyda ffocws penodol ar:
  - Ddatblygu mwy o rwydweithiau gweithwyr
  - 
  - Recriwtio Llysgenhadon Amrywiaeth a Chynhwysiant
  - Sicrhau bod ein cyfleoedd dysgu a datblygu yn gynhwysol
  - Cychwyn ymgyrch ar gyfer cynhwysiant diogel fel bod cydweithwyr yn teimlo'i bod hi'n ddiogel iddynt ofyn cwestiynau a chymryd rhan mewn sgyrsiau i gefnogi dysgu

Darparu dysgu mewn Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, mewn arferion cynhwysol gan gynnwys recriwtio a rheoli llinell, mewn Rhagfarn Ddiarwybod a Gwrth-hiliaeth, a sicrhau bod ein holl gydweithwyr yn gallu cyrchu gweminarau, fideos, podlediadau ac e-ddysgu ar-lein i gefnogi hyn yn ogystal â chynyddu ein cyfleoedd dysgu wyneb yn wyneb.

## Datblygu Cymhwysedd Unigol a Chyfunol Priodol

Yn olaf, byddwn yn parhau i sicrhau bod gan ein pobl y wybodaeth, y sgiliau a'r profiad i gyflawni eu hanghenion a'u dyheadau unigol; yn ogystal â rhai'r sefydliad.

Yn ystod 2023-24, fe wnaethom:

- Gyhoeddi Strategaeth Dysgu a Datblygu Pobl i gefnogi datblygiad parhaus a rhagoriaeth perfformiad.
- Datblygu Hwb Datblygu Pobl lle gall cydweithwyr gael mynediad at ystod gynyddol o gyfleoedd dysgu i gefnogi eu twf personol a phroffesiynol.
- Sefydlu Gweithgor Nad yw'n Ddigidol i adolygu a gwella mynediad at gymorth dysgu a datblygu i gydweithwyr mewn rolau nad ydynt yn rhai digidol.
- Datblygu deunyddiau dysgu ar gyfer hyfforddiant ymwybyddiaeth llythrennedd carbon a dechrau ei gyflwyno i grwpiau allweddol.
- Hoelio sylw cydweithwyr ar y Fframwaith Gallu Digidol fel cam cyntaf at nodi bylchau mewn gwybodaeth a sgiliau a fydd yn ein galluogi i ddarparu cymorth wedi'i dargedu.
- Ymgysylltu â'r sefydliad a chwmpasu rhaglen ddoniau newydd, Arweinwyr y Dyfodol, i'w chyflwyno yn 2024-25.
- Gweithio mewn partneriaeth â chydweithwyr yn yr Undebau Llafur a chael mynediad i Gronfa Ddysgu Undebau Cymru i gefnogi dysgu am niwroamrywiaeth ac ymwybyddiaeth ohono.

I gefnogi hyn ymhellach, byddwn yn:

- Gweithredu ymhellach Strategaeth Dysgu a Datblygu Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru fesul cam gan sicrhau bod gan gydweithwyr fynediad at gyfleoedd datblygu hyblyg, hygyrch a chydweithredol.
- Cynyddu'r ddarpariaeth o ran mynediad at ddysgu i gydweithwyr mewn rolau nad ydynt yn rhai digidol.
- Gweithio mewn partneriaeth â chydweithwyr yn yr Undebau Llafur a chael mynediad at Gronfa Ddysgu Undebau Cymru i gefnogi'r gwaith o ddatblygu sgiliau hanfodol gan gynnwys llythrennedd a chynhwysiant digidol.
- Defnyddio'r canlyniadau o'r Fframwaith Gallu Digidol a gwaith cysylltiedig i ddatblygu gallu digidol i gefnogi mynediad at systemau a chyfleoedd dysgu yn ogystal ag adnoddau ar-lein.



## Adnoddau

Yn yr un modd â 2022-23, rydym yn parhau i gael ein herio gan gynigion cystadlu â sefydliadau yn y sector preifat a chyhoeddus am y doniau gorau, yn enwedig yn ein gwasanaethau proffesiynol ac mae nifer y swyddi gweigion yn y farchnad lafur heddiw yn parhau i olygu bod recriwtio yn mynd yn fwyfwy heriol ac rydym yn dal i gael ein hunain mewn marchnad ymgeiswyr.

Yn 2023-2024, buom yn canolbwyntio ar ein Cynnig Gwerth Cyflogeion hy, y buddion craidd sy'n rhan o'n brand cyflogwr ehangach, gan ganolbwyntio ar yr hyn y gall PCGC ei gynnig i ddarpar ymgeisydd yn gyfnewid am ei ddawn, ei sgiliau a'i brofiad. Buom hefyd yn canolbwyntio ar sefydlu'r sgiliau sydd eu hangen ar y sefydliad yn y dyfodol a sut y gallwn ddwyn y rhain i PCGC, gan gynnwys defnyddio ein gweithlu dros dro ac offer priodol ar gyfer cynllunio'r gweithlu. Fel y cyfryw, mewn partneriaeth â'n cydweithwyr yn yr Undebau Llafur, fe wnaethom gyflwyno:

- Pedwar modiwl hyfforddi ar wahân ar recriwtio a dethol: Paratoi i Recriwtio, Recriwtio Cynhwysol, Dethol a Chyfweld a Chroeso i PCGC, sy'n bwrw golwg ar brofiad sefydlu.
- Is-grŵp Recriwtio a Chadw yn gysylltiedig â'r Fforwm Partneriaeth Lleol i sicrhau ein bod yn ymgynghori ac yn ymgysylltu â'n staff ynghylch y pethau sy'n bwysig iddynt.
- Egwyddorion Recriwtio Hyblyg i sicrhau ein bod yn cefnogi staff i symud rhwng rolau banc, cyfnod penodol, secondiad a dyrchafiad dros dro i drefniadau mwy parhaol.




- Paneli craffu ar reoli swyddi gwag a banc ac asiantaethau, i ganolbwyntio ar reoli sefydliadau, cefnogi adleoli ac ystwythder rolau ar draws y sefydliad, a sicrhau bod is-adrannau'n gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o fanciau ac asiantaethau, oll yn cyd-fynd â'n hamcan i wario 30% yn llai ar asiantaethau.
- Lansio tudalen "Gweithio i Ni" ar Fewnrwyd y staff, sy'n creu safle recriwtio pwrpasol a phorth buddion i arddangos PCGC ar ei orau.
- Meicrowefan Cynllunio'r Gweithlu sy'n ymgorffori Strategaeth Cynllunio'r Gweithlu PCGC a'r Pecyn Cymorth cysylltiedig i alluogi is-adrannau i gynllunio'r gweithlu'n effeithiol a darparu mynediad i bum dangosfwrdd Power Business Intelligence (BI) i helpu is-adrannau i ddeall demograffeg eu staff er mwyn cynllunio'r gweithlu:
  - Dadansoddiad Cyfweliadau Ymadael Ymadawyr
  - Dadansoddiad Sgiliau Iaith Gymraeg
  - Dadansoddiad Proffil Oedran y Gweithlu
  - Dadansoddiad Symudiadau Staff
  - Dadansoddiad Proffil Cynhwysiant

## Ehangu Mynediad

Mae PCGC wedi ymrwymo i'r agenda ehangu mynediad ac i sicrhau ein bod yn darparu cyfleoedd cyflogaeth a thwf i'r rhai yn y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu. Yn 2023-24, fe wnaethom ganolbwyntio ar y canlynol:


- Meithrin sgiliau Cymraeg ein gweithlu parhaol i sicrhau ein bod yn gynrychioliadol o'r cymunedau yr ydym yn gweithio ynddynt.
- Datblygu mynediad i PCGC ymhellach trwy Lwybrau Mynediad Gyrfa. Yn sgil y cynnydd mewn gweithgarwch hyrwyddo, fe wnaethom recriwtio mwy o hyfforddeion Rhwydwaith 75 nag yn y blynyddoedd blaenorol gyda 10 o fyfyrwyr yn ymuno â ni ar draws 6 proffesiwn.
- Hyrwyddo cyfleoedd trwy ddigwyddiadau gyrfa mewn partneriaeth ag addysg a sefydliadau eraill gan gynnwys elusennau ac asiantaethau sy'n cefnogi mynediad i leoliadau gwaith cynhwysol.

Yn 2024-25, rydym wedi ymrwymo i ddatblygu ein dull Ehangu Mynediad ymhellach, gan ganolbwyntio ar:

- Cynyddu nifer y staff sy'n ymuno â ni gyda nodweddion gwarchodedig.
- Parhau i feithrin sgiliau Cymraeg ein gweithlu parhaol i sicrhau ein bod yn gynrychioliadol o'r cymunedau yr ydym yn gweithio ynddynt.
- Datblygu mynediad i PCGC ymhellach drwy Lwybrau Mynediad Gyrfa gan ganolbwyntio'n benodol ar gynyddu ein llwybrau prentisiaeth ac archwilio cyfleoedd eraill fel interniaethau.
- Hyrwyddo cyfleoedd ymhellach trwy ddigwyddiadau Gyrfa mewn partneriaeth ag addysg a sefydliadau eraill gan gynnwys elusennau ac asiantaethau sy'n cefnogi mynediad i leoliadau gwaith cynhwysol.



# Dadansoddeg Pobl



Mae dadansoddeg pobl yn ein galluogi i fesur ac adrodd ar gysyniadau gweithlu allweddol, megis perfformiad, llesiant, cynhyrchiant, arloesedd ac aliniad, yn ei dro yn galluogi penderfyniadau mwy effeithiol ar sail tystiolaeth i lywio ein cynlluniau cynllunio a moderneiddio a thrawsnewid yn y dyfodol.

Yn dilyn yr adborth cadarnhaol a dderbyniwyd ynghylch y newidiadau i'r adroddiadau Pobl a Datblygu Sefydliadol diwygiedig i'r holl Uwch Dimau Rheoli Rhanbarthol, gan ganolbwyntio ar yr 'Eiliadau o Bwys', hy eiliadau sy'n fwy tebygol o gael effaith sylweddol ar y berthynas gyflogaeth a boddhad cyffredinol y gweithwyr gyda PCGC, rydym wedi parhau i adolygu sut rydym yn dadansoddi ac yn cyhoeddi ein data.

Yn 2023-24, lansiwyd y modiwlau E-Ddysgu ar hyfforddiant Gwybodaeth Busnes i Reolwyr Pobl, gyda chanllawiau defnyddwyr atodol fel rhan o dudalen benodol ar fewnrwyd y staff. Mae'r niferoedd sy'n edrych ar y dudalen wedi cynyddu'n raddol a byddwn yn parhau i fonitro'r hyfforddiant i benderfynu a oes gostyngiad cysylltiedig mewn ceisiadau am ddata gan y tîm. Yn 2023-24, mae'r tîm Dadansoddeg Pobl hefyd wedi canolbwyntio ar greu'r dangosfyrddau sydd wedi'u cynnwys ym meicrowefan Cynllunio'r Gweithlu ochr yn ochr â chreu a phrofi nifer o lifau gwaith symlach gan ddefnyddio Microsoft Forms.

Yn 2024-25, bydd Dadansoddeg Pobl yn cefnogi'r sefydliad ymhellach drwy ddarparu dadansoddiad manwl yn gysylltiedig â'n dangosfyrddau Power BI. Bydd hyn yn galluogi'r sefydliad i ddeall y naratif ynglŷn â phobl yn gadael ein sefydliad yn ogystal â'r hyn sydd angen i ni ei ystyried yn gysylltiedig â'n demograffeg staff o gymharu â data'r cyfrifiad am y cymunedau rydym yn gweithio ynddynt. Bydd ffocws parhaus hefyd ar lifau gwaith symlach i leihau prosesau dwys â llaw megis cario gwyliau blynyddol ymlaen a dyfarniadau credyd cynyddrannol.




## Cysylltiadau Gweithwyr

Rydym yn parhau i weithio gyda'n rheolwyr pobl i sicrhau eu bod yn cymhwyso egwyddorion diwylliant cyfiawn a diwylliant sy'n dysgu, gan ganolbwyntio ar gyfiawnder adferol ac arweinyddiaeth dosturiol. Yn 2023-24, fe wnaethom barhau i wrando ar bob safbwynt am ein prosesau cysylltiadau gweithwyr ac, o ganlyniad, rydym wedi parhau i gyflwyno ffyrdd newydd o weithio yn dilyn y sgyrsiau er mwyn sicrhau bod ein staff, waeth beth fo'u rôl, wrth galon ein dull gweithredu.

I'r perwyl hwn, rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar berthnasoedd unigol a chyfunol yn y gweithle, gan weithio mewn partneriaeth â'n cydweithwyr yn yr Undebau Llafur. Yn benodol, yn ystod 2023-24 rydym wedi:

- Cynnal perthnasoedd cadarnhaol, seiliedig ar ymddiriedaeth, gyda'n cydweithwyr lleol yn yr Undebau Llafur yn Fforwm Partneriaeth Lleol PCGC, yn erbyn hinsawdd o gysylltiadau diwydiannol anodd.
- Cynnal perthynas gadarnhaol gyda Fforwm Partneriaeth Cymru.
- Cyflwyno is-grŵp Polisi Pobl a Datblygu Sefydliadol sy'n gysylltiedig â'r Fforwm Partneriaeth Lleol i sicrhau ein bod yn ymgynghori ac yn ymgysylltu â'n staff ynghylch y pethau sy'n bwysig iddynt.
- Adolygu ein hymagwedd gyfan at gysylltiadau gweithwyr er mwyn lleihau niwed i'r rhai sy'n gysylltiedig, gan dreialu dulliau newydd mewn rhai achosion, a dal i gadw'r sefydliad yn ddiogel o safbwynt statudol.
- Cyflwyno gweminar Perthnasoedd Gwaith Iach, gan amlygu pwysigrwydd datrys materion yn anffurfiol.

Yn 2024-25, byddwn yn cryfhau gwaith yn y maes hwn ymhellach drwy:

- Weithio gydag AaGIC yn dilyn yr ymchwil a'r dysgu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, i ymgorffori ymagwedd newydd at Gysylltiadau Gweithwyr lle mae ein cyflogeion yn ganolog i'r ymagwedd ac mae niwed i weithwyr yn cael ei osgoi lle bo modd.
- Cyflwyno modiwlau hyfforddi ar wahân yn gysylltiedig â Disgyblaethau, Parch a Datrys, a Gallu. Sicrhau bod yr hyfforddiant ar gael i bawb er mwyn datblygu cymhwysedd a gallu yn y maes hwn.
- Cyflwyno'r defnydd o Swyddogion Ymchwilio Banc, yn y gobaith o leihau ymhellach yr amser a gymerir i gynnal ymchwiliad cysylltiadau gweithwyr.
- Adolygu'r cymorth bugeiliol sydd ar gael i'r holl staff drwy aelodaeth PCGC ac Undebau Llafur.

## Y Gymraeg

Mae Uned yr Iaith Gymraeg yn parhau i fod o fewn yr Is-adran Pobl a Datblygu Sefydliadol yn PCGC, ac mae'n darparu cymorth, arweiniad a chyfeiriad clir i bob is-adran arall o fewn PCGC i ddarparu gwasanaethau dwyieithog o safon. Ar hyn o bryd, rydym yn cyflogi Rheolwr Gwasanaethau Cymraeg, 2 Reolwr Cyfieithu a 5 cyfieithydd. Mae gennym hefyd gronfa sefydledig o gyfieithwyr yr ydym yn galw arnynt yn ystod oriau brig.

Yn ystod 2023-24, ein prif feysydd gwaith oedd:

- Cynnig rhaglen hyfforddi a dysgu Cymraeg i staff a rheolwyr.
- Allgymorth mewn ffeiriau gyrfaoedd, ysgolion a cholegau.
- Hysbysebu a Recriwtio.
- Pennu sgiliau iaith Gymraeg ar gyfer swyddi a swyddi gwag.
- Archwilio ac Adolygu ein gwasanaethau ffôn yn unol â system ffôn newydd.
- Gwasanaethau cymorth technoleg cyfieithu a chyfieithu.

### Hyfforddi a Dysgu

Rydym wedi parhau i ddarparu cyfleoedd i staff ddysgu Cymraeg yn ystod 2023-24. Ar hyn o bryd, rydym yn cynnig 3 chwrs Mynediad Lefel 1 ac mae gennym 47 aelod o staff yn dysgu Cymraeg ar y lefel hon, ac 1 cwrs Mynediad Lefel 2 gydag 8 aelod o staff yn mynychu'r cwrs hwn. Hefyd, mae gennym gwrs Sylfaen Lefel 1 i staff ac mae 12 aelod o staff ar y cwrs hwn. Mae cyfanswm o 67 aelod o staff ar ein cyrsiau penodol i'r gweithle. Yn ogystal, rydym yn ariannu staff i fynychu cyrsiau prif ffrwd yn ystod oriau gwaith ar draws Lefel Sylfaen 2, Lefel Canolradd 2 a Lefel Uwch 2; mae 12 aelod o staff yn mynychu'r cyrsiau hyn.

Rydym wedi hybu cyfranogiad a chwblhau Modiwl Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, Mwy Na Geiriau, ar draws PCGC ac mae cwblhau yn 2023-24 yn 85%. Ar hyn o bryd rydym yn archwilio sut rydym yn sicrhau bod cynnwys y modiwl hwn ar gael i aelodau o staff nad ydynt yn gallu cael at blatfform digidol i gwblhau'r modiwl.

Rhoddir blaenoriaeth i'n ffocws ar y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle. Mae PCGC yn cynnal trafodaethau ar hyn o bryd ag Uned Polisi'r Gymraeg Llywodraeth Cymru a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg ar greu modiwl "Croeso Cymraeg" o hyd at 5 awr i'w gwblhau gan staff sydd â 0 sgil ar y Cofnod Staff Electronig. Bydd y modiwl ar gael ar-lein a bydd yn orfodol.



Hefyd, rydym yn cydnabod bod angen cefnogi staff a all fod yn llai hyderus yn eu defnydd o'r Gymraeg er mwyn cynnig llwybrau dysgu llai ffurfiol i ymarfer eu sgiliau Cymraeg mewn amgylchedd diogel ac adeiladol gyda mwy o hyder. Mae trafodaethau cynnar wedi'u cynnal yn ystod 2023-24 gydag Uned Polisi'r Gymraeg Llywodraeth Cymru a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg, ac mae'r trafodaethau hynny'n parhau gyda golwg ar gyflwyno'r rhaglen i'n harlwy dysgu yn 2024-25.

Rydym yn hyrwyddo amrywiaeth o gyrsiau a addysgir ar-lein i staff trwy ein cylchlythyr Pobl a Datblygu Sefydliadol a gyhoeddir ddechrau pob mis calendr.



## Allgymorth

Yn ystod 2023-24, mae Uned yr Iaith Gymraeg wedi ymgysylltu â thros 600 o fyfyrwyr trwy ddigwyddiadau gyrfa yn Ysgol Bro Morgannwg, y Barri; Coleg Caerdydd a'r Fro, Ysgol Bro Edern, Ysgol Glantaf ac Ysgol Plasmawr i godi ymwybyddiaeth o byrth gyrfaoedd i Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru fel cyflogwr o ddewis. Mynychodd Rheolwr Gwasanaethau'r Gymraeg Ddiwrnod Recriwtio Cymraeg yn Llyfrgell y Barri ym mis Ebrill 2023. Byddwn yn nodi cyfleoedd eraill i weithio gyda chymunedau lleol gerllaw neu o gwmpas holl leoliadau gweithredol PCGC ledled Cymru ar gyfer 2024-25.

## Hysbysebu a Recriwtio

Mae'r protocol ar gyfer recriwtio rheolwyr i hysbysebu swyddi gwag yn ddwyieithog wedi'i integreiddio'n llawn i'n proses recriwtio, ac mae'r holl swydd-ddisgrifiadau ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Mae panel rheoli swyddi gwag wedi'i sefydlu i graffu ar ofynion rolau a sgiliau Cymraeg ar gyfer swyddi gwag. Mae yna swyddi gweigion allweddol megis swyddi Derbynnydd, staff sy'n delio â galwadau sy'n gweithio ar ein prif rifau ffôn, rhifau llinellau cymorth a chanolfannau cyswllt sydd bellach wedi'u nodi'n swyddi lle mae'r Gymraeg yn Hanfodol neu lle mae angen dysgu sgiliau Cymraeg.

## Gwasanaethau Cymorth Technoleg Cyfieithu a Chyfieithu

Rydym yn parhau i ddarparu gwasanaethau cyfieithu a ffigwr cyfieithu 2023-24 fydd yr uchaf eto. Mae ein rhagamcanion yn nodi y byddwn wedi cyfieithu a phrosesu dros 7.5 miliwn o eiriau yn ystod 2023-24 drwy gefnogi:


- Holl Is-adrannau PCGC a'r gwasanaethau a gynhelir
- Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Iechyd a Gofal Digidol Cymru
- Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre

Rydym wedi cychwyn cynllun peilot lle rydym yn dod â'r holl sefydliadau sydd â Chytundeb Lefel Gwasanaeth gyda PCGC i ddefnyddio'r un meddalwedd cof cyfieithu, fel yr amlinellir yn Strategaeth Mwy Na Geiriau. Mae hyn yn galluogi pob sefydliad i gynllunio ar gyfer 2024-25 yn fwy darbodus o ran yr hyn y bydd ei angen arnynt o ran darpariaeth cyfieithu a thechnoleg. Er mwyn cefnogi hyn, rydym yn adnewyddu ein contract gyda Phrase o dan reolau a rheoliadau caffael.

Yn y tymor canolig a hwy, bydd Uned yr Iaith Gymraeg a’r Swyddfa Rheoli Prosiectau, yn unol â Strategaeth Mwy Na Geiriau a Strategaeth Ddigidol PCGC, yn cynnal astudiaeth ddichonoldeb a phroses gwmpasu i bennu beth fydd gofynion Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau ar gyfer gwasanaethau cyfieithu. Mae’r galw am wasanaethau cyfieithu ar draws GIG Cymru gyfan yn cynyddu’n flynyddol ac mae’r prinder cyfieithwyr cymwys a phrofiadol yn creu her. Yn ystod 2024-25, byddwn yn cydweithio â Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau i gwmpasu’r anghenion a’r galwadau ar draws GIG Cymru gyda’r bwriad o gaffael meddalwedd cof cyfieithu Cymru gyfan i helpu i reoli’r galw erbyn 2026-27.

## Gwasanaethau Ffôn

Rydym wedi cynnal dadansoddiad manwl o’n gwasanaethau ffôn yn ystod 2023-24 ac wedi archwilio, adolygu ac ailrecordio’r holl negeseuon ar draws y busnes er mwyn sicrhau bod y wybodaeth sydd ar gael i’n galwyr yn gyfredol ac yn gywir a sicrhau eu bod yn bodloni gofynion safonau’r Gymraeg. I gefnogi hyn, mae gweithdrefnau gweithredu safonol wedi’u diweddaru a’u dosbarthu ac mae mwy o hyfforddiant yn cael ei ddarparu o ran codi ymwybyddiaeth o gydymffurfio â’r safonau, dysgu ymadroddion allweddol er mwyn i staff allu delio â galwadau yn Gymraeg a rhoi gweithdrefnau mwy cadarn ar waith i allu cynnig gwasanaethau Cymraeg ar ein prif rifau ffôn, llinellau cymorth a chanolfannau cyswllt.



## Rhagoriaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol

Rhaid i'r Tîm Pobl a Datblygu Sefydliadol gael ei weld fel partner credadwy y gellir ymddiried ynddo i'n cwsmeriaid mewnol ac allanol. I fesur hyn, mae angen i ni wrando ar ein cwsmeriaid yn rheolaidd.

Fel gwasanaeth corfforaethol sy'n wynebu'n fewnol, rydym yn ymrwymo i roi pobl wrth galon ein gweithrediadau ac rydym yn ymrwymo i gynnal ein gwerthoedd proffesiynol; rhoi ein cwsmeriaid yn gyntaf, gweithio ar y cyd, darparu cyngor a barn arbenigol, bod yn effeithiol a bod yn arloesol yn ein hymagwedd.


Yn 2023-24, parhaodd y tîm Pobl a Datblygu Sefydliadol i weithio ar ragoriaeth ein gwasanaeth trwy wrando ar adborth staff yn sgil lansio Gwasanaeth Cwsmeriaid pwrpasol Pobl a Datblygu Sefydliadol a gwahodd staff a rheolwyr i fynychu ein cyfarfodydd tîm a rhoi adborth uniongyrchol am eu profiadau gyda ni.

Yn ystod 2023-24, cymerodd y tîm Pobl a Datblygu Sefydliadol ran yn yr Achrediad Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cwsmeriaid. Roedd PCGC yn llwyddiannus yn yr achrediad ac, felly, yn 2024-25 rydym yn bwriadu parhau i weithio tuag at fod yn gyflogwr o ddewis trwy ymateb i adborth Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cwsmeriaid a diwygio ein hymagwedd a'n prosesau fel y bo'n briodol, yn hytrach na gwneud cais am achrediad unigol fel Buddsoddwyr mewn Pobl, neu wobr 'The Best Companies'.



*Atodiad D*

# Dangosyddion Perfformiad Allweddol:



GIG CYMRU NHS WALES
Partneriaeth Cydwasanaethau
Shared Services Partnership

## Monitro

Rydym yn parhau i gysoni ein mesurau perfformiad â'n Hamcanion Strategol ac rydym yn adrodd yn rheolaidd ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) is-adrannol i Bwyllgor y Bartneriaeth, Llywodraeth Cymru a'n cwsmeriaid drwy ein hadroddiadau perfformiad chwarterol. Mae ein mesurau perfformiad yn cael eu hadolygu fel rhan o broses yr Adolygiad Chwarterol i sicrhau eu bod yn berthnasol, yn uchelgeisiol ond yn gyraeddadwy ac yn fesuradwy.

Defnyddir cyfarfodydd Adolygu Chwarterol gydag is-adrannau i asesu ein cynnydd yn erbyn amcanion is-adrannol y CTCI, mesurau perfformiad, cofrestrau risg a pherfformiad y gweithlu a pherfformiad ariannol. Rydym hefyd yn cynhyrchu adroddiadau at ddiben craffu arnynt yn fisol gan yr Uwch Grŵp Arwain, bob deufis gan Bwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau ac yn chwarterol ar sail sefydliadol.

Yn ddiweddar, rydym wedi ailddechrau'r cyfarfodydd perfformiad chwe-misol ar sail 1:1 gyda'r Sefydliadau Iechyd gyda chynrychiolwyr sy'n cynnwys y Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol a'r Cyfarwyddwr Cyllid.  Cyfarfodydd y Cydbwyllgor Gweithredol ddwywaith y flwyddyn i Lywodraeth Cymru graffu arnynt.

Cynhelir cyfarfodydd y Cydbwyllgor Gweithredol ddwywaith y flwyddyn sy'n rhan bwysig o'r berthynas atebolrwydd ffurfiol rhwng Llywodraeth Cymru a'n sefydliad. Yn fras, mae'r agenda adolygu wedi'i phennu ar themâu cyllid, perfformiad a chyflawni yn erbyn amcanion yn y CTCI presennol.


## Canlyniadau

Wrth ddatblygu ein cynlluniau ar gyfer 2024-27, rydym wedi bod yn sefydlu mesurau perfformiad sy'n cefnogi'r canlyniadau yn ein Map Strategaeth. Mae'r mesurau hyn wedi'u gosod o amgylch tair thema allweddol, sef arbedion, ansawdd a phrofiadau defnyddwyr terfynol.

Mae'r mesurau canlyniadau wedi'u datblygu drwy'r Grŵp Perfformiad a Chanlyniadau sy'n cyfarfod bob chwarter gyda chynrychiolwyr o bob un o'r is-adrannau. Sefydlwyd y grŵp gyda'r nod o nodi mesurau canlyniadau cyffredinol cyffredin a rhannu a dysgu o adroddiadau perfformiad.

Yn ogystal â thrafodaethau yn y Grŵp Perfformiad a Chanlyniadau, mae sesiynau gydag Uwch Grŵp Arwain PCGC a Phwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau wedi cefnogi datblygiad ein mesurau canlyniadau. Mae'r mesurau hyn, a fydd yn dal i gael eu datblygu, wedi'u hamlygu yn **Atodiad E**.

O fis Ebrill 2024, bydd adroddiadau ar Fesurau Canlyniadau a Mesurau Perfformiad presennol, sydd wedi tueddu i fod yn fwy o fesurau proses, fel rhan o strwythur adrodd PCGC. Rhagwelir y bydd yr adrodd ar Ganlyniadau yn ysgogi trafodaeth â mwy o ffocws yn yr Uwch Grŵp Arwain a Phwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau ar ansawdd ac effaith y gwaith a wnawn gyda PCGC.



## Datblygiadau

Mae’r mesurau perfformiad allweddol wedi cael eu diwygio fel rhan o’n hadolygiad rheolaidd ac maent yn parhau i fod yr un fath yn fras, fodd bynnag, gydag ychwanegiadau at ymrwymiad cyflawniad sefydliadol i Ragoriaeth mewn Gwasanaethau Cwsmeriaid a mesur newydd o brosesu dirwystr Cyfrifon Taladwy. Mae targedau hefyd wedi’u hadolygu ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

Rydym hefyd yn mesur ac yn adrodd i Lywodraeth Cymru ar nifer o feysydd polisi ddwywaith y flwyddyn a bob blwyddyn drwy asesiadau sicrwydd polisi ar y canlynol:

- Yr Economi Sylfaenol
- Anableddau Dysgu
- Iechyd a Gofal Seiliedig ar Werth
- Datgarboneiddio

Eleni rydym wedi cyflwyno dangosfwrdd i Reolwyr Gyfarwyddwyr i grynhoi meysydd allweddol y sefydliad o ran perfformiad, Cyllid, Pobl a Datblygu Sefydliadol, Risg a Datblygiadau allweddol yn erbyn ein cynllun.

Isod mae ein mesurau Perfformiad Allweddol ar gyfer 2024-25 a, lle bo’n berthnasol, y targedau arfaethedig ar gyfer 2024-27.



## Atodiad D - Dangosyddion Perfformiad Allweddol

| Amcan Strategol | Disgrifiad o'r Mesur Perfformiad Allweddol | Cyfrifoldeb | Amlder | 2024-25 | 2025-26 | 2026-27 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **PCGC** | | | | | | |
| Ein Gwasanaethau | Achrediad Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cwsmeriaid | PCGC | Blynyddol | Cyflawni | Cyflawni | Cyflawni |
| Ein Gwerth | Sefyllfa Ariannol | PCGC | Misol | Adennill costau | Adennill costau | Adennill costau |
| Ein Gwerth | Ychwanegu Gwerth (Buddion Dylanwad Proffesiynol) | PCGC | Blynyddol | £110m | £110m | £110m |
| Ein Gwasanaethau | Boddhad Cwsmeriaid - Pa mor fodlon ydych chi ag ansawdd y gwasanaeth? | Y ddau | Blynyddol | Gwelliant Parhaus o fewn Gwasanaethau | Gwelliant Parhaus o fewn Gwasanaethau | Gwelliant Parhaus o fewn Gwasanaethau |
| Ein Gwasanaethau | Boddhad Cwsmeriaid - Pa mor fodlon ydych chi gyda'r amseroedd ymateb gan [Cyfarwyddiaeth]? | PCGC | Blynyddol | Gwelliant Parhaus o fewn Gwasanaethau | Gwelliant Parhaus o fewn Gwasanaethau | Gwelliant Parhaus o fewn Gwasanaethau |
| Ein Gwasanaethau | - Roedd y staff yn broffesiynol ac yn gwrtais? | PCGC | Blynyddol | Gwelliant Parhaus o fewn Gwasanaethau | Gwelliant Parhaus o fewn Gwasanaethau | Gwelliant Parhaus o fewn Gwasanaethau |
| Ein Gwasanaethau | Boddhad Cwsmeriaid - Pa mor hawdd oedd hi i chi gysylltu â'r [Gyfarwyddiaeth]? | PCGC | Blynyddol | Gwelliant Parhaus o fewn Gwasanaethau | Gwelliant Parhaus o fewn Gwasanaethau | Gwelliant Parhaus o fewn Gwasanaethau |
| Ein Gwasanaethau | Boddhad Cwsmer - Os ydych erioed wedi codi pryder/ymholiad/problem gyda'r [Gyfarwyddiaeth] am y gwasanaeth y maent yn ei ddarparu, pa mor fodlon oeddech chi ar sut y cafodd ei ddatrys? | PCGC | Blynyddol | Gwelliant Parhaus o fewn Gwasanaethau | Gwelliant Parhaus o fewn Gwasanaethau | Gwelliant Parhaus o fewn Gwasanaethau |
| **Cyfrifon Taladwy** | | | | | | |
| Ein Gwasanaethau | Perfformiad Cyflogau'r Sector Cyhoeddus – y tu allan i'r GIG | Y ddau | Misol | 95% | 95% | 95% |
| Ein Gwasanaethau | Prosesu dirwystr | Y ddau | Misol | I'w gadarnhau | I'w gadarnhau | I'w gadarnhau |
| Ein Gwasanaethau | Cynlluniau archwilio y cytunwyd arnynt/ar ffurf drafft erbyn 31 Mawrth | PCGC | Blynyddol | 100% | 100% | 100% |
| Ein Gwasanaethau | Barn archwilio wedi'i chyflwyno erbyn 31 Mai | PCGC | Blynyddol | 100% | 100% | 100% |

## Atodiad D - Dangosyddion Perfformiad Allweddol

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Archwilio a Sicrwydd** | | | | | | |
| Ein Gwasanaethau | Archwiliadau yr adroddwyd arnynt o gymharu â chyfanswm yr archwiliadau a gynlluniwyd | PCGC | Misol | > 95% | > 95% | > 95% |
| Ein Gwasanaethau | Archwiliadau wedi'u cyflawni ar gyfer pob Pwyllgor Archwilio yn unol â'r cynllun y cytunwyd arno | Y ddau | Pob pwyllgor | 80% | 80% | 80% |
| Ein Pobl | % yr argymhellion a weithredwyd a'u heffaith | Y ddau | Blynyddol | Ym Marn ac Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol | Ym Marn ac Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol | Ym Marn ac Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol |
| **Atal Twyll** | | | | | | |
| Ein Gwerth | Cynnydd mewn adferiadau ariannol ar gyfer GIG Cymru trwy gymhwyso adferiadau ariannol AFI manylach yn gyson gan Wasanaeth Atal Twyll Cymru a'r Arbenigwr Atal Twyll Lleol | PCGC | Chwarterol | Parhaus - mwy o atgyfeiriadau ac adferiadau | Parhaus - mwy o atgyfeiriadau ac adferiadau | Parhaus - mwy o atgyfeiriadau ac adferiadau |
| **Tîm Canolog** | | | | | | |
| Ein Gwasanaethau | Cyflawni mynegai boddhad cwsmeriaid o foddhad (85%) neu well yn flynyddol. | PCGC | Blynyddol | 85% | 90% | 92% |
| Ein Gwasanaethau | Pob digwyddiad (ac eithrio Blaenoriaeth 1 (B1)) a godir gyda'r Tîm Canolog yn cael ymateb o fewn 2 awr rhwng 9am-5pm | PCGC | Misol | 94% | 94% | 94% |
| Ein Gwasanaethau | Ymatebir i ddigwyddiadau B1 a godir gyda'r Tîm Canolog o fewn 20 munud rhwng 9am-5pm | PCGC | Misol | 90% | 90% | 92% |
| Ein Gwasanaethau | Mae digwyddiadau B1 a godir gyda'r Tîm Canolog yn cael eu datrys o fewn 8 awr rhwng 9am-5pm, o fewn gallu | PCGC | Misol | 95% | 95% | 95% |
| Ein Gwasanaethau | Bydd tocynnau Mannau Gwasanaeth BACS a dderbynnir cyn 14.00 yn cael eu prosesu ar yr un diwrnod gwaith oni bai bod problemau yn cael eu nodi ac nad yw'r sawl sy'n gwneud y cais ar gael i ymdrin â nhw. Bydd y tocynnau sy'n weddill yn cael eu prosesu'r diwrnod gwaith nesaf. | PCGC | Misol | 95% | 95% | 95% |

## Atodiad D - Dangosyddion Perfformiad Allweddol

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gweithlu Digidol** | | | | | | |
| Ein Gwasanaethau | % o Alwadau a Atebwyd | PCGC | Misol | 85% | 85% | 85% |
| Ein Gwasanaethau | % o ymatebion sgwrs fyw | PCGC | Misol | 90% | 90% | 90% |
| Ein Gwasanaethau | % boddhad cwsmeriaid flwyddyn ar ôl blwyddyn | PCGC | Misol | 90% | 90% | 90% |
| **Gwasanaethau Cyflogaeth** | | | | | | |
| Ein Gwasanaethau | Cais Creu Swydd Wag hyd at y dyddiad cychwyn (cynnig diamod, fel yr oedd) | Y ddau | Misol | 71 diwrnod | 71 diwrnod | 71 diwrnod |
| Ein Gwasanaethau | % o Swyddi Gwag a hysbysebwyd o fewn 2 ddiwrnod gwaith o'u derbyn | PCGC | Misol | 98% | 98% | 98% |
| Ein Gwasanaethau | Swyddi Gwag a hysbysebwyd o fewn 2 ddiwrnod gwaith o'u derbyn | PCGC | Misol | 2 ddiwrnod | 2 ddiwrnod | 2 ddiwrnod |
| Ein Gwasanaethau | % o lythyrau cynnig amodol a anfonwyd o fewn 4 diwrnod gwaith | PCGC | Misol | 98% | 98% | 98% |
| Ein Gwasanaethau | llythyrau cynnig amodol a anfonwyd o fewn 4 diwrnod gwaith | PCGC | Misol | 4 diwrnod | 4 diwrnod | 4 diwrnod |
| Ein Gwasanaethau | % o alwadau a atebwyd - Recriwtio | PCGC | Misol | 95% | 95% | 95% |
| Ein Gwasanaethau | % o alwadau a atebwyd - Y Gyflogres | PCGC | Misol | 95% | 95% | 95% |
| Ein Gwasanaethau | % o alwadau a atebwyd - Dyfarniadau Myfyrwyr | PCGC | Misol | 95% | 95% | 95% |
| Ein Gwasanaethau | % cywirdeb tâl PCGC yn y cyfnod tâl | PCGC | Misol | 99.60% | 99.60% | 99.60% |
| Ein Gwasanaethau | % Cywirdeb Tâl Cyffredinol | Y ddau | Misol | 99.60% | 99.60% | 99.60% |
| Ein Gwasanaethau | % o Geisiadau Bwrsariaeth y GIG a broseswyd o fewn 20 diwrnod | PCGC | Misol | 100% | 100% | 100% |

## Atodiad D - Dangosyddion Perfformiad Allweddol

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwasanaethau'r Golchdy** | | | | | | |
| Ein Gwasanaethau | Archebion a anfonwyd i fodloni archebion sefydlog cwsmeriaid | PCGC | Wythnosol | 85% | 85% | 85% |
| Ein Gwasanaethau | Dosbarthiadau a wnaed o fewn 2 awr i'r amser dosbarthu y cytunwyd arno | PCGC | Wythnosol | 100% | 100% | 100% |
| Ein Gwasanaethau | Pwyntiau methiant cyswllt microbiolegol | PCGC | Wythnosol | 85% | 85% | 85% |
| Ein Gwasanaethau | Eitemau amhriodol a ddychwelwyd i'r golchdy gan gynnwys eitemau gwastraff clinigol | Cwsmer | Wythnosol | <5 | <5 | <5 |
| **Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg** | | | | | | |
| Ein Gwasanaethau | Amseroldeb cyngor rhagarweiniol – o fewn 3 diwrnod busnes | PCGC | Misol | 95% | 95% | 95% |
| Ein Gwasanaethau | Cau Achosion – Ymateb Boddhad Cleientiaid | PCGC | Misol | 95% | 95% | 95% |
| Ein Gwasanaethau | Ymatebion i'r Holiadur Bodlonrwydd Cleientiaid Blynyddol | PCGC | Blynyddol | Ymatebion naratif cadarnhaol | Ymatebion naratif cadarnhaol | Ymatebion naratif cadarnhaol |
| Ein Gwasanaeth | Cyflawni Achrediad Lexcel llwyddiannus | PCGC | Blynyddol | Cyflawni | Cyflawni | Cyflawni |
| Ein Pobl | Cyfarfod â'r grŵp ymgysylltu â staff yn fisol a chynhyrchu cylchlythyrau yn dilyn canlyniad y cyfarfodydd. | PCGC | Misol | 100% | 100% | 100% |
| Ein Gwasanaethau | Amser o'i ystyried gan y Panel Cynghori ar Ddysgu i'w gyflwyno i Bwyllgor Cronfa Risg Cymru | PCGC | Misol | 95% | 95% | 95% |
| **Archwilio Meddygol** | | | | | | |
| Ein Gwasanaethau | Cyfanswm yr achosion a gyfeiriwyd i'r Gwasanaeth Archwilio Meddygol | Y ddau | Misol | 100% | 100% | 100% |
| Ein Gwasanaethau | Llinellau amser - achosion a gaewyd o fewn 72 awr o dderbyn nodiadau | PCGC | Misol | > 90% | > 90% | > 90% |
| Ein Gwasanaethau | Llinell amser - craffu gan yr Archwilydd Meddygol o fewn 24 awr i dderbyn nodiadau | PCGC | Misol | 100% | 100% | 100% |
| Ein Gwasanaethau | Achosion "Byth" | PCGC | Misol | 0 | 0 | 0 |

## Atodiad D - Dangosyddion Perfformiad Allweddol

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwasanaethau Fferylliaeth** | | | | | | |
| Ein Gwasanaethau | Cwynion Gwasanaeth | Y ddau | Misol | Dim Cwynion | Dim Cwynion | Dim Cwynion |
| **Gofal Sylfaenol** | | | | | | |
| Ein Gwerth/Ein Gwasanaethau | DPA 1 - Ffeiliau Talu Gofal Sylfaenol yn cael eu hanfon i'r Cyfrifon Taladwy o fewn 5 diwrnod gwaith o wneud taliadau | PCGC | Misol | 100% | 100% | 100% |
| Ein Gwasanaethau | DPA 2 - Aseiniadau cleifion a weithredwyd o fewn 24 awr i dderbyn y cais | PCGC | Misol | 100% | 100% | 100% |
| Ein Gwasanaethau | DPA 4 - Cofnodion meddygol brys a drosglwyddwyd o fewn 2 ddiwrnod gwaith | PCGC | Misol | 100% | 100% | 100% |
| Ein Gwasanaethau | DPA 12 - Cyfraddau Cywirdeb Presgripsiynau yn cydymffurfio â’r Cytundeb Lefel Gwasanaeth (99%) | PCGC | Misol | 99% | 99% | 99% |
| **Caffael** | | | | | | |
| Ein Gwerth | Arbedion yn erbyn y Cynllun | Y ddau | Misol | £40 miliwn | £50 miliwn | |
| Ein Gwerth | Gwerth gwariant ychwanegol GIG Cymru o fewn yr Economi Sylfaenol* | Y ddau | Misol | I’w gadarnhau | I’w gadarnhau | |
| Ein Gwasanaethau | Nifer y trafodion a gasglwyd trwy weithredu Sganio er Diogelwch | Y ddau | Misol | 1,000,000 | 1,500,000 | 2,000,000 |
| Ein Gwasanaethau | Nifer y llinellau cynnyrch sydd wedi'u stocio'n genedlaethol | PCGC | Misol | 250 o linellau ychwanegol | I’w gadarnhau | |
| **Un Cyflogwr Arweiniol** | | | | | | |
| Ein Gwasanaethau | Ymholiadau wedi'u datrys o fewn 3 diwrnod gwaith | PCGC | Misol | 85% | 85% | 85% |
| Ein Gwasanaethau | Ymholiadau wedi'u datrys o fewn 10 diwrnod gwaith | PCGC | Misol | 95% | 95% | 95% |

## Atodiad D - Dangosyddion Perfformiad Allweddol

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Y Labordy Profi Dyfeisiau Llawfeddygol** | | | | | | |
| Ein Gwasanaethau | % adroddiadau Ymchwiliad Labordy a gwblhawyd o fewn 40 diwrnod o'u derbyn i'r labordy | PCGC | Misol | 90% | 91% | 92% |
| Ein Gwasanaethau | % o adroddiadau wedi eu harchwilio a gyflwynwyd yn brydlon (Masnachol) | PCGC | Misol | 91% | 92% | 93% |
| Ein Gwasanaethau | % o adroddiadau wedi eu harchwilio a gyflwynwyd yn brydlon (y GIG) | PCGC | Misol | 91% | 92% | 93% |
| Ein Gwasanaethau | Achrediad blynyddol Gwasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig (UKAS) | PCGC | Blynyddol | Wedi cyrraedd | Wedi cyrraedd | Wedi cyrraedd |
| Ein Gwasanaethau | Ymdrin â chanfyddiadau UKAS yn brydlon (Blynyddol) | PCGC | Blynyddol | Cwblhawyd | Cwblhawyd | Cwblhawyd |
| **Gwasanaethau Ystadau Arbenigol** | | | | | | |
| Ein Gwasanaethau | Amseroldeb cyngor | PCGC | Misol | 95% o ymatebion craffu achos busnes cychwynnol wedi'u dychwelyd i Lywodraeth Cymru erbyn y dyddiad y cytunwyd arno. | 95% o ymatebion craffu achos busnes cychwynnol wedi'u dychwelyd i Lywodraeth Cymru erbyn y dyddiad y cytunwyd arno. | 95% o ymatebion craffu achos busnes cychwynnol wedi'u dychwelyd i Lywodraeth Cymru erbyn y dyddiad y cytunwyd arno. |
| Ein Gwasanaethau | Boddhad Cwsmeriaid: % boddhad cwsmeriaid yn seiliedig ar wybodaeth yr arolwg | PCGC | Blynyddol | Boddhad o 95% - Arolwg i'w gwblhau ym mis Tachwedd 2025. | Boddhad o 95% - Arolwg i'w gwblhau ym mis Tachwedd 2026. | Boddhad o 95% - Arolwg i'w gwblhau ym mis Tachwedd 2027. |
| Ein Gwasanaethau | Problemau a Chwynion – ymdrin â hyn yn unol â gofynion y Protocol Rheoli Problemau a Chwynion (nifer y cwynion) | PCGC | Misol | 0 Cwyn | 0 Cwyn | 0 Cwyn |

*Atodiad E*

# Mesurau Canlyniadau:



GIG CYMRU NHS WALES
Partneriaeth Cydwasanaethau
Shared Services Partnership

| | Canlyniad | Mesur |
|---|---|---|
| Ein Pobl | Byddwn yn creu cyfleoedd i'n staff presennol a'n staff yn y dyfodol wneud y gorau o'u potensial a meithrin ein cyflenwad o dalent. | Cyfradd Dyrchafiadau Mewnol |
| | | Ystadegau Amrywiaeth |
| | | Y Rheswm dros Ymadael |
| | | Salwch |
| | | Cynigion Gwobrau Staff |
| | | Nifer yr Ymweliadau â'r Wefan |
| | | N75 / Prentisiaeth / Staff Graddedig |
| | Byddwn yn gwrando ar ein staff ac yn dysgu oddi wrthynt i gyd-gynhyrchu atebion arloesol gyda'n partneriaid. | Syniadau Arloesol |
| | | Trosiant staff |
| | | Nifer sy'n manteisio ar Hyfforddiant Iaith Gymraeg |
| | | Deiliadaeth Gyfartalog - Cadw Doniau |
| | | Cyfradd rhoi'r gorau iddi o 360 diwrnod |
| | | Cyfradd ymgeisydd i swydd wag |
| | Byddwn yn cynyddu amrywiaeth ein gweithlu ac yn hybu'r defnydd o'r Gymraeg ym mhopeth a wnawn | Arolwg Staff - Rwyf wedi cael AGDP yn y 12 mis diwethaf sydd wedi cefnogi fy natblygiad |
| | | Arolwg Staff - Rwy'n falch o ddweud wrth bobl fy mod yn gweithio i PCGC |
| | | Rwy'n cael cydnabyddiaeth am waith da |
| | | Mae'r sefydliad yn gwerthfawrogi fy ngwaith |
| | | Mae cyfleoedd i mi ddatblygu fy ngyrfa yn y sefydliad hwn |
| | | Mae gen i gyfleoedd i wella fy ngwybodaeth a fy sgiliau |
| | | Arolwg Staff - Rwy'n gallu gwneud gwelliannau yn fy maes gwaith |
| | Byddwn yn hyrwyddo llesiant corfforol, cymdeithasol, meddyliol ac ariannol ar draws yn sefydliad i gefnogi ein staff | Arolwg Staff - Rydym wedi'n grymuso a'n cefnogi i roi newid ar waith |
| | | Mae cyfleoedd yn aml i mi ddangos menter yn fy rôl |
| | | Mae gen i ddewis wrth benderfynu sut i wneud fy ngwaith |
| | | Mae fy sefydliad yn cymryd camau cadarnhaol ar iechyd a llesiant |
| | | Yn ystod y 12 mis diwethaf, ydych chi wedi cael problemau cyhyrysgerbydol o ganlyniad i weithgareddau gwaith? Ydw/Nac ydw |
| | | Yn ystod y 12 mis diwethaf, ydych chi wedi teimlo'n sâl o ganlyniad i straen sy'n gysylltiedig â gwaith? Ydw/Nac ydw |
| | | Yn ystod y tri mis diwethaf, ydych chi erioed wedi dod i'r gwaith er nad ydych chi'n teimlo'n ddigon da i gyflawni'ch dyletswyddau? Ydw/Nac ydw |

**Ein Gwasanaethau**

| Canlyniad | Mesur |
|---|---|
| Byddwn yn galluogi ein timau sy'n delio â chwsmeriaid i ddatrys y mwyafrif o ymholiadau yn y cyswllt cyntaf, trwy wella cyflymder ac ansawdd y gwasanaeth a phrofiad y cwsmer. | Galwadau a Atebwyd |
| | Tasgau Awtomataidd |
| | Nifer yr Ymweliadau â'r Wefan |
| Byddwn yn ysgogi arloesedd, gan osod y safon ar gyfer arfer da, a gwella ein prosesau drwy awtomeiddio | Nifer y syniadau arloesol a gynhyrchir gan weithwyr |
| | Achrediadau ee Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cwsmeriaid |
| Byddwn yn cael ein llywio gan ddata, gan rannu gwybodaeth â'n partneriaid i ddylanwadu ar y gwaith o wneud penderfyniadau ar draws GIG Cymru | Pa mor fodlon ydych chi ag ansawdd y gwasanaeth? |
| | Pa mor fodlon ydych chi â'r amseroedd ymateb gan [Cyfarwyddiaeth]? |
| | Cefais y staff yn broffesiynol ac yn gwrtais. |
| Byddwn yn meithrin partneriaethau ag arweinwyr diwydiant a sefydliadau academaidd ac yn ceisio statws Prifysgol | Pa mor hawdd oedd hi i chi gysylltu â'r [Cyfarwyddiaeth]? |
| | Os ydych chi erioed wedi codi pryder/ymholiad/problem gyda [Cyfarwyddiaeth] am y gwasanaeth maen nhw'n ei ddarparu, pa mor fodlon oeddech chi â'r ffordd y cafodd ei ddatrys? |

**Ein Gwerth**

| Canlyniad | Mesur |
|---|---|
| Byddwn yn arwain y ffordd ac yn mynnu'r newidiadau sydd eu hangen gan eraill i ymdrin â'r argyfwng newid hinsawdd a chyflawni targedau datgarboneiddio | Milltiroedd Cerbydau Trydan |
| | Allyriadau carbon – Co2e |
| | Costau Cludiant – Milltiroedd Busnes |
| Byddwn yn arwain cyfleoedd i gynyddu buddsoddiad yn yr economi sylfaenol ledled Cymru fel cyfran gynyddol o'n cadwyn gyflenwi | Defnydd Plastig |
| | Gwariant yng Nghymru |
| Byddwn yn gwneud penderfyniadau buddsoddi beiddgar sy'n ysgogi trawsnewid ac yn ychwanegu gwerth | Milltiroedd Cerbydau Trydan – Cadwyn Gyflenwi a Logisteg |
| | Adroddiad ansoddol yn amlinellu cynnydd cyfraniad GIG Cymru at ddatgarboneiddio fel yr amlinellir yng nghynllun y sefydliad |
| | Adroddiad ansoddol yn manylu ar dystiolaeth bod GIG Cymru yn datblygu ei ddealltwriaeth a'i rôl o fewn yr Economi Sylfaenol trwy gyflawni Rhaglen yr Economi Sylfaenol mewn Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Byddwn yn defnyddio ein hadnoddau yn effeithlon ac yn creu effaith gadarnhaol ar sail gymdeithasol a chynaliadwy | Buddion Dylanwad Proffesiynol |

## Atodiad F

# Dyletswydd Ansawdd:



GIG CYMRU NHS WALES
Partneriaeth Cydwasanaethau
Shared Services Partnership



Mae'r atodiad hwn yn dangos aliniad pellach i'n hymrwymiad i'r Ddyletswydd Ansawdd. Drwy gydol ein CTCI, rydym wedi mapio logos y Safon Iechyd a Gofal perthnasol i nodi ffrydiau gwaith cysylltiedig.

Gweithlu Workforce

**Archwilio a Sicrwydd:** Datblygu rhaglen cyflenwad staff, gan gynnwys hyfforddeion a phrentisiaid newydd. Sicrhau bod ymgeiswyr o safon, sy'n barod i ddiwallu anghenion y gwasanaeth yn y dyfodol.

**Gwasanaethau Ystadau Arbenigol:** Rhaglen datblygu recriwtio a hyfforddiant barhaus ar gyfer myfyrwyr Rhwydwaith 75. Bydd hyn yn gwella ansawdd gallu a chadernid y tîm.

**Gwasanaethau Caffael:** Datblygu galluoedd a chapasiti'r gweithlu i ddiwallu anghenion newidiol y sefydliad. Mae'r tîm yn edrych ar y gweithlu sy'n nesáu at oedran ymddeol ac a allai greu bylchau mewn sgiliau. Bydd yn sicrhau bod gweithlu medrus a phrofiadol.

**Pobl a Datblygu Sefydliadol:** Lansio a gwreiddio strategaeth cynllunio'r gweithlu a phecyn cymorth cysylltiedig. Bydd hyn yn sicrhau bod anghenion dysgu staff ar draws y sefydliad yn cael eu diwallu a'n bod yn datblygu gweithlu galluog.

**Datrysiadau Gweithlu Digidol:** Rhaglen Recriwtio Cymru Gyfan. Bydd hyn yn parhau i ddarparu cyflenwad moesegol, cynaliadwy o weithwyr gofal iechyd proffesiynol i weithlu GIG Cymru.

**Archwilio a Sicrwydd:** Ymgorffori strategaeth hyfforddi o fewn yr is-adran, gan gynnwys cysoni Adolygiadau Gwerthuso a Datblygu Personol – Bydd yr AGDP yn nodi anghenion hyfforddi ychwanegol a chyffredin i wella cymhwysedd y gweithlu.

**Datrysiadau Gweithlu Digidol:** Cefnogi'r agenda Cynhyrchiant a Gweithlu Meddygol Cenedlaethol – Defnyddio Grŵp Cenedlaethol y Gweithlu Meddygol i adolygu amcanion strategol a all wella'r gweithlu.

**Gwasanaethau Cyflogaeth:** Cefnogi staff gyda sgiliau digidol newydd a rheolaeth dosturiol – Wrth i rolau gael eu hailgynllunio a bod mwy o gymorth digidol yn cael ei gynnig, bydd hyn yn adlewyrchu sut mae'r gweithlu'n datblygu ac yn galluogi staff i deimlo'n fwy hyderus a medrus i gyflawni gwaith effeithiol.

**Gwasanaethau Fferylliaeth:** Cynyddu sgiliau a chadernid o fewn Gweithlu Gwasanaethau Technegol Cymru. Bwriad y rhaglenni hyfforddi yw uwchsgilio'r gweithlu presennol a'u galluogi i gyflawni tasgau a phrosiectau pellach.

## Diwylliant
Culture

**Un Cyflogwr Arweiniol:** Darparu cefnogaeth a chymorth i hyfforddeion â nodweddion gwarchodedig. Bydd hyn yn sicrhau bod pob unigolyn yn cael ei drin yn deg ac nad yw o dan anfantais oherwydd ei nodwedd, a fydd yn galluogi'r unigolyn i symud ymlaen a datblygu ei yrfa yng Nghymru.

**Pobl a Datblygu Sefydliadol:** Datblygu rhaglen o weithgareddau sy'n cynnig cyfleoedd i grwpiau a dangynrychiolir yn PCGC er mwyn cefnogi diwylliant cynhwysol. Bydd darparu amgylchedd gwaith cadarnhaol i'r holl staff yn galluogi gweithwyr i ffynnu fel gweithlu iach ac ymgysylltiol.

**Pobl a Datblygu Sefydliadol:** Parhau i greu diwylliant cadarnhaol ar draws PCGC, sy'n gwreiddio perthnasoedd gwaith iach, dulliau arweinyddiaeth gyfunol a thosturiol i alluogi staff i ddangos tosturi; codi eu llais; gwella'n barhaus; a dysgu.

**Gwasanaethau Ystadau Arbenigol:** Hyrwyddo gwasanaeth mentora i Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau i gefnogi datblygiad ystadau a gweithwyr proffesiynol – Mae'n dynodi ymhellach ddiwylliant cydweithredol, gan bwysleisio gwerth PCGC, sef cydweithio i gynyddu hyder ymhlith staff, sydd wedyn yn llywio profiad cwsmeriaid/cleifion.

## Gwybodaeth
Information

**Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg:** Datblygu ap teithio i fonitro treuliau ac ôl troed carbon. Bydd y data a gesglir o'r ap hwn yn cefnogi'r is-adrannau i leihau costau teithio ac ôl troed carbon.

**Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg:** Datblygu dulliau pellach o rannu data gyda chyrff iechyd cleientiaid er mwyn cefnogi gwell prosesau gwneud penderfyniadau. Bydd y wybodaeth a ddarperir yn nodi meysydd pwysau, gan alluogi'r gwasanaeth i ddyrannu adnoddau'n briodol.

**Gwasanaethau Fferylliaeth:** Mesur maint a chymhlethdod prinder meddyginiaethau a phroblemau cadwyn gyflenwi o fewn gofal sylfaenol ac eilaidd. Bydd data cyfunol yn hwyluso cymorth PCGC i Fyrddau Iechyd i reoli materion yn ymwneud â'r gadwyn gyflenwi a deall yr effaith ar gapasiti lleol wrth reoli'r heriau hyn.

**Gwasanaeth Atal Twyll y GIG:** Parhau i ganolbwyntio ar ddadansoddi data – Nod yr amcan hwn yw nodi ffrydiau gwasanaeth newydd mewn Gofal Sylfaenol sy'n addas ar gyfer dadansoddi data. Mae'r adran hefyd yn ceisio cysylltu â'r tîm dadansoddi data yn y Gwasanaethau Gofal Sylfaenol, i adalw gwybodaeth hanfodol am hawliadau optegol.

**Archwilio a Sicrwydd:** Darn thematig ar y ddyletswydd ansawdd.

**Tîm Canolog Gwasanaethau e-Fusnes:** Adolygiad Gwybodaeth Busnes o'r holl systemau, offer ac adroddiadau. Mae'r adroddiadau'n defnyddio gwybodaeth i nodi unrhyw fylchau neu ddyblygu yn yr offer a ddefnyddir.

## Gwella, dysgu ac ymchwil
Learning, improvement and research

**Datrysiadau Gweithlu Digidol:** Gwella ansawdd data'r gweithlu yn unol â Setiau Data Cenedlaethol y Gweithlu. Bydd hyn yn darparu ansawdd data'r gweithlu er mwyn galluogi gwell adrodd ar y gweithlu, cynllunio'r gweithlu a rheoli sefydliadol.

**Un Cyflogwr Arweiniol:** Asesu profiad hyfforddeion trwy ddefnyddio arolygon o Chwefror/Mawrth 2024 yn ystod y Broses Gynefino. Bydd yr hyn a ddysgwyd o'r arolygon hyn yn amlygu unrhyw faterion sy'n codi i'w gwella mewn pryd ar gyfer cynefino ym mis Awst a mis Medi.

**Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg:** Gweithio gyda chyrff y GIG i ymgorffori diwylliant o ddysgu gwell – sut i flaenoriaethu dysgu gwell o safbwynt hirdymor a ffyrdd y gellir cymhwyso hyn o fewn dull Cymru gyfan.

**Datrysiadau Gweithlu Digidol:** Gweithredu Rhaglen Gwella Ansawdd Gweithlu Digidol. Bydd y wybodaeth a gesglir yn annog rhannu atebion arloesol, yn ogystal â gweithredu gwelliannau a datblygiadau lle bo modd.

**Cyfrifon Taladwy:** Cefnogi a gweithredu unrhyw fentrau Caffael i Dalu sy'n deillio o'r cynllun gweithredu – gan ddefnyddio a dysgu mentrau newydd i gefnogi camau gweithredu amrywiol megis lleihau nifer yr anfonebau sy'n destun anghydfod.

**Tîm Canolog Gwasanaethau e-Fusnes:** Archwilio ei wasanaeth yn barhaus. Defnyddir y wybodaeth i ennill achrediad a gwelliannau i'r gwasanaeth.

## Ymagwedd systemau cyfan
Whole systems approach

**Gwasanaethau Cyflogaeth:** Gwerthuso'r Rhaglen Moderneiddio Recriwtio, i nodi cyfleoedd i symleiddio ymhellach a ffyrdd o leihau amser hurio. Bydd hyn yn darparu gwasanaeth recriwtio effeithlon sy'n bodloni anghenion cwsmeriaid.

**Datrysiadau Gweithlu Digidol:** Parhau i gynnal y cyflenwad parhaus o Nyrsys Asiantaeth i sefydliadau GIG Cymru drwy ddarparu Contract Asiantaeth Nyrsio Cymru Gyfan.

**Gwasanaethau Cyflogaeth:** Gwerthuso Rhaglen Moderneiddio'r gyflogres/recriwtio i nodi cyfleoedd am symleiddio pellach. Bydd hyn yn darparu gwasanaeth cyflogres modern ac effeithlon sy'n bodloni anghenion cwsmeriaid.

**Tîm Canolog Gwasanaethau e-Fusnes:** Datblygu Model Ailgodi Tâl Gwasanaeth System Rheolaeth Ariannol newydd. Y model hwn fydd yn ffitio orau ar gyfer GIG Cymru.

**Gwasanaethau Ystadau Arbenigol:** Darparu gwasanaethau gwell i Lywodraeth Cymru a sefydliadau iechyd y GIG i gefnogi agendâu datgarboneiddio – Cydweithio ac adolygu cynnydd gyda Llywodraeth Cymru i gefnogi'r Cynllun Gweithredu.


**Gwella Gwasanaeth:** Cyflawni'r Achrediad Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cwsmeriaid ar draws PCGC gyfan. Mae hyn yn rhoi sicrwydd i'n cwsmeriaid ein bod yn darparu gwasanaeth o ansawdd rhagorol.

**Pobl a Datblygu Sefydliadol:** Gweithredu Strategaeth Dysgu a Datblygu i fynd i'r afael ag anghenion dysgu staff ar draws y sefydliad. Canolbwyntio ar dyfu ein galluoedd arwain a rheoli pobl.

**Pobl a Datblygu Sefydliadol:** Cynnal Rhaglen Arwain ar gyfer Rhagoriaeth ac Arloesi. Mae'r rhaglen yn croesawu pob arweinydd i ddatblygu ei wybodaeth a'i sgiliau i fod yn arweinydd hyderus, effeithiol ac ysbrydoledig o fewn PCGC.

**Datrysiadau Gweithlu Digidol:** Arwain y gwaith o ddatblygu a gweithredu Rhaglen Trawsnewid Porth y Bobl – Mae'r is-adran hon yn arwain y rhaglen hon, gan arddangos arweinyddiaeth wrth greu system hyblyg ac ystwyth.





Diogel
Safe

**Gwasanaethau Fferylliaeth:** Cynnal trwyddedau a chofrestriadau rheoleiddiol a phroffesiynol. Bydd hyn yn darparu gwasanaeth meddyginiaethau rheoledig diogel, o ansawdd uchel, ar draws PCGC.

**Gwasanaethau Ystadau Arbenigol:** Cwblhau'r Rhaglen Gwella Diogelwch Tân. Bydd hyn yn darparu llwyfan diogelwch tân modern a dibynadwy.

**Y Labordy Profi Dyfeisiau Llawfeddygol:** Adolygu datblygiad cynhyrchion newydd o Uned Feddyginiaethau PCGC – Cefnogi Byrddau Iechyd partner gyda gwasanaethau aseptig, canser a gofal critigol lleol diogel.

Amserol
Timely

**Datrysiadau Gweithlu Digidol:** Cefnogi gweithrediad parhaus Rheolaeth Sefydliadol – Bydd Rheolaeth Sefydliadol yn cael ei weithredu yn unol ag anghenion pob sefydliad yn amserol, gan sicrhau gweithio yn unol â blaenoriaethau lleol.

**Gwasanaethau Cyflogaeth:** Gwerthusiad o'r Rhaglen Moderneiddio Recriwtio, symleiddio cyfleoedd a ffyrdd o leihau amser hurio – Trwy adolygu'r dechnoleg a ddefnyddir mewn rhaglenni recriwtio, bydd hyn yn nodi'r ffordd orau o leihau amser hurio, a lleihau ymestyn prosesau recriwtio yn ddiangen.

**Un Cyflogwr Arweiniol:** Sicrhau bod Hyfforddeion wedi'u cynefino yn gywir, a bod contractau'n cael eu cyhoeddi ar neu cyn y dyddiad cychwyn – Sicrhau bod hyfforddeion yn cael eu talu'n gywir yn ystod mis cyntaf eu cyflogaeth, ac nad oes unrhyw oedi anamserol.

**Tîm Canolog Gwasanaethau e-Fusnes:** Parhau i gyflwyno a datblygu offeryn adrodd newydd QlikView Cymru Gyfan. Bydd hyn yn lleihau'r amser a dreulir yn ailweithio ffigurau ariannol at ddibenion adrodd lluosog.

Effeithiol
Effective

**Gwasanaethau Caffael:** Moderneiddio warysau'r Ganolfan Ddosbarthu Genedlaethol, rheoli rhestr eiddo ysbytai a Model Trafnidiaeth a Logisteg ar gyfer GIG Cymru. Bydd hyn yn lleihau risg prinder posibl cynhyrchion critigol i wasanaethau cleifion.

**Gwasanaethau Caffael:** Gwella gweithrediadau a seilwaith y Gadwyn Gyflenwi, Logisteg a Thrafnidiaeth ar bob safle i leihau allyriadau carbon. Bydd hyn yn cyfrannu at fesurau strategaeth Datgarboneiddio GIG Cymru.

**Gwasanaethau Caffael:** Cynhaliodd y gwasanaeth sesiwn ym mis Tachwedd 2023 ar Weithdrefnau Gweithredu Safonol wedi'u diweddaru, i safoni arfer ledled Cymru.

**Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg a Chronfa Risg Cymru:** Datrysiad rheoli dogfennau ac achosion tymor hir mewn cyfnodau wedi'u blaenoriaethu – Creu ffordd fwy effeithiol o ddarparu gwasanaeth cyfreithiol diogel, effeithiol ac effeithlon i gwsmeriaid.

Effeithlon
Efficient

**Tîm Canolog Gwasanaethau e-Fusnes:** Rhyddhau adnoddau trwy gymhwyso technoleg awtomataidd. Yn canolbwyntio ar wneud y defnydd gorau o adnoddau, gan gynnwys amser staff, i gyflawni canlyniadau gwell heb gyfaddawdu ar ansawdd.

**Gwasanaethau Fferylliaeth:** Nodi meddyginiaethau didrwydded a ddefnyddir yn rheolaidd ledled Cymru a manylebau meddyginiaethau sy'n cael eu prynu'n rheolaidd ac sy'n addas i'w rhoi ar gontract allanol. Bydd hyn yn effeithlon o ran lleihau amrywiadau yn y gwariant ar feddyginiaethau ledled Cymru.

**Gwasanaeth Golch Cymru Gyfan:** Cyflwyno dangosfwrdd effeithlonrwydd ynni, a fydd yn bwrw golwg ar systemau adfer gwres o ddŵr gwastraff a systemau adfer stêm. Bydd hyn yn cynyddu effeithlonrwydd ar draws y gwasanaeth.

**Datrysiadau Gweithlu Digidol:** Arwain y gwaith o ddatblygu a gweithredu Rhaglen Trawsnewid Porth y Bobl – gwella'r ffordd y caiff gwaith ei wneud yn y GIG drwy sicrhau parodrwydd sefydliadol, drwy olrhain cynnydd yn erbyn cynlluniau gweithredu lleol.

**Gwasanaethau Cyflogaeth:** Hyrwyddo effeithlonrwydd gwasanaethau trwy awtomeiddio digidol – trwy ddefnyddio adnoddau digidol newydd, a phrosesau awtomeiddio, gall hyn gefnogi staff i gwblhau tasgau yn fwy effeithlon ac yn llyfnach.

Teg
Equitable

**Un Cyflogwr Arweiniol:** Darparu cymorth pwrpasol wedi'i deilwra i hyfforddeion tramor sy'n newydd i'r Deyrnas Unedig i'w cynorthwyo i ymgartrefu yn eu swydd yng Nghymru. Mae hyn yn sicrhau bod pob hyfforddai'n cael y cymorth gofynnol fel eu bod yn cael cyfle cyfartal yn eu rôl newydd.

**Gwasanaethau Archwilio Meddygol:** Cwrdd â'r holl ofynion deddfwriaethol, hy, 100% o farwolaethau nad ydynt yn cael eu cyfeirio'n uniongyrchol at y crwner, a chraffu arnynt yn amserol - Trwy weithredu'r broses graffu hon, mae'n cydnabod bod gofynion crefyddol cyferbyniol ar gyfer claddedigaethau, gan wneud y broses yn decach.

**Un Cyflogwr Arweiniol:** Darparu'r cymorth angenrheidiol i Hyfforddeion â nodweddion gwarchodedig – Sicrhau bod pob Hyfforddai'n cael ei drin mewn modd teg a diduedd, ac nad oes unrhyw unigolion dan anfantais. Sicrhau bod pob hyfforddai'n profi amgylchedd gwaith cadarnhaol a chalonogol.

**Gwasanaeth Golch Cymru Gyfan:** Datblygu hyfforddiant amlieithog – Cyfrannu at wneud yr is-adran yn weithle teg, trwy gydnabod sut mae amrywiaeth eang o genhedloedd mewn Golchdai, a mynd i'r afael â sut i'w cefnogi'n well mewn hyfforddiant, a darparu mynediad rhwyddach.

Person ganolog
Person centred


**Gwasanaethau Cyflogaeth:** Hyrwyddo strategaethau cynaliadwyedd/ trawsnewid y gweithlu, trwy ddarparu mwy o ddealltwriaeth o rolau staff sy'n gweithio yn y gymuned – Gan fod y rhain yn dylanwadu'n uniongyrchol ar sut y darperir gofal yn y gymuned, mae'r amcan hwn yn canolbwyntio ar bobl, a sut i gefnogi penderfyniadau rhwng staff ar y ffordd orau o flaenoriaethu gofal ac anghenion cleifion.

**Pobl a Datblygu Sefydliadol:** Ymgorffori ymagwedd newydd at gysylltiadau gweithwyr lle mae ein pobl yn ganolog i bopeth a wnawn, gyda'r nod o leihau'r niwed a achosir i staff, tystion ac ymchwilwyr wrth ymdrin ag ymchwiliadau gweithwyr.



ATODIAD G

# Cynlluniau Blwyddyn 2 a Blwyddyn 3:



GIG CYMRU NHS WALES

Partneriaeth Cydwasanaethau
Shared Services Partnership

# Blwyddyn 2 Cynllun ar Dudalen

*Yn cyd-fynd â'n Hamcanion Strategol a'n Canlyniadau*

GIG CYMRU NHS WALES | Partneriaeth Cydwasanaethau Shared Services Partnership

## Ein Pobl

**Byddwn yn creu cyfleoedd i'n staff presennol a'n staff yn y dyfodol wneud y gorau o'u potensial a meithrin ein cyflenwad o dalent.**

Datblygu a digideiddio llwyfannau dysgu fel rhan o'n Datrysiadau Gweithlu Digidol, gan gefnogi datblygiad proffesiynol parhaus y Gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol heddiw ac yn y dyfodol.

Datblygu gallu a chapasiti'r gweithlu i ddiwallu anghenion newidiol y sefydliad, gan gynnwys recriwtio, cadw, olyniaeth, hyfforddi a datblygu.

**Byddwn yn cynyddu amrywiaeth ein gweithlu ac yn hybu'r defnydd o'r Gymraeg ym mhopeth a wnawn.**

Darparu cymorth pwrpasol wedi'i deilwra i Hyfforddeion Tramor sy'n newydd i'r Deyrnas Unedig i'w cynorthwyo i ymgartrefu yn eu swydd yng Nghymru.

Cefnogi hyfforddeion i ddatblygu ac ymestyn eu sgiliau Iaith Gymraeg trwy ddarparu'r rhaglenni hyfforddiant ac addysgol perthnasol.

**Byddwn yn hyrwyddo llesiant corfforol, cymdeithasol, meddyliol ac ariannol ar draws y sefydliad i gefnogi ein staff.**

Yn ôl yr angen, cynllunio a gweithredu seilwaith i weinyddu trefniadau cytundebol newydd ar gyfer hyfforddeion meddygol a deintyddol yng Nghymru os caiff ei fabwysiadu.

Sicrhau bod hyfforddeion yn cael eu cynefino yn gywir, bod contractau cyflogaeth yn cael eu cyhoeddi ar neu cyn y dyddiad cychwyn a bod Hyfforddeion yn cael eu talu'n gywir yn ystod mis cyntaf eu cyflogaeth.

**Byddwn yn gwrando ar ein staff ac yn dysgu oddi wrthynt i gyd-gynhyrchu atebion arloesol gyda'n partneriaid.**

Datblygu a gweithredu rhaglen archwilio a gwerthuso mewnol gweithlu digidol.

Gwella'n barhaus y newidiadau ymgorfforedig a gyflawnir trwy'r Rhaglen Drawsnewid mewn Gwasanaethau Gofal Sylfaenol.

## Ein Gwasanaethau

**Byddwn yn galluogi ein timau sy'n delio â chwsmeriaid i gau mwyafrif yr ymholiadau ar y cyswllt cyntaf, trwy wella cyflymder y gwasanaeth, ansawdd a phrofiad.**

Cydlynu datblygiad a chymorth desg wasanaeth ar gyfer Gwella Gwasanaeth Sganio er Diogelwch yn barhaus ac adolygu'r gofynion o ran y gweinydd.

Archwilio'r opsiynau dosbarthu ar gyfer y 4 golchdy sy'n weddill o ran ffiniau daearyddol i sicrhau ein bod yn gwneud y mwyaf o'r capasiti gorau ym mhob safle.

**Byddwn yn ysgogi arloesedd, gan osod y safon ar gyfer arfer da, a gwella ein prosesau drwy awtomeiddio.**

Adolygu a, lle bo'n briodol, diwygio polisïau a gweithdrefnau gweithredol o fewn ein Gwasanaeth Archwilwyr Meddygol.

Gwasanaeth Archwilwyr Meddygol. Arwain datblygiad a gweithrediad Rhaglen Trawsnewid Porth y Bobl.

**Byddwn yn meithrin partneriaethau ag arweinwyr diwydiant a sefydliadau academaidd ac yn ceisio statws Prifysgol.**

Ymestyn a gwella gwaith partneriaeth gyda chynrychiolwyr presennol yr hyfforddeion a Chymdeithas Feddygol Prydain i barhau i ddatblygu a gwella'r gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd.

Bydd ein Hwb Arloesedd yn parhau i adeiladu ar bartneriaethau sy'n dod i'r amlwg gyda sefydliadau academaidd a phartneriaid eraill ar draws GIG Cymru.

**Byddwn yn cael ein llywio gan ddata, gan rannu gwybodaeth â'n partneriaid i ddylanwadu ar y gwaith o wneud penderfyniadau ar draws GIG Cymru.**

Gwella effeithiolrwydd ein dull archwilio drwy Ddadansoddeg Data gan ddefnyddio ystod ehangach o Ddata GIG Cymru.

Cymryd rhan yn ffrwd waith Canolfan Rhagoriaeth Iechyd Galwedigaethol Cymru Gyfan i ddylanwadu ar 'system' Cymru Gyfan a phrosesau technegol i gefnogi'r gwasanaeth, a'u cynnal.

## Ein Gwerth

**Byddwn yn gwneud penderfyniadau buddsoddi beiddgar sy'n ysgogi trawsnewid ac yn ychwanegu gwerth.**

Parhau i adeiladu sylfaen cleientiaid masnachol ar gyfer y gwaith sicrwydd technegol ac asesu tystiolaeth o fewn Gwasanaeth ein Labordy Profi Deunyddiau Llawfeddygol.

Sefydlu gwasanaeth dosbarthu meddyginiaethau gofal cartref cenedlaethol yn seiliedig ar ganlyniadau o gynlluniau Gwasanaethau Fferylliaeth 2024-25.

**Byddwn yn arwain y ffordd ac yn mynnu'r newidiadau sydd eu hangen gan eraill i ymdrin â'r argyfwng newid hinsawdd a chyflawni targedau datgarboneiddio.**

Cyflawni cyfraniad caffael at Gynllun Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru.

Cynyddu cyfran y cerbydau Trydan/Hybrid sy'n rhan o'r fflyd Aberthu Cyflog i 90% yn ystod 2024-25.

**Byddwn yn defnyddio ein hadnoddau'n effeithlon ac yn cael effaith gadarnhaol ar sail gymdeithasol a chynaliadwy.**

Gwella gweithrediadau a seilwaith y Gadwyn Gyflenwi, Logisteg a Thrafnidiaeth ar bob safle i leihau allyriadau carbon.

Datblygu strategaeth arbedion ac adrodd cenedlaethol, lleol, ariannol ac anariannol y cytunwyd arni, sy'n cael ei darparu'n barhaus o fewn y Gwasanaethau Caffael.

**Byddwn yn arwain cyfleoedd i gynyddu buddsoddiad yn yr economi sylfaenol ledled Cymru fel cyfran gynyddol o'n cadwyn gyflenwi.**

Cyflawni cynllun gwaith cytunedig ar yr Economi Sylfaenol i'r GIG yn gysylltiedig â Chaffael.

Bydd ein hymrwymiad i'r agenda ehangu mynediad yn parhau i esblygu i sicrhau ein bod yn darparu cyfleoedd cyflogaeth a thwf i'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

# Blwyddyn 3 Cynllun ar Dudalen

*Yn cyd-fynd â'n Hamcanion Strategol a'n Canlyniadau*

GIG CYMRU NHS WALES | Partneriaeth Cydwasanaethau Shared Services Partnership

## Ein Pobl

**Byddwn yn creu cyfleoedd i'n staff presennol a'n staff yn y dyfodol wneud y gorau o'u potensial a meithrin ein cyflenwad o dalent.**

Gwella mynediad at y proffesiwn cyfreithiol trwy barhau i ddefnyddio prentisiaethau cyfreithiol.

Cynnal ac ehangu tîm ymchwilio ariannol a gwybodaeth ariannol yng Ngwasanaeth Atal Twyll Cymru sydd ag adnoddau da, a pharhau i gynyddu ein hadenillion.

**Byddwn yn cynyddu amrywiaeth ein gweithlu ac yn hybu'r defnydd o'r Gymraeg ym mhopeth a wnawn.**

Cefnogi hyfforddeion i ddatblygu ac ymestyn eu sgiliau Iaith Gymraeg trwy ddarparu'r rhaglenni hyfforddiant ac addysgol perthnasol.

Yn seiliedig ar waith cwmpasu blaenorol, ac asesu anghenion a galwadau am gyfieithu i'r Gymraeg ar draws GIG Cymru, ystyried caffael meddalwedd cof cyfieithu Cymru gyfan i gynorthwyo â rheoli'r galw.

**Byddwn yn hyrwyddo llesiant corfforol, cymdeithasol, meddyliol ac ariannol ar draws y sefydliad i gefnogi ein staff.**

Sicrhau bod hyfforddeion yn cael eu cynefino yn gywir, bod contractau cyflogaeth yn cael eu cyhoeddi ar neu cyn y dyddiad cychwyn a bod Hyfforddeion yn cael eu talu'n gywir yn ystod mis cyntaf eu cyflogaeth.

Parhau â'n gwaith ar gefnogi gweithlu iach ac ymgysylltiol trwy ein Fframwaith a'n Hyrwyddwyr Iechyd a Lles.

**Byddwn yn gwrando ar ein staff ac yn dysgu oddi wrthynt i gyd-gynhyrchu atebion arloesol gyda'n partneriaid.**

Adolygu ac adrodd ar yr opsiynau strategol hirdymor ar gyfer gwasanaethau'r System Rheolaeth Ariannol.

Dylunio mwy o brosiectau gwella gwasanaethau ar gyfer detholiad o'n timau cyfreithiol.

## Ein Gwasanaethau

**Byddwn yn galluogi ein timau sy'n delio â chwsmeriaid i gau mwyafrif yr ymholiadau ar y cyswllt cyntaf, trwy wella cyflymder y gwasanaeth, ansawdd a phrofiad.**

Mae tîm yr Un Cyflogwr Arweiniol yn parhau i wella ar y llinell sylfaen, gan gau'r rhan fwyaf o ymholiadau ar y cyswllt cyntaf o fewn tri diwrnod gwaith a chau ymholiadau cymhleth o fewn deg diwrnod gwaith.

Parhau i gefnogi gwelliannau wrth ddatrys ac ymdrin ag ymholiadau trwy waith cyflawni a gwella yn gysylltiedig â'n Hachrediad Gwasanaeth Cwsmeriaid.

**Byddwn yn ysgogi arloesedd, gan osod y safon ar gyfer arfer da, a gwella ein prosesau drwy awtomeiddio.**

Arwain datblygiad a gweithrediad Rhaglen Trawsnewid Porth y Bobl.

Archwilio ehangu'r gwasanaethau a gynigir i gefnogi Cynaliadwyedd Gofal Sylfaenol GIG Cymru a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

**Byddwn yn meithrin partneriaethau ag arweinwyr diwydiant a sefydliadau academaidd ac yn ceisio statws Prifysgol.**

Parhau i ymestyn a gwella gwaith partneriaeth gyda chynrychiolwyr presennol yr hyfforddeion a Chymdeithas Feddygol Prydain i barhau i ddatblygu a gwella'r gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd.

Parhau i hyrwyddo cyfleoedd trwy ddigwyddiadau Gyrfaol mewn partneriaeth ag addysg, elusennau ac asiantaethau sy'n cefnogi mynediad i leoliadau gwaith cynhwysol.

**Byddwn yn cael ein llywio gan ddata, gan rannu gwybodaeth â'n partneriaid i ddylanwadu ar y gwaith o wneud penderfyniadau ar draws GIG Cymru.**

Asesu gofynion yr Asesiad Ansawdd Allanol newydd yn ein proses Archwilio a Sicrwydd, wrth baratoi ar gyfer yr Asesiad Ansawdd Allanol nesaf.

Datblygu darpariaeth gwasanaethau ymchwilio ariannol i wasanaethau eraill yn y sector cyhoeddus yng Nghymru.

## Ein Gwerth

**Byddwn yn gwneud penderfyniadau buddsoddi beiddgar sy'n ysgogi trawsnewid ac yn ychwanegu gwerth.**

Asesu'r cyfleoedd i ymestyn gwasanaethau y tu hwnt i'r ffiniau presennol o fewn ein Gwasanaeth Archwilwyr Meddygol ee gwasanaethau marwdy a phrofedigaeth.

Cwblhau paratoi tendrau gwasanaeth a reolir System Rheolaeth Ariannol GIG Cymru.

**Byddwn yn arwain y ffordd ac yn mynnu'r newidiadau sydd eu hangen gan eraill i ymdrin â'r argyfwng newid hinsawdd a chyflawni targedau datgarboneiddio.**

Cyflawni cyfraniad caffael at Gynllun Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru.

Byddwn yn adolygu ac yn mireinio ein cynlluniau ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd i ymateb i flaenoriaethau sy'n esblygu yng Nghymru.

**Byddwn yn defnyddio ein hadnoddau'n effeithlon ac yn cael effaith gadarnhaol ar sail gymdeithasol a chynaliadwy.**

Adolygu Model Ailgodi Tâl Gwasanaeth y System Rheolaeth Ariannol newydd, i sicrhau ei fod yn addas at y diben.

Byddwn yn gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau ariannol, gan sicrhau bod penderfyniadau buddsoddi doeth yn meithrin effeithlonrwydd ac yn gwella'r modd y darperir gwasanaethau cynaliadwy.

**Byddwn yn arwain cyfleoedd i gynyddu buddsoddiad yn yr economi sylfaenol ledled Cymru fel cyfran gynyddol o'n cadwyn gyflenwi.**

Cyflawni cynllun gwaith cytunedig ar yr Economi Sylfaenol i'r GIG yn gysylltiedig â Chaffael.

Byddwn yn parhau â'n hymrwymiad i wella ein hymagwedd at ehangu mynediad i'n cymunedau, gan ei haddasu i gyd-fynd â thirwedd esblygol Cymru.

Partneriaeth Cydwasanaethau
Shared Services Partnership

*Diolch am ddarllen ein Cynllun Tymor Canolig Integredig. Os hoffech chi gael gwybod mwy, ewch i'n gwefan, ein sianeli cyfryngau cymdeithasol, neu defnyddiwch y manylion cyswllt isod:*


02921 500500

shared.services@wales.nhs.uk

www.nwssp.wales.nhs.uk

@nwssp

Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru

Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
4-5 Charnwood Court,
Hoel Billingsley,
Parc Nantgarw,
Caerdydd,
CF15 7QZ



*Dyluniwyd y ddogfen hon gan Dîm Cyfathrebu PCGC.*
*nwssp.communications@wales.nhs.uk*